



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Mawrth 8 Mehefin 1999

Tuesday 8 June 1999

Cynnwys Contents

- | | |
|----|--|
| 2 | Datganiadau gan y Llywydd
Statements by the Presiding Officer |
| 3 | Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd
Questions to the First Secretary |
| 14 | Y Diwydiant Dur yng Nghymru
The Steel Industry in Wales |
| 27 | Datganiad Busnes
Business Statement |
| 30 | Y Cyngor Partneriaeth a Chynlluniau Partneriaeth Eraill
The Partnership Council and other Partnership Schemes |
| 55 | Dadl Fer: Llais Cryf i Gymru yn Ewrop
Short Debat: Strong Welsh Voice in Europe |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefaryd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Datganiadau gan y Llywydd Statements by the Presiding Officer

Y Llywydd: Fe nodais yn ystod y Sesiwn Llawn ar 25 Mai y byddem yn edrych ar fater iaith sy'n camwahaniaethu yn y Cynulliad, ac yn gwneud datganiad. Mae Rheol Sefydlog Rhif 7.2 yn gwahardd Aelodau rhag defnyddio iaith sydd, ym marn y Llywydd, yn groes i'r drefn, yn camwahaniaethu neu yn peri tramgwydd.

Mater i mi fel Llywydd fydd penderfynu beth yw iaith sy'n groes i'r drefn neu yn peri tramgwydd. Fodd bynnag, yr wyf yn ystyried bod iaith hiliol, iaith sy'n gwahaniaethu ar sail rhyw neu ar unrhyw sail arall, a honiadau yn erbyn Aelodau, yn peri tramgwydd. Ni allaf ganiatáu defnyddio iaith o'r fath. Mae hyn hefyd yn groes i brotocol y Llywydd ynglŷn ag ymddygiad Aelodau yn y Cynulliad. Yn y dyfodol, byddaf yn galw i drefn unrhyw Aelod sy'n defnyddio termau o'r fath. Nid wyf yn awyddus i orfod gweithredu yn y modd hwn, a gobeithiaf y bydd Aelodau yn defnyddio ychydig o hunan-reolaeth.

Bydd yn rhaid imi alw i drefn unrhyw Aelodau sy'n gwneud honiadau, yn uniongyrchol neu drwy ensyniad, sy'n cyfeirio at ymddygiad neu gymeriad Aelod arall. Mae ymddwyn fel hyn yn niweidio hygredd y Cynulliad yng ngolwg y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu. Felly, i sicrhau y cynhelir y trafodion mewn dull trefnus a phriodol, mae'n hanfodol i'r Aelodau ddangos parch a chwarteisi at Aelodau eraill yn y Siambr bob amser. Yr wyf yn sicr fy mod yn adlewyrchu barn yr Aelodau wrth ddweud hynny.

The Presiding Officer: I indicated during the Plenary session on 25 May that we would look at discriminatory language in the Assembly and that a statement would be made. Standing Order No. 7.2 forbids Members from using language that is, in the view of the Presiding Officer, disorderly, discriminatory or offensive.

It will be a matter for me as Presiding Officer to decide what constitutes disorderly or offensive language. However, I consider that racist, sexist or other discriminatory language, and allegations against Members, are offensive. I cannot allow use of such language. This is also contrary to the Presiding Officer's protocol on Members' conduct within the Assembly. In future, I will call to order any Member who uses such terms. I am not eager to do this, and I hope that Members will practice some self-control.

I will also have to call to order any Members who make allegations, directly or through insinuation, which refer to the behaviour or character of other Members. Such conduct is detrimental and damages the Assembly's credibility in the eyes of the people we serve. Therefore, to ensure that the proceedings are held in an orderly and proper manner, it is essential that Members show each other due courtesy and respect at all times in the Chamber. I am sure that, in saying this, I am reflecting the views of Members.

Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary

Addysg Cyn-ysgol Pre-school education

C1 Cynog Dafis: Sut mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu hyrwyddo ymhellach bartneriaeth effeithiol i sicrhau cyfundrefn gynhwysfawr o addysg gofal cyn-ysgol? (OAQ89VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf wedi gofyn i awdurdodau addysg lleol gyflwyno eu cynlluniau datblygu addysg gynnar ar gyfer 1999 i 2000.

Derbyniwyd y cynlluniau erbyn hyn ac maent yn cael eu hystyried yn ofalus. Maent yn dangos y modd y mae partneriaethau blynyddoedd cynnar yn datblygu, ac yn canolbwyntio ar addysg i blant pedair blwydd oed. Mae'r partneriaethau wedi cael cefnogaeth hefyd ar gyfer darpariaeth i blant teirblwydd oed.

Gyda'r partneriaethau ym mhob ardal, yr ydym yn symud tuag at fwy o integreiddio o ran addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant. Dyna'r pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud. Mae dwyn pethau ynghyd fel hyn yn bwysig er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o'r datblygiadau hyn.

Cynog Dafis: A yw Alun Michael yn ystyried ei bod yn drychinebus fod grwpiau meithrin gwirfoddol—rhai Cymraeg a rhai Saesneg—yn cau wrth yr ugeinau, a bod plant mor ifanc â thair oed yn cael eu tynnu i mewn i ysgolion, a hynny i ddosbarthiadau derbyn lle mae'r ddarpariaeth yn amhriodol ac o bosibl yn gwneud mwy o ddrwg nag o les yn addysgol?

Mae'n digwydd achos bod ysgolion yn elwa'n ariannol o gael plant ar seddau yn y dosbarthiadau hyn. Mae'n digwydd yn ogystal oherwydd bod yr awdurdodau lleol mewn rhai lleoedd yn dominyddu'r partneriaethau er eu budd hwy eu hunain, yn hytrach na thrin y sector gwirfoddol fel

Q1 Cynog Dafis: How does the First Secretary intend to further promote an effective partnership to ensure a comprehensive pre-school education care system? (OAQ89VB)

The First Secretary: I have asked local education authorities to submit their early-learning development plans for 1999 to 2000.

The plans have now been received and are being considered carefully. They show the way that the early-years partnerships are developing, and concentrate on the provision of education for four-year-olds. Partnerships have also been given support for provision for three-year-olds.

Together with the partnerships in each area, we are proceeding towards greater integration of early-years education and childcare. That is the point the Member is making. This sort of combined approach is important in order to achieve the best possible outcome from these developments.

Cynog Dafis: Does Alun Michael consider that it is disastrous that voluntary nursery groups—Welsh and English—are closing by the score, and that children as young as three years old are being drawn into schools, to reception classes where the provision they receive is inappropriate and possibly does more damage than good educationally?

It happens because schools profit financially from getting children on seats in these classes. It happens also because local authorities in some places dominate partnerships for their own benefit, instead of treating the voluntary sector as an equal partner.

partner cyfartal.

Pa ddull y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i ymyrryd er mwyn sicrhau bod cyfraniad y sector gwirfoddol yn cael ei warchod a'i ddatblygu ymhellach?

Y Prif Ysgrifennydd: Mater ydyw i'r bartneriaeth ym mhob ardal geisio cael y cydbwysedd cywir rhwng y sector gwirfoddol a'r hyn sy'n digwydd mewn ysgolion. Bydd y Cynulliad yn sicr yn dymuno ystyried y cynlluniau hyn drwy'r Pwyllgor perthnasol.

Mae'n anodd sicrhau bod y cydbwysedd yn gywir. Mae'n bwysig sicrhau bod plant ifanc yn derbyn cefnogaeth ac yn derbyn hynny'n gynnar yn eu haddysg. Mae rhoi cefnogaeth iddynt hwy a'u rhieni yn y blynyddoedd cynnar yn bwysig.

Val Feld: The First Secretary will be aware that the Welsh Office has been working for many months on the development of a childcare strategy for Wales. Can he update us on progress on this strategy, and give an outline of the way the links between implementing the strategy and improving pre-school education will be made?

The First Secretary: This is a very important point. We have asked the partnerships to integrate their planning for early-years education and childcare, so that parents and children have access to both. The key aims of the childcare strategy are to increase the quality of care to make it more affordable, and to make it more accessible by increasing the number of places where necessary.

To pursue this, I previously announced funding of £2.4 million for the childcare strategy in Wales in 1999 and 2000. For future years we will encourage partnerships to bring early education and childcare together in a single plan. It is extremely important to get a balance between early-years education and childcare. It is not easy to achieve, but we need to work with the local partnerships to get as close as possible

What method will the Government of Wales use to intervene in order to ensure that the voluntary sector's contribution is protected and further developed?

The First Secretary: It is a question for the partnerships in each area to endeavour to secure the correct balance between the voluntary sector and what happens in schools. The Assembly will certainly wish to consider these plans through the relevant Committee.

It is difficult to secure the correct balance. It is important to ensure that young children are supported and that they receive this support at the beginning of their education. Support for them and their parents in the early years is important.

Val Feld: Bydd y Prif Ysgrifennydd yn ymwybodol bod y Swyddfa Gymreig yn gweithio ers misoedd lawer ar ddatblygu strategaeth gofal plant i Gymru. A oes modd iddo roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynnydd ar y strategaeth hon, ac amlinellu'r modd y creir y cysylltiadau rhwng gweithredu'r strategaeth a gwella addysg cyn-ysgol?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae hyn yn bwynt pwysig iawn. Yr ydym wedi gofyn i'r partneriaethau integreiddio eu cynllunio ar gyfer addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar, fel bod gan rieni fynediad at y ddau. Prif amcanion y strategaeth gofal plant yw gwella ansawdd y gofal er mwyn ei wneud yn haws ei fforddio, a'i wneud yn fwy hygyrch drwy gynyddu nifer y lleoedd pan fo angen.

Er mwyn ceisio cyflawni hynny, yr oeddwn wedi cyhoeddi cyllid o £2.4 miliwn i'r strategaeth gofal plant yng Nghymru yn 1999 a 2000. Ar gyfer blynyddoedd y dyfodol byddwn yn annog partneriaethau i gyfuno addysg a gofal plant cynnar mewn un cynllun. Mae'n bwysig dros ben cael cydbwysedd rhwng addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar. Nid yw'n hawdd ei gyflawni, ond rhaid inni weithio gyda'r

to the ideal.

partneriaethau lleol i ddod mor agos â phosibl at y ddelfryd.

Jenny Randerson: Would you agree that, despite relatively high levels of provision for under-fives in many areas of Wales, it is not possible to meet the needs and demands from ethnic minority and religious groups except through working closely with voluntary and other sectors? In other words, local or education authority provision is often not suitable for those groups. It is not what they desire. Should the Assembly be proactive in developing an approach with these groups?

Jenny Randerson: A fyddech yn cytuno, er gwaethaf lefelau cymharol uchel y ddarpariaeth i blant dan bump oed mewn llawer ardal yng Nghymru, nad oes modd ateb yr anghenion a'r galwadau oddi wrth grwpiau lleiafrifoedd ethnig a chrefyddol heblaw drwy weithio'n agos gyda'r sector gwirfoddol a sectorau eraill? Mewn geiriau eraill, nid yw darpariaeth yr awdurdod lleol neu'r awdurdod addysg yn addas yn aml i'r grwpiau hyn. Nid yw'n cyflawni eu dymuniadau. A ddylai'r Cynulliad fod yn rhagweithiol wrth ddatblygu dull gweithredu gyda'r grwpiau hyn?

The First Secretary: Indeed. The partnership with the voluntary sector across the whole range of social issues is extremely important. There are particular areas where a concentration of needs like those Jenny referred to make it extremely important as part of the core working of the partnership. In many parts of Wales there is, historically, a high level of maintained nursery provision. Prior to September 1998, about 94 per cent of four-year-olds, and 51 per cent of three-year-olds received part-time education in a maintained setting. That is a starting point, but the specific needs of particular groups do need to be considered, and attention needs to be given to religious and community groups and their concerns and wishes for their children.

Y Prif Ysgrifennydd: Wrth gwrs. Mae'r bartneriaeth gyda'r sector gwirfoddol ar draws holl amrediad y materion cymdeithasol yn bwysig tu hwnt. Ceir meysydd penodol lle y mae crynhoad o anghenion fel y rhai y cyfeiriodd Jenny atynt yn peri bod hynny'n bwysig iawn fel rhan o waith craidd y bartneriaeth. Mewn llawer rhan o Gymru, yn hanesyddol, fe geir lefel uchel o ddarpariaeth feithrin wladol. Cyn Medi 1998, yr oedd tua 94 y cant o blant pedair oed, a 51 y cant o blant tair oed yn derbyn addysg ran-amser mewn lleoliad cynaledig. Mae hynny'n fan cychwyn, ond rhaid rhoi ystyriaeth i'r anghenion arbennig sydd gan grwpiau penodol, ac mae angen rhoi sylw i grwpiau crefyddol a chymunedol a'u pryderon a'u dymuniadau ar gyfer eu plant.

Strategaeth Fiomas Biomass Strategy

Q2 Mick Bates: What plans are being prepared to develop a Welsh biomass strategy, which would provide local heat and power production plants? [R] (OAQ73VB)

C2 Mick Bates: Pa gynlluniau sydd ar y gweill i ddatblygu strategaeth fiomas ar gyfer Cymru a fyddai'n darparu gorsafoedd lleol i gynhyrchu gwres a phŵer? [R] (OAQ73VB)

The First Secretary: The Government is committed to an energy policy that promotes cleaner and more efficient energy use and production. That includes a strong drive to develop renewable energy sources, and that is being taken forward by the Department of Trade and Industry. The use of short-rotation coppicing and associated power generating

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i bolisi ynni sy'n hyrwyddo defnyddio a chynhyrchu ynni mewn modd glanach a mwy effeithlon. Mae hynny'n cynnwys ymdrech gref i ddatblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy, ac mae hynny'n cael ei ddatblygu gan yr Adran Diwydiant a Masnach. Rhoddir ystyriaeth yr

technologies is being considered this week. As part of the consultation on the single programming document for Objective 1 and Objective 2 and rural developments, views will be sought on funding projects concerned with the growth and use of energy crops.

2:09 p.m.

Mick Bates: That does not impress me. We have a great opportunity to set a standard in Wales to encourage the use of wood and its products, as they have done in Finland and Austria. Why waste paper as a fuel, especially at a community level? We need to encourage a biomass strategy, and although there is funding on the horizon I do not see any plans to encourage this in what you have said.

With local district heating, using local fuel including waste paper would create jobs. For example, one large paper mill reduced timber usage from 480,000 tonnes to 170,000 tonnes by trucking in waste paper. The result was a loss of forestry jobs and prosperity in Wales. Does the First Secretary agree that long distance trucking of waste paper is bad for the environment, while using local fuel in a local plant is good for Welsh jobs and the environment?

The First Secretary: Renewable energy development is a matter for the Department of Trade and Industry. A consultation paper was recently issued which seeks views on the need for public sector support for biomass projects. Responses to that document have come in and are being considered. There is a lot going on. It may be that the Assembly will at some stage want to develop a Welsh energy strategy.

Also, ground support is available for the development of biomass under the Forestry Commission's woodland grant scheme. Following the outcome of Agenda 2000 the Ministry for Agriculture, Fisheries and Food is pursuing support for the sector and is

wythnos hon i'r defnydd ar goedlannu ar gylchdro byr a thechnolegau cynhyrchu pŵer cysylltiedig. Fel rhan o'r ymgynghori ar y ddogfen rhaglennu sengl ar gyfer Amcan 1 ac Amcan 2 a datblygiadau gwledig, fe ofynnir am sylwadau ar gyllido prosiectau sy'n ymwneud â thyfu a defnyddio cnydau ynni.

Mick Bates: Nid oes gennyf fawr o feddwl o hynny. Mae gennym gyfle mawr i bennu safon yng Nghymru er mwyn annog defnyddio coed a chynnyrch coed, fel y gwnaethant yn y Ffindir ac Awstria. Pam y dylid gwastraffu papur fel tanwydd, yn enwedig ar lefel gymunedol? Rhaid inni annog strategaeth fïomas, ac er bod cyllid ar y gorwel ni welaf unrhyw gynlluniau i annog hynny yn yr hyn a ddywedasoeh.

Gyda gwresogi i'r ardal leol, byddai defnyddio tanwydd lleol gan gynnwys papur gwastraff yn creu swyddi. Er enghraifft, yr oedd un felin bapur fawr wedi lleihau ei defnydd ar goed o 480,000 tonnelli i 170,000 tonnelli drwy gludo llwythi o bapur gwastraff i mewn ar lorïau. Canlyniad hynny oedd colli swyddi coedwigo a ffyniant yng Nghymru. A yw'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno bod cludo papur gwastraff dros bellter maith mewn lorïau yn ddrwg i'r amgylchedd, tra bod defnyddio tanwydd lleol mewn gwaith lleol yn llesol i swyddi yng Nghymru ac I'r amgylchedd?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae datblygu ynni adnewyddadwy yn fater i'r Adran Diwydiant a Masnach. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghorol yn ddiweddar sy'n gofyn am sylwadau ynghylch yr angen am gefnogaeth gan y sector cyhoeddus i brosiectau biomas. Mae ymatebion i'r ddogfen honno wedi eu derbyn ac yn cael eu hystyried. Mae llawer yn mynd ymlaen. Mae'n bosibl y bydd y Cynulliad ar ryw adeg yn dymuno datblygu strategaeth ynni i Gymru.

Hefyd, mae cymorth sylfaenol ar gael i ddatblygu biomas o dan gynllun grantiau coetir y Comisiwn Coedwigaeth. Yn sgîl canlyniad Agenda 2000 mae'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd yn bwrw ymlaen â chefnogaeth i'r sector hwn ac yn

working alongside the industry to take the matter forward. Some of this does not move quickly enough for those who are enthusiastic to see growth and development. However, it is something that the Government takes very seriously and is seeking to push forward.

Cynog Dafis: Yr wyf yn croesawu'r ffaith fod Alun Michael yn siarad yn frwdfrydig am ynni adnewyddadwy. Mae hwn yn fater brys i'r Cynulliad o ran datblygu economaidd a dylai fod yn hollol ganolog i strategaeth ddatblygu cynaliadwy y Cynulliad. A gaf fi dynnu sylw Alun Michael at y ffaith fod Llywodraeth Prydain wedi methu â chael cytundeb i drosglwyddo cymorthdaliadau da byw i'w gwneud yn gymorthdaliadau ar gyfer tyfu cnydau ynni, tra bod modd trosglwyddo cymorthdaliadau tir â'r yn gymorthdaliadau ar gyfer cnydau ynni? A yw'n cytuno y bydd rhaid inni gael system o gyllido ffermwyr i dyfu cnydau ynni fel elfen bwysig o hyrwyddo ynni adnewyddadwy?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'r holl ddull o gyllido ffermwyr yn bwysig iawn ac yn fater a fydd yn cael ei drafod yn aml yn y Siambr hon. Rhaid inni edrych ar y cysylltiad rhwng polisiau ynni a pholisiau eraill. Mae'n amlwg y bydd hon yn ddadl bwysig i'r Cynulliad.

gweithio ochr yn ochr â'r diwydiant i fynd â'r mater ymlaen. Nid yw rhai o'r pethau hyn yn symud yn ddigon cyflym i'r rheini sy'n frwd dros weld cynnydd a datblygiad. Fodd bynnag, mae'n rhywbeth y mae'r Llywodraeth yn ei gymryd o ddifrif ac yn ceisio ei hybu.

Cynog Dafis: I welcome the fact that Alun Michael is talking enthusiastically about renewable energy. This is an urgent matter for the Assembly with regard to economic development and should be crucial to the Assembly's strategy on sustainable development. May I draw Alun Michael's attention to the fact that the British Government failed to secure an agreement to transfer livestock grants into energy crop grants, whereas arable land grants can be transferred into energy crops? Does he agree that we should have a system of funding farmers to grow energy crops as an important element in the promotion of renewable energy?

The First Secretary: The whole method of funding farmers is very important and is an issue that will be discussed often in this Chamber. We must look at the link between energy policies and other policies. This will be an important debate for the Assembly.

**Swyddi (Rhan Uchaf Cwm Tawe)
Employment (Upper Swansea Valley)**

Q3 Nick Bourne: What progress is being made in attracting new jobs to Ystradgynlais and the upper Swansea Valley? (OAQ65JS)

The First Secretary: There are concerted efforts to attract inward investment and encourage indigenous company growth in the Ystradgynlais area, especially after the closure of the Lucas Varsity plant. We are all aware of the tremendous impact the closure has had on individuals and the whole community. I hope to be able to announce a positive outcome in the near future. Each job loss is devastating to the individual and the family involved.

We should not underestimate our economic success in achieving new jobs in Wales. Recent projects in south-west Wales include International Rectifier of Penllergaer with 539 new jobs, Matsushita of Baglan with 285 new jobs, TRW/Toyoda at Resolven with about 200 jobs and Visteon with 336 safeguarded jobs. Job losses have a tremendous and devastating impact. We need to achieve a balance through the growth of inward investment and the growth of our home-grown companies.

Nick Bourne: Given the serious job situation, especially in Ystradgynlais and other parts of Powys like Machynlleth, does the First Secretary anticipate that additional European funding will be available for these areas? When will the Cabinet conclude its discussions on the comprehensive spending review, so that he can tell us what assistance will be provided in the form of match funding for Wales?

The First Secretary: There are two separate issues there. One is the question of the definition of areas and the map that has to be provided for Europe. I expect the work on that to be finished shortly. We have done very well to achieve Objective 1 for such a large part of Wales. That will have a

C3 Nick Bourne: Pa gynnydd a wnaed o ran denu swyddi newydd i Ystradgynlais a rhan uchaf Cwm Tawe? (OAQ65JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Mae yna gydymdrech i ddenu mewnfuddsoddiad ac i feithrin twf ymysg cwmnïau cynhenid yn ardal Ystradgynlais, yn enwedig ar ôl cau gwaith Lucas Varsity. Yr ydym oll yn ymwybodol o'r effaith aruthrol a gafodd y cau ar unigolion ac ar y gymuned gyfan. Yr wyf yn gobeithio gallu cyhoeddi canlyniad cadarnhaol cyn bo hir. Mae pob swydd a gollir yn drychineb i'r unigolyn a'r teulu dan sylw.

Ni ddylem danbrizio ein llwyddiant economaidd wrth sicrhau swyddi newydd yng Nghymru. Ymhlith y prosiectau diweddar yn ne-orllewin Cymru y mae International Rectifier ym Mhenlle'r-gaer gyda 539 o swyddi newydd, Matsushita ym Maglan gyda 285 o swyddi newydd, TRW/Toyoda yn Resolven gyda thua 200 o swyddi a Visteon lle mae 336 o swyddi wedi eu diogelu. Mae colledion swyddi yn cael effaith aruthrol a thrychinebus. Rhaid inni sicrhau cydbwysedd drwy gynnydd mewn mewnfuddsoddiad a thwf yn ein cwmnïau cynhenid.

Nick Bourne: O wybod am y sefyllfa ddirifol o ran swyddi, yn enwedig yn Ystradgynlais a rhannau eraill o Bowys fel Machynlleth, a yw'r Prif Ysgrifennydd yn rhagweld y bydd cyllid Ewropeaidd ychwanegol ar gael i'r ardaloedd hyn? Pa bryd y bydd y Cabinet yn cwblhau ei drafodaethau ar yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, fel y gall ddweud wrthym pa gymorth a ddarperir ar ffurf ariannu cyfatebol i Gymru?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae dau fater gwahanol yma. Un ohonynt yw cwestiwn diffinio ardaloedd a'r map y mae'n rhaid ei ddarparu i Ewrop. Yr wyf yn disgwyl y bydd y gwaith ar hynny wedi ei gwblhau cyn hir. Gwnaethom yn dda iawn i sicrhau Amcan 1 i ran mor fawr o Gymru. Fe gaiff hynny effaith

significant impact.

The issue of how that finance is drawn down is a matter for the processes that will follow the agreement through Europe on the figures. We are optimistic that the levels will turn out as we hoped, as soon as the question of Objective 2 and so on is added to the decisions already taken on Objective 1.

Kirsty Williams: Can the First Secretary give assurances to the workers of Lucas Varsity, many of whom are women with other responsibilities who are unable to travel to the new jobs you specified in your previous answer. They need to be assured that progress is underway to secure another employer for the Lucas site and for the trained, skilled and dedicated work force who need to work in Ystradgynlais itself and cannot travel to work.

The First Secretary: We are doing all we can. My ministerial colleague Peter Hain took charge of the workforce, bringing together officials, people from the WDA and so on to work with local representatives to look for alternatives once the announcement of the closure was made. I hope that we will have some good news in the future. The workforce is well trained and experienced, which is an attraction for potential investors.

Janet Davies: What emphasis is the First Secretary putting on ensuring that the jobs coming into the area are good-quality, well-paid and secure jobs?

The First Secretary: You are right to emphasise the quality of jobs. This is part of the general strategy that is being established in Wales in terms of attracting jobs. They should be high-skill, high-wage jobs rather than low-skill, low-wage jobs which merely try to compete with parts of the world where wages are very low.

That is also the strategy behind the Employment Training Advisory Group

sylweddol.

Mae'r mater o'r modd yr estynnir am yr arian hwnnw yn rhywbeth ar gyfer y prosesau a fydd yn dilyn y cytundeb drwy Ewrop ar y ffigurau. Yr ydym yn hyderus y bydd y lefelau fel yr oeddem wedi gobeithio, wedi i fater Amcan 2 ac yn y blaen gael ei ychwanegu at y penderfyniadau a wnaed eisoes ar Amcan 1.

Kirsty Williams: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn gallu rhoi sicrwydd i weithwyr Lucas Varsity, llawer ohonynt yn fenywod â chyfrifoldebau eraill nad ydynt yn gallu teithio at y swyddi newydd a nodwyd gennych yn eich ateb blaenorol. Mae angen sicrwydd amynt bod cynnydd yn digwydd tuag at sicrhau cyflogwr arall i safle Lucas ac i'r gweithlu medrus, hyfforddedig ac ymroddedig sydd ag angen swyddi yn Ystradgynlais ei hun ac sydd heb allu teithio i'r gwaith.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr ydym yn gwneud popeth yn ein gallu. Ymgwymerodd fy nghydweithiwr gweinidogol Peter Hain â gofal dros y gweithgor, gan dynnu at ei gilydd swyddogion, pobl o Awdurdod Datblygu Cymru ac yn y blaen i weithio gyda chynrychiolwyr lleol er mwyn chwilio am ddewisiadau eraill ar ôl cyhoeddi'r bwriad i gau. Gobeithio y bydd gennym newyddion da yn y dyfodol. Mae'r gweithlu'n brofiadol ac wedi ei hyfforddi'n dda, sydd yn atyniad i ddarpar fuddsoddwyr.

Janet Davies: Pa bwyslais y mae'r Prif Ysgrifennydd yn ei roi ar sicrhau bod swyddi a ddaw i'r ardal yn rhai sydd yn ddiogel, yn talu'n dda ac o ansawdd da?

Y Prif Ysgrifennydd: Yr ydych yn iawn i bwysleisio ansawdd swyddi. Mae hyn yn rhan o'r strategaeth gyffredinol sy'n cael ei sefydlu yng Nghymru o ran denu swyddi. Dylent fod yn swyddi â medrau uchel a chyflog uchel yn hytrach na swyddi â medrau isel a chyflog isel sydd ond yn ceisio cystadlu â rhannau o'r byd lle y mae cyflogau'n isel iawn.

Dyna hefyd yw'r strategaeth sydd y tu ôl i

report. The Assembly will find this document helpful in pointing the way forward on skills development and training. These two things go together—the attempt to ensure the flexibility and skills are there in the workforce and making sure that the qualities of the workforce are understood outside and inside Wales. On an inward investment mission to North America recently, I was encouraged in New York, Chicago and Toronto to find people who had invested in Wales commenting favourably on the Welsh workforce and encouraging others to follow them to Wales. Seeing Wales as a place with a high-quality workforce is a springboard for investment which is relevant to the European market. This is extremely important and I am sure that the Assembly will want to endorse and even strengthen that message.

Alun Cairns: Does the First Secretary agree that if he is not successful in gaining the match funding for western parts of Wales, that the future of the people in the upper Swansea Valley and other western parts is limited and will be more like the past than a better future of long-term prospects?

The First Secretary: That question is rather like asking whether I will have a headache if the ceiling falls in. The answer would be yes in that case, but I do not think it is going to happen. I hope that my optimism is not misplaced [*Laughter.*] I say to the Leader of the Conservative group: I did not build it personally, but I have confidence in those who did. The way that match funding and the other elements of finance are put in place to make sure that Wales gets the best from the Objective 1 status won by the Government will be something that will be worked through the Government's normal processes of financial decision-making. I have absolute confidence in the words of the Prime Minister and others who have said 'Don't worry, we will not let Wales down.' They have helped us to win that status and it does not do any favours for Wales to raise artificial barriers or to suggest that there are problems where they do not exist.

adroddiad y Grŵp Ymgynghorol ar Hyfforddiant Cyflogaeth. Bydd y Cynulliad yn gweld bod y ddogfen hon yn gymorth i ddangos y ffordd ymlaen ar ddatblygu medrau a hyfforddiant. Mae'r ddau beth hyn yn mynd law yn llaw—yr ymdrech i sicrhau bod yr hyblygrwydd a'r medrau ar gael yn y gweithlu a gofalu bod dealltwriaeth o rinweddau'r gweithlu y tu allan a'r tu mewn i Gymru. Pan oeddwn ar daith yn ddiweddar yng Ngogledd America i ddenu buddsoddiad o'r tu allan, cefais fy nghalonogi yn Efrog Newydd, Chicago a Toronto o ganfod pobl a oedd wedi buddsoddi yng Nghymru yn rhoi sylwadau ffafriol ar weithlu Cymru ac yn annog eraill i'w dilyn i Gymru. Mae gweld Cymru fel lle â gweithlu o ansawdd uchel yn symbyliad ar gyfer buddsoddi sydd yn berthnasol i'r farchnad Ewropeaidd. Mae hyn yn bwysig tu hwnt ac yr wyf yn sicr y bydd y Cynulliad am ategu a hyd yn oed gryfhau'r neges honno.

Alun Cairns: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno, os na lwydda i ennill yr arian cyfatebol i rannau gorllewinol Cymru, y bydd dyfodol pobl rhan uchaf Cwm Tawe a rhannau eraill o'r gorllewin yn gyfyngedig ac y bydd yn debycach i'r gorffennol nag i ddyfodol gwell gyda rhagolygon tymor-hir?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'r cwestiwn hwnnw braidd fel gofyn a fydd gennyf gur yn fy mhen os bydd y nenfwd yn syrthio. Bydd, fyddai'r ateb yn yr achos hwnnw, ond ni chredaf y bydd hynny'n digwydd. Gobeithio nad wyf yn methu yn hynny o beth. [*Chwerthin.*] Yr hyn a ddywedaf wrth Arweinydd y grŵp Ceidwadol yw: nid fi a'i hadeiladodd fy hun, ond mae gennyf hyder yn y rhai a wnaeth. Bydd y modd y sefydlir ariannu cyfatebol a'r elfennau ariannol eraill er mwyn sicrhau y caiff Cymru'r gorau o'r statws Amcan 1 a enillwyd gan y Llywodraeth yn rhywbeth a gyflawnir drwy brosesau arferol y Llywodraeth ar benderfyniadau ariannol. Mae gennyf bob hyder yng ngeiriau'r Prif Weinidog ac eraill a ddywedodd 'Peidiwch â phryderu, ni fyddwn yn siomi Cymru.' Maent wedi ein helpu i ennill y statws hwnnw ac nid yw o unrhyw gymorth i Gymru i godi rhwystrau ffug neu i awgrymu bod problemau pan nad

oes rhai.

2:19 p.m.

Ymgyrchoedd Etholiadol ar y Cyfryngau Election Media Campaigns

Q4 David Davies: How would the First Secretary improve future election media campaigns and will he make a statement? (OAQ69JS)

The First Secretary: I was pleased about the Welsh cross-party support for the campaign to encourage people to vote in the first election for the Assembly. I pay tribute to the co-operation from the leaders of the other three parties in agreeing a way forward on some of the issues. The turnout demonstrated that we have some way to go to persuade people that voting in Assembly elections is as important to them and their families as it is for every one of us. We agreed, for instance, that it was necessary to promote voting via television in order to make people aware. We all have a responsibility to make the Assembly work so that it is seen as positive and effective, and not to underestimate the Assembly's contribution and potential. It is our duty to prove that the Assembly is important and can make a positive difference to people's lives. Media advertising may support that—I hope it will—but it is what we do here that will count.

David Davies: If the disastrous media campaign cost around £2 million of public money and achieved a turnout of 46 per cent, does the First Secretary think that in future it would be better not just to talk to party leaders but to get them actively involved in the campaigns? I suggested that to the Secretary of State at the time.

The First Secretary: I think it is for the other party leaders to answer that, as it seems to be a criticism. From the discussions that the four of us had, I thought that there was

C4 David Davies: Sut y byddai'r Prif Ysgrifennydd yn gwella ymgyrchoedd etholiadol ar y cyfryngau yn y dyfodol mewn perthynas ag etholiadau ac a fydd yn gwneud datganiad? (OAQ69JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Yr oedd yn dda gennyf gael cefnogaeth ar draws y pleidiau yng Nghymru i'r ymgyrch i annog pobl i bleidleisio yn etholiad cyntaf y Cynulliad. Yr wyf yn talu teyrnged i'r cydweithrediad oddi wrth arweinyddion y tair plaid arall wrth gytuno ar ffordd ymlaen ar rai o'r materion. Mae'r nifer a bleidleisiodd yn dangos bod gennym beth ffordd i fynd i berswadio pobl fod pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad gyn bwysiced iddynt hwy a'u teuluoedd ag y mae i bob un ohonom ni. Yr oeddem wedi cytuno, er enghraifft, fod angen hyrwyddo pleidleisio drwy'r teledu er mwyn gwneud pobl yn ymwybodol. Mae cyfrifoldeb arnom i gyd i wneud i'r Cynulliad weithio fel y caiff ei weld yn rhywbeth cadarnhaol ac effeithiol, ac i beidio â thanbriso cyfraniad a photensial y Cynulliad. Ein dyletswydd yw profi bod y Cynulliad yn bwysig a'i fod yn gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ym mywydau pobl. Fe all hysbysebu ar y cyfryngau ategu hynny—gobeithio y gwnaiff—ond yr hyn a wnawn yn y fan hyn fydd yn cyfrif.

David Davies: Os oedd yr ymgyrch drychinebus ar y cyfryngau wedi costio tua £2 filiwn o arian cyhoeddus ac wedi sicrhau pleidlais gan 46 y cant o'r holl etholwyr, a yw'r Prif Ysgrifennydd yn credu mai gwell yn y dyfodol fyddai gwneud mwy nag ond siarad ag arweinyddion y pleidiau, a'u cael i gymryd rhan weithredol yn yr ymgyrchoedd? Awgrymais hynny i'r Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn credu mai lle arweinyddion y pleidiau eraill yw ateb hynny, oherwydd mae'n ymddangos fel pe bai'n feirniadaeth. Oddi wrth y trafodaethau

agreement about the need to project to people the importance of voting in Assembly elections. David Davies's reference to cost, makes the point very powerfully. If the Assembly is a success in engaging people across Wales in the work we undertake and getting across to them that we can make a positive difference, the process will be cost effective. Media advertising is expensive—perhaps more expensive than a successful Assembly.

Michael German: I share your view of the importance of the media and public information campaign, as we all agreed to it. Will you answer two specific concerns that I have about the campaign?

First, the materials produced by the public relations company were not as sparkling as some might have wished and did not appear to grip the imagination of many in Wales. Perhaps next time we should look at the way in which those materials are produced.

Secondly, and more significantly, we failed to get information into booklets, television and radio broadcasts. We also failed to plough information into east Wales, in particular those places with English postcodes. This is also happening with the freepost facilities for the European elections. Some people are receiving literature from the east midlands. This is a problem that needs to be addressed and taken on board for the next time. Do you share those concerns?

The First Secretary: Those are legitimate concerns for every party in the Assembly. We need to work together across party groups to learn the lessons from that campaign and ensure that things are done better in the future. There are always problems in trying to convey the importance of an institution that does not yet exist. We all experienced that difficulty. If you believed that the Assembly was going to be

a fu rhwng y pedwar ohonom, yr oeddwn yn tybio bod cytundeb ynghylch yr angen i gyfleu i bobl bwysigrwydd pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Mae cyfeiriad David Davies at gost yn gwneud y pwynt hwnnw'n rymus iawn. Os bydd y Cynulliad yn llwyddo wrth gynnwys pobl ar draws Cymru yn y gwaith a gyflawnir gennym ac wrth ddangos y gallwn wneud gwahaniaeth cadarnhaol, fe fydd y broses yn gost-effeithiol. Mae hysbysebu ar y cyfryngau'n ddrud—yn ddrutach efallai na Chynulliad llwyddiannus.

Michael German: Yr wyf yn rhannu'ch barn am bwysigrwydd yr ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus a'r cyfryngau, gan ein bod oll wedi cytuno arni. A ydych yn fodlon ateb dau bryder penodol sydd gennyf ynghylch yr ymgyrch?

Yn gyntaf, nid oedd y deunyddiau a gynhyrchwyd gan y cwmni cysylltiadau cyhoeddus mor ddisglair ag y byddai rhai wedi dymuno ac nid oedd yn ymddangos eu bod yn gafael yn nychymyg llawer o bobl yng Nghymru. Efallai y tro nesaf y dylem ystyried y modd y cynhyrchir y deunyddiau hynny.

Yn ail, ac yn bwysicach, methasom â rhoi gwybodaeth mewn llyfrynau, ac mewn darllediadau ar y teledu a'r radio. Methasom hefyd â phlannu gwybodaeth yn nwyrain Cymru, yn enwedig y mannau hynny â chodau post Seisnig. Mae hyn yn digwydd hefyd gyda'r cyfleusterau rhadbost ar gyfer yr etholiadau Ewropeaidd. Mae rhai pobl yn derbyn deunydd darllen o ddwyrain canolbarth Lloegr. Mae hon yn broblem y bydd rhaid ymdrin â hi a'i chydabod ar gyfer y tro nesaf. A ydych yn rhannu'r pryderon hyn?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'r rhain yn bryderon dilys i bob plaid yn y Cynulliad. Mae angen inni gydweithio ar draws grwpiau'r pleidiau i ddysgu gwersi o'r ymgyrch honno ac i sicrhau y gwneir pethau'n well yn y dyfodol. Ceir problemau bob tro wrth geisio cyfleu pwysigrwydd sefydliad nad yw eto'n bod. Profasom i gyd yr anhawster hwnnw. Os oeddech yn credu bod y Cynulliad yn mynd i fod yn

positive, you were, nevertheless, talking about an institution that was there for people to see. By the time we have the next Assembly election, we will have been in existence for four years. That is why I emphasise our responsibilities to engage people with the work of the Assembly. I accept Michael German's point and I am sure we can find a mechanism to ensure a review of cross-party activities in the run-up to the election. We need input from all parties to make sure that the campaign is better next time.

gadarnhaol, yr oeddech, er hynny, yn sôn am sefydliad a oedd yno i bobl ei weld. Erbyn etholiad nesaf y Cynulliad, byddwn wedi bod mewn bodolaeth am bedair blynedd. Dyna pam yr wyf yn pwysleisio ein cyfrifoldebau i gynnwys pobl yng ngwaith y Cynulliad. Derbynaf bwynt Michael German ac yr wyf yn sicr y gallwn ganfod peirianwaith i sicrhau adolygiad o weithgareddau ar draws y pleidiau yn y paratoadau ar gyfer yr etholiad. Mae arnom angen mewnbwn o bob plaid i sicrhau bod yr ymgyrch yn well y tro nesaf.

Cronfa Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd European Union Structural Funding

Q5 Helen Mary Jones: What arrangements are in place to ensure that a substantial proportion of European Union structural funding will be spent on education and training, and what mechanisms does the First Secretary intend to put in place to ensure that small community groups are enabled to access EU funding, particularly Objective 1? (OAQ78VB)

C5 Helen Mary Jones: Pa drefniadau sy'n bodoli i sicrhau bod cyfran helaeth o arian cronfa strwythurol yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei gwario ar addysg a hyfforddiant, a pha beirianwaithiau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod grwpiau cymunedol bach yn gallu defnyddio arian yr UE, yn arbennig arian Amcan 1? (OAQ78VB)

The First Secretary: I share that concern as small groups can make a disproportionately large impact, often at the most local level. We will receive recommendations on the use of structural funds from the Wales European taskforce. Those will cover issues of this sort and I can assure all Assembly Members that they will have adequate opportunity to debate them before they are submitted to the European Commission. I am certain that Helen Mary and other Members will want to make a contribution to that discussion.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn rhannu'r pryder hwnnw oherwydd gall grwpiau bychain gael effaith fwy nag a ddisgwylid o'u maint, yn aml ar y lefel fwyaf lleol. Byddwn yn derbyn argymhellion ar ddefnyddio arian y gronfa strwythurol oddi wrth dasglu Ewropeaidd Cymru. Bydd y rheini'n cynnwys materion o'r math hwn a gallaf sicrhau holl Aelodau'r Cynulliad y bydd ganddynt ddigon o gyfle i'w trafod cyn eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd. Yr wyf yn sicr y bydd Helen Mary ac Aelodau eraill am gyfrannu at y drafodaeth honno.

Helen Mary Jones: Will you confirm whether it will be possible to make available the development strategy document and the Objective 1 single programme document to Assembly Members at the same time as they are released to the European taskforce? Obviously the role of the taskforce is crucial in developing this document, but I feel that the elected Members, particularly from the Economic Development Committee, should look at this at the same time. We should also have the opportunity to debate it at least in

Helen Mary Jones: A ydych yn fodlon cadarnhau a fydd yn bosibl darparu dogfen y strategaeth datblygu a dogfen rhaglen sengl Amcan 1 i Aelodau'r Cynulliad ar yr un pryd ag y cânt eu rhyddhau i'r tasglu Ewropeaidd? Mae'n amlwg bod rôl y tasglu yn holl bwysig wrth ddatblygu'r ddogfen hon, ond teimlaf y dylai'r Aelodau etholedig, yn enwedig o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd, edrych ar hyn yr un pryd. Dylem hefyd gael cyfle i'w drafod o leiaf mewn Pwyllgor, os nad yn y Siambr, cyn iddo fynd allan ar gyfer

Committee, if not in the Chamber, before it goes out for public consultation as we may wish to have an input.

The First Secretary: The taskforce is producing the document. Its release for public consultation and to the Assembly will mean that we will have an opportunity to look at comments that come in. The process should be as open as possible. I will investigate whether we could have the document at the same time as it goes to the taskforce and, if not, as quickly as possible afterwards.

Rod Richards: Point of order. The First Secretary may have unwittingly misled the Assembly into believing that he had the support of all party leaders—

The Presiding Officer: That is not a point of order as you well know.

The First Secretary: I could not have misled the Assembly, as I believed I had the support of the three party leaders. If one of them wishes to say that it is not the case, it is his business.

The Presiding Officer: I make it clear that, in future, when Assembly Members wish to make points of order, I would be grateful if they would indicate the Standing Order on which they are raising their point.

ymgyngori â'r cyhoedd oherwydd mae'n bosibl y byddwn am gyfrannu mewnbyn.

Y Prif Ysgrifennydd: Y tasglu sydd yn cynhyrchu'r ddogfen. Pan gaiff ei rhyddhau ar gyfer ymgyngori â'r cyhoedd ac i'r Cynulliad, bydd gennym gyfle i edrych ar y sylwadau a dderbynnir. Dylai'r broses fod mor agored ag y bo modd. Byddaf yn ymchwilio i ganfod a allwn gael y ddogfen yr un pryd ag yr â i'r tasglu ac, os na allwn, cyn gynted ag y bo modd wedi hynny.

Rod Richards: Mater o drefn. Mae'n bosibl bod y Prif Ysgrifennydd wedi camwarwain y Cynulliad yn ddarwybod i gredu bod ganddo gefnogaeth arweinyddion yr holl bleidiau—

Y Llywydd: Nid mater o drefn mo hynny fel y gwyddoch yn iawn.

Y Prif Ysgrifennydd: Ni allaswn fod wedi camarwain y Cynulliad, gan fy mod yn credu bod gennyf gefnogaeth arweinyddion y tair plaid. Os yw un ohonynt yn dymuno dweud yn wahanol, mater iddo ef yw hynny.

Y Llywydd: Yr wyf yn rhoi ar ddeall y byddwn yn ddiolchgar, o hyn ymlaen, pan fydd Aelodau'r Cynulliad yn dymuno codi materion o drefn, pe baent yn nodi'r Rheol Sefydlog sydd yn sail i'r mater y maent yn ei godi.

Y Diwydiant Dur yng Nghymru The Steel Industry in Wales

The First Secretary: Members will be aware of the announcement yesterday of the planned merger between British Steel and Koninklijke Hoogovens. In view of the importance of this announcement, the concerns that have been expressed by Assembly Members, and the rumours that occurred over the weekend about the impact of the proposed merger on Wales, I thought it was appropriate to make a statement to the Assembly. We should not respond—either as a Cabinet or as an Assembly—to every commercial decision, especially those that we have no power to influence.

Y Prif Ysgrifennydd: Bydd yr Aelodau'n gwybod am y cyhoeddiad ddoe am fwriad Dur Prydain a Koninklijke Hoogovens i gyfuno. Yng ngolwg pwysigrwydd y cyhoeddiad hwn, y pryderon a fynegwyd gan Aelodau o'r Cynulliad, a'r sion a gododd dros y penwythnos ynghylch effaith y bwriad i gyfuno ar Gymru, yr oeddwn yn teimlo mai priodol fyddai gwneud datganiad i'r Cynulliad. Ni ddylem ymateb—boed fel Cabinet nac fel Cynulliad—i bob penderfyniad masnachol, yn enwedig y rheini nad oes gennym bŵer i ddylanwadu arnynt.

The reasons for making this statement are the importance of British Steel to Wales and the rumours about potential job losses that have worried people throughout Wales. British Steel's importance is shown by the fact that it is our major manufacturing employer, with plants that employ around 11,500 people and produce a large proportion of Welsh manufacturing exports. British Steel is under significant pressure due to the strength of sterling and the intense competition in world markets. However, because of the major investments the company has made over the last decade—many of these in Wales—British Steel is a world-class operation that is surviving these pressures relatively well. Against this backdrop, the announcement of the merger with Hoogovens has raised fears but it also has the potential to be good news. The merged operation will become one of the world's leading metal operations, giving British Steel an aluminium interest for the first time, strengthening its product design and its customer interface capabilities, and taking the combined annual turnover to almost £10 billion.

2:29 p.m.

With any such merger, and there are an increasing number of them, the elimination of duplicated costs and the creation of synergies between the two companies is sought. That can lead to some job losses, which, bearing in mind the location of British Steel's plants in Wales, would be most unwelcome. British Steel has stated that the basis for the merger is to provide a platform for growth, not retrenchment. This view has been reinforced by the General Secretary of the Iron and Steel Trades Confederation, Michael Leahy, a Welshman, who has said that together the companies will,

'make a formidable force that can grow market share and not see any contraction or decline.'

This morning I spoke to Nick Cragg, the Managing Director of British Steel Strip Products, and voiced the concerns Assembly Members put to me. He assured me that no

Y rhesymau dros wneud y datganiad hwn yw pwysigrwydd Dur Prydain i Gymru a'r sion ynghylch y posibilïad o golli swyddi, sion sydd wedi peri pryder i bobl drwy Gymru. Fe welir pwysigrwydd Dur Prydain yn y ffaith mai ef yw'n cyflogwr cynhyrchu mwyaf, gyda gweithfeydd sy'n cyflogi tua 11,500 o bobl ac sy'n cynhyrchu cyfran fawr o allforion cynnyrch Cymru. Mae Dur Prydain dan gryn bwysau oherwydd cryfder sterling a'r cystadlu dwys ym marchnadoedd y byd. Fodd bynnag, oherwydd y buddsoddiadau mawr a wnaed gan y cwmni dros y degawd diwethaf—lawer ohonynt yng Nghymru—mae Dur Prydain yn fusnes ar lefel fyd-eang sydd yn goroesi'r pwysau hyn yn gymharol dda. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r cyhoeddiad am y cyfuno â Hoogovens wedi codi ofnau ond y mae potensial ynddo hefyd i fod yn newyddion da. Bydd y busnes cyfunedig yn un o brif fusnesau metelau'r byd, gan roi masnach alwminiwm i Dur Prydain am y tro cyntaf, a chryfhau dyluniad ei gynhyrchion a'i allu i ateb anghenion cwsmeriaid, gan godi'r trosiant blyneddol cyfunedig i bron £10 biliwn.

Ym mhob cyfuno o'r fath, a cheir mwy a mwy ohonynt, ceisir dileu costau dyblygedig a chreu cyfosodiadau rhwng y ddau gwmni. Fe all hynny arwain at golli rhai swyddi, a fyddai, o gofio lleoliad gweithfeydd Dur Prydain yng Nghymru, yn rhywbeth annymunol iawn. Mae Dur Prydain wedi dweud mai'r rheswm dros y cyfuno yw cael cyfle i dyfu, nid i gwtogi. Ategwyd y farn hon gan Ysgrifennydd Cyffredinol y Cydffederasiwn Masnachau Haearn a Dur, Michael Leahy, sy'n Gymro, a ddywedodd y byddai'r cwmnïau hyn gyda'i gilydd,

'yn bŵer aruthrol a fydd yn gallu cynyddu ei gyfran o'r farchnad heb brofi unrhyw gwtogi neu ddirywiad.'

Fore heddiw siaredais â Nick Cragg, Rheolwr Gyfarwyddwr British Steel Strip Products, a mynegais y pryderon yr oedd Aelodau o'r Cynulliad wedi eu cyfleu i mi. Rhoddodd

major plant closures are planned for Wales, that any initial job losses are likely to result from the elimination of duplicated central and head office functions and that there are no plans to amend current efficiency programmes. Mr Cragg also stressed that the essential basis of this merger is to increase the competitiveness of his operations globally, and that this would be good for all stakeholders in British Steel, including employees. Rhodri Morgan, as the Assembly Secretary for Economic Development, will meet the company and unions to seek further reassurances and to discuss the company's plans and their impact on Wales.

As to the Government position, neither we, nor the Department of Trade and Industry, have any real locus to intervene in what is at heart a commercial matter. By 'we' I mean the Welsh Office prior to the transfer of functions, then the Assembly. However, I understand that all mergers of this type are covered by a special European coal and steel community regime, and the European Commissioner has to be notified about them to ensure that there are no competition aspects that require investigation. Our understanding is that no problems are anticipated, but if there are concerns, the UK Government and the Assembly have an opportunity to make an input.

As I have said on many occasions, one of the principal tenets of our activities has to be partnership: with business, local government and the voluntary sector. True partnership involves both sides expressing rational, well-thought-out, mature and enlightened attitudes. I am sure that we will take this opportunity to demonstrate to people and businesses in Wales that we truly believe in the principles of partnership. I hope that the assurances we have been given will reassure people throughout Wales.

The Presiding Officer: I have received several requests to ask questions, including

sicrwydd imi nad oes bwriad i gau gweithfeydd ar raddfa helaeth yng Nghymru, a bod unrhyw swyddi a gollir i ddechrau yn debygol o fod o ganlyniad i ddileu swyddogaethau a ddyblygir mewn prif swyddfeydd a swyddfeydd canolog ac nad oes bwriad i newid y rhaglenni effeithlonrwydd presennol. Pwysleisiodd Mr Cragg hefyd mai'r rheswm hanfodol dros y cyfuniad hwn yw cynyddu cystadleulrwydd ei weithrediadau drwy'r byd, ac y byddai hyn yn llesol i holl gyfranogion Dur Prydain, gan gynnwys y gweithwyr. Bydd Rhodri Morgan, fel Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd, yn cyfarfod â'r cwmni a'r undebau er mwyn ceisio sicrwydd pellach a thrafod cynlluniau'r cwmni a'u heffaith ar Gymru.

Ynghylch sefyllfa'r Llywodraeth, nid oes gennym ni, na'r Adran Diwydiant a Masnach, unrhyw le gwirioneddol i ymyrryd yn yr hyn sydd yn y bôn yn fater masnachol. Wrth ddweud 'ni', yr wyf yn golygu'r Swyddfa Gymreig cyn trosglwyddo swyddogaethau, wedyn y Cynulliad. Fodd bynnag, yr wyf yn deall bod pob cyfuniad o'r math hwn yn ddarostyngedig i gyfundrefn arbennig o dan y gymuned glo a dur Ewropeaidd, a bod rhaid hysbysu'r Comisiynydd Ewropeaidd yn eu cylch er mwyn sicrhau nad oes unrhyw agweddau ynghylch cystadleuaeth y bydd rhaid ymchwilio iddynt. Yn ôl yr hyn a ddeallwn, ni ddisgwylir unrhyw broblemau, ond os bydd pryderon, mae cyfle i Lywodraeth y DU a'r Cynulliad gyfrannu mewnbyn.

Fel y dywedais ar lawer achlysur, un o brif ddaliadau angenrheidiol ein gweithgareddau yw partneriaeth: gyda busnes, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol. Mae gwir bartneriaeth yn golygu bod y ddwy ochr yn mynegi agweddau rhesymol, cadarn, aeddfed a goleuedig. Yr wyf yn sicr y cymerwn y cyfle hwn i ddangos i bobl a busnesau yng Nghymru ein bod yn credu'n wirioneddol yn egwyddorion partneriaeth. Gobeithio y bydd y sicrwydd a roddwyd i ni yn tawelu meddwl pobl ym mhob rhan o Gymru.

Y Llywydd: Derbyniais sawl cais i ofyn cwestiynau, gan gynnwys cwestiynau brys,

urgent questions, and to move motions on this matter. I intend to call as many Assembly Members as possible, particularly those with local interests. Therefore, I begin with John Griffiths.

John Griffiths: Alun, you rightly state the importance of steel for the Welsh economy. Almost one half of UK steel production happens in Wales, and output is higher than ever, with increased sales. British Steel is the largest individual employer and investor in Wales, representing around one half of our manufactured exports. If the merger proceeds, we hope it will result in company growth and expansion. However, there has been speculation, which you referred to, about major job losses, much of it centring on the Llanwern steelworks in the heart of my constituency, Newport East. The steelworks employs around 3,500 people, and many more jobs are dependent on it. It is a bedrock of the local economy in Newport and Caldicot and the surrounding areas, including the Gwent Valleys.

The comparatively well-paid manufacturing jobs involved are invaluable for the area. The work force and local population are anxious because of the speculation, as change brings uncertainty, and the economic and social consequences of major job losses would be immense. We must do all we can to prevent such losses. In recent years, the workforce has undergone successive rationalisation programmes. They have helped to make the plant a highly successful operation, one of the most efficient and productive plants in the world. The work force and all of Wales look for assurances from British Steel that there will be no plant job losses other than those in the current job loss programme, and that there will be no reduction in the investment programme planned for the next few years. It will be a great challenge for the Assembly to ensure these objectives. Will the First Secretary join me in seeking those assurances from British Steel as a matter of urgency?

ac i roi cynigion gerbron ar y mater hwn. Yr wyf yn bwriadu galw ar gynifer ag y bo modd o Aelodau'r Cynulliad, yn enwedig y rhai â chysylltiadau lleol. Felly, yr wyf yn dechrau â John Griffiths.

John Griffiths: Alun, yr oeddech yn iawn i nodi pwysigrwydd dur i economi Cymru. Mae bron hanner y cynhyrchu dur yn y DU yn digwydd yng Nghymru, ac mae'r lefel gynhyrchu yn uwch nag erioed, a'r gwerthiant yn cynyddu. Dur Prydain yw'r cyflogwr a'r buddsoddwr unigol mwyaf yng Nghymru, ac mae'n gyfrifol am oddeutu hanner ein hallforion o gynnyrch. Os â'r cyfuniad yn ei flaen, yr ydym yn gobeithio y bydd hyn yn arwain at gynydd ac ehangu yn y cwmni. Fodd bynnag, cafwyd llawer o ddyfalu, y cyfeiriasoch ato, ynghylch colledion swyddi mawr, lawer ohono'n canolbwyntio ar waith dur Llanwern yng nghanol fy etholaeth, Dwyrain Casnewydd. Mae'r gwaith dur yn cyflogi tua 3,500 o bobl, ac mae llawer mwy o swyddi yn dibynnu arno. Mae'n garreg sylfaen i'r economi lleol yng Nghasnewydd a Chaldicot a'r ardaloedd o'u cwmpas, gan gynnwys Cymoedd Gwent.

Mae'r swyddi cynhyrchu dan sylw a'u cyflogau cymharol uchel yn amhrisiadwy i'r ardal. Mae'r gweithlu a'r boblogaeth leol yn bryderus oherwydd y dyfalu, am fod newid yn dod ag ansicrwydd, a byddai'r canlyniadau economaidd a chymdeithasol oddi wrth golledion swyddi mawr yn anferthol. Rhaid inni wneud popeth a allwn i atal colledion o'r fath. Yn y blynyddoedd diwethaf hyn, mae'r gweithlu wedi profi cyfres o raglenni rhesymoli. Maent wedi helpu i wneud y gwaith yn fusnes llwyddiannus tu hwnt, yn un o'r gweithfeydd mwyaf effeithlon a chynhyrchiol yn y byd. Mae'r gweithlu a Chymru gyfan yn disgwyl sicrwydd oddi wrth Ddur Prydain na fydd colledion swyddi yn y gwaith heblaw am y rhai yn y rhaglen colli swyddi gyfredol, ac na fydd gostyngiad yn y rhaglen buddsoddi a gynlluniwyd ar gyfer y blynyddoedd nesaf hyn. Bydd yn sialens fawr i'r Cynulliad sicrhau'r amcanion hyn. A yw'r Prif Ysgrifennydd yn fodlon ymuno â mi i ofyn sicrwydd am hynny oddi wrth Ddur Prydain

fel mater o frys?

The First Secretary: I am sure that your points will be picked up by Rhodri Morgan in his meeting with the company. You are right to say that there is an agreed programme of job losses within the company. That should not confuse the picture in relation to the merger. You are also right to say that British Steel is highly efficient, because there has been significant investment in technology training and improved working practices over recent years.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn siŵr y bydd Rhodri Morgan yn dilyn y pwyntiau a wnaethoch yn ei gyfarfod gyda'r cwmni. Yr ydych yn gywir wrth ddweud bod rhaglen gytunedig o golli swyddi yn y cwmni. Ni ddylai hynny ddrysu'r darlun mewn perthynas â'r cyfuniad. Yr ydych hefyd yn gywir wrth ddweud bod Dur Prydain yn effeithlon tu hwnt, oherwydd bu buddsoddi sylweddol mewn hyfforddiant technoleg ac ymarferion gwaith gwell dros y blynyddoedd diwethaf hyn.

The company has been clear that the merger's purpose is to ensure the critical mass and presence in Europe to seize increased market opportunities. If it works, it will be good news for Wales. I understand the concerns you express, because many of our communities in steelmaking areas, not least in Cardiff, have experienced the dramatic impact of major job losses over the years. However, I think we have every reason to be optimistic that the current decision could lead to a strengthening rather than a weakening of the Welsh steel industry.

Mae'r cwmni wedi rhoi ar ddeall mai pwrpas y cyfuno yw sicrhau digon o fâs critigol ac o bresenoldeb yn Ewrop er mwyn cipio mwy o gyfleoedd yn y farchnad. Os bydd hynny'n gweithio, bydd hynny'n newyddion da i Gymru. Yr wyf yn deall y pryderon a fynegwyd gennych, oherwydd mae llawer o'n cymunedau mewn ardaloedd cynhyrchu dur, a Chaerdydd yn eu mysg, wedi profi effaith ddramatig colledion swyddi helaeth dros y blynyddoedd. Fodd bynnag, yr wyf yn credu bod gennym bob rheswm i fod yn hyderus y gallai'r penderfyniad presennol arwain at gryfhau yn hytrach na gwanhau diwydiant dur Cymru.

Dafydd Wigley: Does the First Secretary recognise that Welsh steel plants have a hard-earned reputation for high productivity, efficiency, and the high commitment of their workforce, but that this is undermined by a grossly over-valued pound, which reduces Welsh steel competitiveness? Does he also recognise that companies in Wales are further penalised by interest rates higher than those of our European competitors? Will he, as Secretary of State for Wales, press from within the Government for use of clause 12 powers under the Bank of England Act 1998 to guide the Bank of England to take steps to reduce the present high parity of the pound?

Dafydd Wigley: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn cydnabod bod gweithfeydd dur Cymru wedi ennill enw da drwy waith caled am eu cynhyrchiant uchel, eu heffeithlonrwydd, ac ymroddiad mawr eu gweithlu, ond bod hyn yn cael ei danseilio gan bunt sydd wedi ei gorbriso'n ddybryd, sy'n lleihau gallu dur Cymru i gystadlu? A ydyw hefyd yn cydnabod bod cwmnïau yng Nghymru yn cael eu cosbi ymhellach drwy gyfraddau llog sy'n uwch na rhai ein cystadleuwyr yn Ewrop? Fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a fydd yn pwyso o'r tu mewn i'r Llywodraeth am ddefnyddio pwerau cymal 12 o dan Ddeddf Banc Lloegr 1998 i gyfarwyddo Banc Lloegr i gymryd camau i ostwng paredd uchel presennol y bunt?

The First Secretary: I referred to the fact that the strength of the pound is a fresh challenge for manufacturing and exporting industries. Dafydd Wigley goes wider than

Y Prif Ysgrifennydd: Cyfeiriais at y ffaith bod cryfder y bunt yn sialens newydd i'r diwydiannau cynhyrchu ac allforio. Mae Dafydd Wigley yn mynd yn ehangach na'r

the issues in my statement. Nobody would think there was an election soon.

It is the Government's policy to achieve maximum economic stability. We recognise the problems that some successes pose for manufacturing and exporting industries and will do everything we can to achieve a stable and healthy situation for exporters. In the context of the steel industry, the merger—and thus the strengthening of British Steel's position in Europe—offers considerable possibilities.

Michael German: I am sure the First Secretary recognises the shiver that went down the spine of many steelworkers in Wales this week, particularly in Shotton, Port Talbot, Llanwern and Ebbw Vale. Steel has been produced competitively in Wales, but the industry has had its hand tied behind its back by the over-valued pound and the lack of progress on joining the European currency.

In the light of the worldwide difficulties in the steel industry which affect Wales, in particular overcapacity, and slumping demand in key markets such as Russia and East Asia, does the First Secretary share with me the hope that this merger will mean greater opportunities for Welsh industry? Does he share with me the concern that this merger means taking over the troubled Boël Steelworks in Belgium—currently suffering from underproduction and high costs—and other aluminium plants producing sheet aluminium and extrusion products, which may lead to difficulties for the Welsh aluminium industry?

Would the First Secretary favour, as I would, an early meeting of the Economic Development Committee which would discuss in the widest context the implications of this merger for Wales and consider the European competition issues raised in your statement, in particular, the negative impact of the high rate of sterling on the Welsh economy?

materion yn fy natganiad. Ni thymbiai neb fod etholiad gerllaw.

Polisi'r Llywodraeth yw sicrhau'r sefydlogrwydd economaidd mwyaf. Yr ydym yn cydnabod y problemau a achosir gan rai llwyddiannau i ddiwydiannau cynhyrchu ac allforio a byddwn yn gwneud popeth a allwn i sicrhau sefyllfa sefydlog ac iach i allforwyr. Yng nghyd-destun y diwydiant dur, mae'r cyfuno—a thrwy hynny'r cryfhau ar safle Dur Prydain yn Ewrop—yn cynnig posibiladau sylweddol.

Michael German: Yr wyf yn sicr bod y Prif Ysgrifennydd yn sylweddoli'r ias a aeth i lawr asgwrn cefn llawer o weithwyr dur yng Nghymru yr wythnos hon, yn enwedig yn Shotton, Port Talbot, Llanwern a Glyn Ebwy. Mae dur wedi ei gynhyrchu'n gystadleuol yng Nghymru, ond mae'r diwydiant wedi ei lesteirio drwy orbrisiad y bunt a'r diffyg cynnydd ynghylch ymuno â'r arian cyfredol Ewropeaidd.

Yng ngolwg yr anawsterau byd-eang yn y diwydiant dur sy'n effeithio ar Gymru, yn enwedig gorgynhwysedd, a'r cwmp yn y galw mewn marchnadoedd allweddol fel Rwsia a Dwyrain Asia, a yw'r Prif Ysgrifennydd yn rhannu'r gobaith gyda mi y bydd y cyfuniad hwn yn golygu mwy o gyfleoedd i ddiwydiant Cymru? A yw'n rhannu gyda mi y pryder bod y cyfuniad hwn yn golygu cymryd drosodd gwaith dur cythryblus Boël yng Ngwlad Belg—sy'n dioddef ar hyn o bryd oddi wrth dangynhyrchu a chostau uchel—a gweithfeydd alwminiwm eraill sy'n cynhyrchu dalennau alwminiwm a chynhyrchion allwthio, a allai arwain at anawsterau i ddiwydiant alwminiwm Cymru?

A fyddai'r Prif Ysgrifennydd, fel minnau, o blaid cynnal cyfarfod buan o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a fyddai'n trafod yn y cyd-destun ehangaf oblygiadau'r cyfuniad hwn i Gymru ac yn ystyried y materion ynghylch cystadlu yn Ewrop a godwyd yn eich datganiad, gan ystyried, yn arbennig, yr effaith negyddol oddi wrth gyfradd uchel sterling ar economi Cymru?

2:39 p.m.

The First Secretary: You raised a series of issues, Mike, and I am not sure I can do all of them justice. Rhodri, the Secretary for Economic Development, will consider many of them, and they will form part of the discussion with the company and with the Economic Development Committee over the coming months. Some of the issues, of course, are more general than this merger issue.

I understand the worries that emerge when a major decision of this sort is announced. Before yesterday's announcement there were all sorts of worries, some of which Rhodri addressed at the weekend. At the beginning of the week, knowing the importance of this issue to Wales, we sought the facts and the company's strategy to give the best possible information to the Assembly. In my conversation with Mr Cragg this morning, he said that British Steel in Wales had reached its full capacity and it was not a question of cutting slack in Welsh production. As I have indicated, British Steel sees the merger as a platform for being more competitive and for winning rather than losing ground and are not simply seeking to make cuts. It has produced a manifesto which sets out its intentions. A copy will be sent to every British Steel employee in Wales.

Brian Gibbons: I agree the merger will result in British Steel becoming a stronger player on the world market—possibly in the top three producers of high quality steel. I am not as naïve as to believe that mergers do not pose job and plant risks. However, does the First Secretary agree there is a danger we might create an air of despondency, defeatism and despair throughout the industry, especially in south Wales? Does he also agree that we need to talk up and sell British Steel's success as a means of keeping the industry alive and viable in this part of Wales?

The First Secretary: Brian is right. I quoted Michael Leahy, the General Secretary of the

Y Prif Ysgrifennydd: Yr ydych wedi codi cyfres o faterion, Mike, ac nid wyf yn sicr y gallaf wneud cyfiawnder â phob un ohonynt. Bydd Rhodri, yr Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd, yn ystyried llawer ohonynt, a byddant yn rhan o'r drafodaeth gyda'r cwmni a chyda'r Pwyllgor Datblygu Economaidd dros y misoedd sydd i ddod. Wrth gwrs, mae rhai o'r materion yn fwy cyffredinol na mater y cyfuniad hwn.

Yr wyf yn deall y pryderon sy'n dod i'r amlwg pan gyhoeddir penderfyniad pwysig o'r math hwn. Cyn y cyhoeddiad ddod yr oedd pob math o bryderon, rai ohonynt wedi derbyn sylw gan Rhodri ar y penwythnos. Ddechrau'r wythnos, o wybod pwysigrwydd y mater hwn i Gymru, yr oeddem wedi gofyn am y ffeithiau ac am strategaeth y cwmni er mwyn rhoi'r wybodaeth orau posibl i'r Cynulliad. Yn y sgwrs a gefais â Mr Cragg fore heddiw, dywedodd fod Dur Prydain wedi cyrraedd ei gynhwysedd uchaf yng Nghymru ac nid mater o gwtogi ar segurdd mewn cynhyrchu yng Nghymru yw hyn. Fel y nodais, mae Dur Prydain yn gweld y cyfuniad yn gyfle i fod yn fwy cystadleuol ac i ennill yn hytrach na cholli tir ac nid ceisio cwtogi y mae. Mae wedi cynhyrchu maniffesto sy'n nodi ei fwriadau. Anfonir copi ohono at bob un o weithwyr Dur Prydain yng Nghymru.

Brian Gibbons: Yr wyf yn cytuno y bydd Dur Prydain yn chwaraewr cryfach ym marchnad y byd o ganlyniad i'r cyfuno—o bosibl yn un o'r tri chynhyrchydd pennaf o ddur o ansawdd uchel. Nid wyf mor ddiniwed ag i gredu nad yw cyfuniadau yn codi peryglon i swyddi ac i weithfeydd. Fodd bynnag, a yw'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno bod perygl y gallem greu awyrgylch o iselder ysbryd, gwangalondid ac anobaith drwy'r diwydiant, yn enwedig yn ne Cymru? A ydyw hefyd yn cytuno bod angen inni wneud yn fawr o lwyddiant Dur Prydain a'i werthu fel modd i gadw'r diwydiant yn fyw ac yn hyfyw yn y rhan hon o Gymru?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae Brian yn gywir. Fe ddyfynnais eiriau Michael Leahy,

Iron and Steel Trades Confederation to that purpose. Trade unionists will always be aware of the disadvantages in any process of change. However, it is clear that trade unions in Wales have contributed to the increased efficiency of steelmaking. They are proud of the quality and efficiency achieved, as is the company. I agree that, while we should consider the downside of decisions, we should also consider the opportunities. The commercial decision is an opportunity, which should be regarded positively, but it has implications for all our communities.

Carwyn Jones: It may seem strange that a Member from Bridgend is speaking in a debate on steelworks. However, many people from Bridgend work in the Port Talbot steelworks—the works is known as ‘the abbey’ in my constituency and in Port Talbot. It is especially dominant in the south-western part of Bridgend around Pyle and Kenfig Hill.

The steelworks used to employ 17,000 people and employs close to that figure now as so many of the functions that were carried out in-house are now done by independent contractors. Therefore the effect on jobs is great.

I welcome the First Secretary’s comments and those of the two companies involved in the merger that there is no significant threat to jobs in Port Talbot and the other four possibly affected Welsh plants. If this merger is to benefit the Welsh steel industry, we should ensure that our steel plants remain open to benefit from any future upturn. If our plants are still there to benefit from this, I welcome that.

I understand that the two companies are in the process of merging. When they have merged, we should remain vigilant about activities in the steel industry. Will the First Secretary continue to meet management and

Ysgrifennydd Cyffredinol y Cydffederasiwn Masnachau Haearn a Dur i’r diben hwnnw. Bydd undebwyr llafur bob amser yn ymwybodol o’r anfanteision mewn unrhyw broses o newid. Fodd bynnag, mae’n amlwg bod undebau llafur yng Nghymru wedi cyfrannu at y cynnydd mewn effeithlonrwydd mewn cynhyrchu dur. Maent yn ymfalchïo yn yr ansawdd a’r effeithlonrwydd a gyflawnwyd, fel y mae’r cwmni. Yr wyf yn cytuno, er y dylem ystyried yr ochr dywyll i benderfyniadau, y dylem hefyd ystyried y cyfleoedd. Mae’r penderfyniad masnachol yn gyfle y dylid edrych yn gadarnhaol arno, ond mae goblygiadau ynddo i’n holl gymunedau.

Carwyn Jones: Fe allai ymddangos yn rhyfedd bod Aelod o Ben-y-bont ar Ogwr yn siarad mewn dadl ar weithfeydd dur. Fodd bynnag, mae llawer o bobl Pen-y-bont yn gweithio yng ngwaith dur Port Talbot—‘the abbey’ yw’r enw a roddir ar y gwaith yn fy etholaeth i ac ym Mhort Talbot. Mae’n arbennig o bwysig yn rhan dde-orllewinol Pen-y-bont ar Ogwr o gwmpas Pyle a Mynydd Cynffig.

Yr oedd y gwaith dur yn arfer cyflogi 17,000 o bobl ac y mae’n cyflogi nifer tebyg i hynny yn awr gan fod cymaint o’r swyddogaethau a gâi eu cyflawni’n fewnol bellach yn cael eu gwneud gan gontractwyr annibynnol. Felly mae’r effaith ar swyddi yn fawr.

Yr wyf yn croesawu sylwadau’r Prif Ysgrifennydd a rhai’r ddau gwmni sy’n gysylltiedig â’r cyfuno nad oes bygythiad sylweddol i swyddi ym Mhort Talbot ac i’r pedwar gwaith arall yng Nghymru a allai gael eu heffeithio. Er mwyn i’r cyfuniad hwn fod o les i ddiwydiant dur Cymru, dylem sicrhau bod ein gweithfeydd dur yn aros yn agored er mwyn elwa ar unrhyw gynnydd yn y dyfodol. Os bydd ein gweithfeydd yno o hyd i elwa o hynny, yr wyf yn croesawu hynny.

Deallaf fod y ddau gwmni yn y broses o gyfuno. Pan fyddant wedi cyfuno, dylem barhau i fod yn wylidwrus ynghylch gweithgareddau yn y diwydiant dur. A fydd y Prif Ysgrifennydd yn parhau i gyfarfod â’r

unions at all the Welsh plants to monitor the situation? This will ensure that the Assembly's views are known to the plant's management and reassure my constituents and other employees of the steel-making plants about their future.

The First Secretary: Carwyn is right to emphasise that the people from a wide area are affected. The merger affects not only those in the immediate area but those travelling from further afield. It also has implications for the Welsh economy as a whole. Rhodri and myself will ensure that we meet management in the steel industry and all Welsh businesses regularly. I am sure all Assembly Members will want to build on a partnership that is at the heart of the Assembly's underlying principles. We have comparatively few 'head office' businesses in Wales and we need to ensure that we work with Welsh management, and that head office management outside Wales is aware that the Assembly exists to work with business. This will benefit the economy and help businesses to succeed. That has implications for jobs and prosperity for our constituents. Therefore, I am happy to assure Carwyn.

Alun Cairns: British Steel has been transformed from reaching the record books for all the wrong reasons. In the 1970s, it received £1 million a week in subsidies from the taxpayer. It was released into enterprise by the last Government, and it is now a flexible, modern enterprise.

The First Secretary said in his initial address that the Government has no power over or influence on British Steel's management decisions. The Government's mismanagement of the economy and increased legislation have forced British Steel's management into this situation. The over valued pound and the failure of the euro have cost British Steel £600 million in pre-tax profits over the last three years. The increased legislation—the minimum wage, the working time directive, the Works

rheolwyr a'r undebau ym mhob un o'r gweithfeydd yng Nghymru er mwyn monitro'r sefyllfa? Bydd hyn yn sicrhau bod barn y Cynulliad yn wybyddus i reolwyr y gweithfeydd ac yn tawelu meddwl fy etholwyr a gweithwyr eraill yn y gweithfeydd dur ynghylch eu dyfodol.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae Carwyn yn iawn i bwysleisio bod pobl o ardal eang yn profi'r effeithiau. Mae'r cyfuno yn effeithio ar y rhai yn yr ardal gyfagos ond hefyd ar y rhai sy'n teithio o fannau pellach. Mae iddo oblygiadau hefyd i economi Cymru yn ei gyfanrwydd. Bydd Rhodri a minnau'n gofalu ein bod yn cyfarfod yn rheolaidd â'r rheolwyr yn y diwydiant dur ac yn holl fusnesau Cymru. Yr wyf yn sicr y bydd holl Aelodau'r Cynulliad am adeiladu ar bartneriaeth sydd wrth wraidd egwyddorion sylfaenol y Cynulliad. Cymharol ychydig o fusnesau 'prif swyddfa' sydd gennym yng Nghymru a rhaid inni sicrhau ein bod yn gweithio gyda rheolwyr Cymru, a bod y rheolwyr mewn prif swyddfeydd y tu allan i Gymru yn gwybod bod y Cynulliad yn bodoli er mwyn gweithio gyda busnes. Bydd hyn o les i'r economi ac yn helpu busnesau i lwyddo. Mae goblygiadau yn hynny i swyddi a ffyniant i'n hetholwyr. Felly, mae'n dda gennyf roi sicrwydd i Carwyn.

Alun Cairns: Mae Dur Prydain wedi ei weddnewid ers yr adeg pan arferai fod yn y llyfrau record am y rhesymau anghywir. Yn yr 1970au, derbynai £1 miliwn yr wythnos mewn cymorthdaliadau oddi wrth y trethdalwr. Fe'i rhyddhawyd i fyd busnes gan y Llywodraeth ddiwethaf, ac mae bellach yn fusnes modern, hyblyg.

Fe ddywedodd y Prif Ysgrifennydd yn ei anerchiad dechreuol nad oes gan y Llywodraeth bŵer na dylanwad mewn perthynas â phenderfyniadau rheoli Dur Prydain. Mae camreolaeth y Llywodraeth ar yr economi a deddfwriaeth gynyddol wedi gorfodi rheolwyr Dur Prydain i'r sefyllfa hon. Mae gorbrisiad y bunt a methiant yr ewro wedi achosi £600 miliwn o ostyngiad yn elw cyn treth Dur Prydain dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r ddeddfwriaeth gynyddol—y cyflog lleiaf, y gyfarwydddeb ar

Councils and paternal leave—is forcing British Steel, which was a British company, into a global situation. That is the influence of the Government’s negative policies on the Welsh workforce.

The First Secretary: I am tempted to indulge in the sort of knockabout that is more familiar in Westminster than in the Assembly. These issues are too serious for us to drift into that style. On the minimum wage, the head of a large steel company said to me before the general election that the Labour party’s plans for a minimum wage caused him no concern whatsoever. He said that he would be ashamed to be paying as low a level as that contemplated for a minimum wage. He was a steelmaker, a businessman in the private sector. I think that it would be a good idea for members of the Conservative Group to spend time with people in business—they may learn a good deal.

Rod Richards: Answer the question.

The First Secretary: You want me to go into the details of the question. I am not going to indulge in the knockabout invited by that question. There was a change of Government two years ago. I will not go into the impact of 18 years of devastation on Welsh industry and employment. Let us consider today’s subject: British Steel’s series of successful, effective Welsh plants, where there is partnership between the trade unions and management and where a merger could lead to greater success for Welsh industry and employees. Those are the important issues and I hope what the company has said will turn out to be true. We will continue to engage with the company, when that is the Assembly’s responsibility, but we must ensure we do not go outside our remit and pretend to be able to take what are essentially commercial decisions. We must take an informed interest in them as an Assembly.

2:49 p.m

amser gweithio, y Cyngorau Gwaith a rhyddhad o’r gwaith i dadau—yn gorfodi Dur Prydain a oedd yn gwmni Prydeinig, i sefyllfa fyd-eang. Dyna ddylanwad polisïau negyddol y Llywodraeth ar weithlu Cymru.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn cael fy nhentio i ymroi i’r math o golbio sy’n fwy cyfarwydd yn San Steffan nag yn y Cynulliad. Mae’r materion hyn yn rhy ddiffrifol inni grwydro i’r math hwnnw o drafod. Ynghylch y cyflog lleiaf, fe ddywedodd pennaeth un cwmni dur mawr wrthyf cyn yr etholiad cyffredinol nad oedd cynlluniau’r Blaid Lafur ar gyfer cyflog lleiaf yn peri unrhyw bryder iddo o gwbl. Dywedodd y byddai arno gywilydd talu lefel oedd cyn ised â honno a ystyriwyd ar gyfer cyflog lleiaf. Gwneuthurwr dur oedd ef, dyn busnes yn y sector preifat. Credaf y byddai’n syniad da i aelodau’r Grŵp Ceidwadol dreulio amser gyda phobl sydd mewn busnes—fe allent ddysgu llawer iawn.

Rod Richards: Atebwch y cwestiwn.

The First Secretary: Yr ydych am imi fynd i fanylion y cwestiwn. Nid wyf am ymroi i’r math o golbio sydd ymhlyg yn y cwestiwn hwnnw. Cafwyd newid Llywodraeth ddwy flynedd yn ôl. Ni fanylaf ar effaith 18 mlynedd o ddistryw ar ddiwydiant a chyflogaeth yng Nghymru. Gadewch inni ystyried y mater sydd ohoni heddiw—y clwstwr o weithfeydd llwyddiannus, effeithiol sydd gan Ddur Prydain yng Nghymru, lle y mae partneriaeth rhwng yr undebau llafur a’r rheolwyr a lle y gallai cyfuniad arwain at fwy o lwyddiant i ddiwydiant Cymru a’i gweithwyr. Dyna yw’r materion pwysig ac yr wyf yn gobeithio y gwireddir yr hyn a ddywedodd y cwmni. Byddwn yn parhau i gadw cysylltiad â’r cwmni, pan fydd hynny’n gyfrifoldeb i’r Cynulliad, ond rhaid inni sicrhau na fyddwn yn mynd y tu hwnt i’n cylch gorchwyl ac yn cymryd arnom allu gwneud penderfyniadau sydd yn y bôn yn rhai masnachol. Rhaid inni ymddiddori’n ddeallus ynddynt fel Cynulliad.

Peter Black: I welcome the First Secretary's statement today and also his optimism that this merger will help British Steel to grow in Wales and secure the jobs, which, for some hours, we felt were under threat. There are rumours about this merger. I want to ask about a couple of the rumours and some statements. What indications have you received from British Steel about the number, if any, of proposed administrative job losses in Wales? Has any indication been given about how this new company hopes to achieve the £200 million rationalisation savings from the merger?

The First Secretary: In the first instance, the indications and the expectations were that the job losses would be mainly at head office and would not impact on Wales. The company was clear that there is no immediate threat to the Welsh plants. The savings indicated to me by Mr Cragg were those of purchasing logistics and development. Clearly, this is early days for the development.

Assembly Members might like to look at the prospectus the company is making available to its employees. I shall be able to get copies from the company but I have not actually seen them. I believe a copy of the prospectus has arrived in the building and that might help. The details may answer some questions.

Helen Mary Jones: I have a big constituency interest in this subject. Will the First Secretary ensure that central Government shows the same commitment to the future of the steel industry in Wales that it has shown to the future of the car industry in the English midlands? I concur with everything that has been said about not wishing to be alarmist and about the opportunities that this merger may present for British Steel and particularly for the works in Trostre, but there is concern among workers that there is an underlying agenda. Given Wales' experience of such mergers in the past, we understand that concern. I would

Peter Black: Yr wyf yn croesawu datganiad y Prif Ysgrifennydd heddiw a hefyd ei hyder y bydd y cyfuniad hwn yn helpu Dur Prydain i dyfu yng Nghymru ac i ddiogelu'r swyddi yr oeddem yn teimlo, am rai oriau, eu bod dan fygythiad. Mae yna sïon ynghylch y cyfuniad hwn. Yr wyf am holi ynghylch un neu ddau o'r sïon a rhai o'r datganiadau. Pa arwyddion yr ydych wedi eu derbyn oddi wrth Ddur Prydain ynghylch nifer y swyddi gweinyddol y bwriedir eu colli yng Nghymru, os yw hynny i ddigwydd? A roddwyd unrhyw arwydd ynghylch sut y mae'r cwmni newydd hwn yn gobeithio sicrhau'r arbedion o £200 miliwn drwy resymoli yn sgîl y cyfuniad?

Y Prif Ysgrifennydd: Yr arwyddion a'r disgwyliadau, ar y dechrau, oedd y byddai'r colledion swyddi yn digwydd yn bennaf yn y brif swyddfa ac na fyddent yn effeithio ar Gymru. Yr oedd y cwmni'n bendant nad oedd unrhyw fygythiad uniongyrchol i'r gweithfeydd yng Nghymru. Yr oedd yr arbedion a nodwyd i mi gan Mr Cragg yn ymwneud â logisteg prynu a datblygu. Wrth gwrs, megis dechrau y mae'r datblygiad.

Efallai yr hoffai Aelodau'r Cynulliad fwrw golwg ar y prospectws y mae'r cwmni'n ei ddarparu i'w weithwyr. Byddaf yn gallu cael copïau oddi wrth y cwmni ond nid wyf wedi eu gweld. Credaf fod copi o'r prospectws wedi cyrraedd yr adeilad a gallai hynny fod o gymorth. Gallai'r manylion ateb rhai cwestiynau.

Helen Mary Jones: Y mae gennyf ddiddordeb mawr yn y pwnc hwn ar ran fy etholaeth. A fydd y Prif Ysgrifennydd yn sicrhau bod y Llywodraeth ganolog yn dangos yr un ymrwymiad i ddyfodol y diwydiant dur yng Nghymru ag y dangosodd i ddyfodol y diwydiant ceir yng nghanolbarth Lloegr? Yr wyf yn cyd-fynd â'r cwbl a ddywedwyd ynghylch peidio â dymuno creu dychryn ac am y cyfleoedd y gallai'r cyfuniad hwn eu rhoi i Ddur Prydain ac yn enwedig i'r gwaith yn Nhrostre, ond mae pryder ymysg gweithwyr fod agenda cuddiedig. O wybod am yr hyn a brofodd Cymru o'r fath gyfuniadau yn y gorffennol,

like to give you this opportunity to assure us that, should the worst come to the worst and intervention was required, the steel industry in Wales would receive the same support from the central Government as the car industry in the Midlands did.

The First Secretary: That is a difficult comparison. However, I accept your comments that in an industry where people have had hammerblows over the years, it is natural to think that any news is bad news and means job losses. That fear emerged at the end of last week and over the weekend. The company's statements are welcome and we need to look at them in detail. Rhodri will meet the company to consider further the impact of the decision, and the way the decision was worked through in terms of the merger.

I have no doubt about the UK Government's concern for and interest in the steel industry, the car industry and other industries in Wales. A short time ago, the Chancellor of the Exchequer joined me to visit the Ford plant at Bridgend, to hear from trade unions and management about their hopes for the future and to talk about the important element—productivity. We need to demonstrate productivity in our industries in Wales to support homegrown industries and continue to attract inward investment. It underlines the importance of partnership between the Assembly and its economic responsibilities and central Government departments and their work.

Phil Williams: Steel is so important that I welcome Alun's optimism for the steel industry's future. There is a basis for his optimism. Greatly increased productivity and continuing investment have made the Welsh steel industry technically world class and very competitive, even in a depressed world market.

Dafydd Wigley and others have already referred to the burden of an over-valued

yr ydym yn deall y pryder hwnnw. Hoffwn roi'r cyfle hwn ichi roi sicrwydd i ni, pe bai'r gwaethaf yn digwydd a bod angen ymyrryd, y byddai'r diwydiant dur yng Nghymru yn derbyn yr un cymorth oddi wrth y Llywodraeth ganol ac y gwnaeth y diwydiant ceir yng Nghanolbarth Lloegr.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae hynny'n gymhariaeth sy'n peri anhawster. Fodd bynnag, yr wyf yn derbyn eich sylwadau ei bod yn naturiol i bobl sydd mewn diwydiant a ddioddefodd ergydion dros y blynyddoedd feddwl bod unrhyw newyddion yn newyddion drwg ac yn golygu colli swyddi. Daeth yr ofn hwnnw i'r amlwg ddiwedd yr wythnos diwethaf a thros y penwythnos. Mae datganiatau'r cwmni i'w croesawu a bydd rhaid inni edrych arnynt yn fanwl. Bydd Rhodri yn cyfarfod â'r cwmni i ystyried effaith y penderfyniad ymhellach, a'r modd y cyrhaeddwyd at y penderfyniad i gyfuno.

Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth ynghylch pryder a diddordeb Llywodraeth y DU parthed y diwydiant dur, y diwydiant ceir a diwydiannau eraill yng Nghymru. Ychydig amser yn ôl, daeth Canghellor y Trysorlys gyda mi ar ymweliad â gwaith Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr, i glywed gan yr undebau llafur a'r rheolwyr am eu gobeithion ar gyfer y dyfodol ac i siarad am yr elfen bwysig—cynhyrchiant. Mae angen inni dynnu sylw at y cynhyrchiant yn ein diwydiannau yng Nghymru er mwyn cefnogi diwydiannau cynhenid a pharhau i ddenu buddsoddiad o'r tu allan. Mae'n tanlinellu pwysigrwydd y bartneriaeth rhwng y Cynulliad a'i gyfrifoldebau economaidd ac adrannau'r Llywodraeth ganolog a'u gwaith hwythau.

Phil Williams: Mae dur mor bwysig fel fy mod yn croesawu hyder Alun yn nyfodol y diwydiant dur. Mae ganddo le i hyderu. Mae'r cynnydd mawr mewn cynhyrchiant a'r parhad mewn buddsoddi wedi gwneud diwydiant dur Cymru yn un o safon fyd-eang ac yn gystadleuol iawn, hyd yn oed mewn marchnad fyd-eang ddirwasgedig

Mae Dafydd Wigley ac eraill eisoes wedi cyfeirio at faich gorbrisiad y bunt. Ar ben

pound. In addition, it is alleged that some countries dump steel on the United States and European markets at below production costs. It was reported recently that the US Government is pursuing that vigorously with the World Trade Organisation in respect of 12 countries. Will Alun urge the UK Government, via the European Union, to follow the example of the US Government in requesting the World Trade Organisation to investigate vigorously and as a priority the alleged dumping of steel on the world market by certain countries?

The First Secretary: I am happy to convey those concerns to colleagues at the Department of Trade and Industry. Steel dumping has come up from time to time in the past. That shows the importance of international regulations and partnership with other countries, both in Europe and the wider world. These are matters of concern because of the knock-on impact on us. I am happy to take the point further and perhaps report back to you on the situation and what is being done on our behalf.

William Graham: Sometimes it is said in Wales that we talk down our achievements. Llanwern is a significant achievement. It is a modern plant. The Zodiac coating plant there is technically brilliant and one of the best in the world. However, much of that productivity has been at the expense of jobs in south-east Wales and especially in Newport.

I would like this Assembly today to send out through the First Secretary, the message that this announcement is welcome. It creates the third largest steel combine in the world. There will be the opportunity of an upsurge in demand. I do not think it is so much a merger as a takeover. We should welcome the fact that we would then have a more efficient steel industry in Wales. It is unwise to make plans to attend the wake before the death is announced. I have confidence in steelmaking in Wales. I would like us to show that Welsh steel remains the finest in the world.

hynny, fe honnir bod rhai gwledydd yn dympio dur ar farchnadoedd yr Unol Daleithiau ac Ewrop am lai na'r costau cynhyrchu. Cafwyd adroddiad yn ddiweddar fod Llywodraeth UDA yn mynd ar ôl y mater hwn yn egniol gyda Chyfundrefn Masnach y Byd mewn perthynas â 12 gwlad. A fydd Alun yn pwysu ar Lywodraeth y DU drwy'r Undeb Ewropeaidd i ddilyn esiampl Llywodraeth UDA wrth ofyn i Gyfundrefn Masnach y Byd ymchwilio'n egniol ac fel blaenoriaeth i'r dympio honedig o ddur ar farchnad y byd gan rai gwledydd?

Y Prif Ysgrifennydd: Byddaf yn falch o gyfleu'r pryderon hynny i'm cydweithwyr yn yr Adran Diwydiant a Masnach. Mae mater dympio dur wedi codi o bryd i'w gilydd yn y gorffennol. Mae hynny'n dangos pwysigrwydd rheoliadau rhyngwladol a phartneriaeth â gwledydd eraill, yn Ewrop ac yn y byd ehangach. Mae'r rhain yn faterion sydd yn peri pryder oherwydd yr effaith gynyddol arnom ni. Byddaf yn falch o fynd â'r pwynt ymhellach ac adrodd yn ôl ichi efallai ar y sefyllfa a'r hyn sy'n cael ei wneud ar ein rhan.

William Graham: Fe ddywedir weithiau ein bod ni yng Nghymru yn arfer bychanu ein cyflawniadau. Mae Llanwern yn gyflawniad o bwys. Mae'n waith modern. Mae gwaith caenu Zodiac yno yn dechnegol wych ac yn un o'r goreuon yn y byd. Fodd bynnag, mae llawer o'r cynhyrchiant hwnnw wedi digwydd ar draul swyddi yn ne-ddwyrain Cymru ac yn enwedig yng Nghasnewydd.

Byddwn yn hoffi i'r Cynulliad anfon y neges heddiw drwy'r Prif Ysgrifennydd fod croeso i'r datganiad hwn. Mae'n creu'r gyfuned ddur drydedd fwyaf yn y byd. Bydd cyfle ar gyfer ymchwydd mewn galw. Yr wyf yn credu mai cymryd cwmni drosodd a wnaed yn hytrach na chyfuno. Dylem groesawu'r ffaith y byddai gennym wedyn ddiwydiant dur mwy effeithlon yng Nghymru. Annoeth yw trefnu i fynd i'r wylnos cyn cyhoeddi'r farwolaeth. Mae gennyf hyder mewn cynhyrchu dur yng Nghymru. Byddwn yn hoffi inni ddangos mai dur Cymru yw'r gorau yn y byd o hyd.

The First Secretary: I am grateful for that contribution. It reminds us that it is inappropriate to arrange to attend a wake before there is a need for a funeral. When you attend a wedding, you hope that you are celebrating something productive that will last for a long time. I accept the spirit of William Graham's remarks that we should view the merger as something that we hope will be productive and positive.

I agree with the comments about the steel industry's success in Wales in recent times. Let us hope this is a platform for further success. We are always right to examine the upside and the downside, especially when considering commercial decisions that we cannot make directly. I join in celebrating the success in the steel industry in recent years.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfraniad hwnnw. Mae'n ein hatgoffa mai amhriodol yw trefnu i fynd i wylnos cyn bod angen angladd. Pan fyddwch yn mynd i briodas, yr ydych yn gobeithio dathlu rhywbeth cynhyrchiol a fydd yn parhau am amser maith. Derbyniaf ysbryd sylwadau William Graham y dylem edrych ar y cyfuniad fel rhywbeth a fydd, fe obeithiwn, yn gynhyrchiol ac yn gadarnhaol.

Cytunaf â'r sylwadau am lwyddiant y diwydiant dur yng Nghymru yn y cyfnod diweddar. Gadewch inni obeithio bod hyn yn gyfle ar gyfer llwyddiant pellach. Mae'n iawn bob amser inni edrych ar yr ochr olau a'r ochr dywyll, yn enwedig wrth ystyried penderfyniadau masnachol na allwn eu gwneud yn uniongyrchol. Yr wyf yn ymuno yn y clod i lwyddiant y diwydiant dur yn y blynyddoedd diwethaf hyn.

Datganiad Busnes Business Statement

Andrew Davies: Before I make a statement on the next three weeks Plenary business, I would like to draw attention to a decision made in the Business Committee this morning. We scheduled the elections for the scrutiny committees for next week. They are the Legislation Committee, the Audit Committee and the Committee on Standards of Conduct. We shall also elect the Standing Committee on European Affairs and on Equality of Opportunity.

I suggested to the Business Committee this morning that these matters be deferred as a result of concerns expressed by certain parties about membership of Subject Committees. I took the view that this was an opportunity to review comprehensively the membership of all these committees. We need to achieve all-party consensus in an inclusive way, as far as is practical, on these issues. I suggest we use this opportunity to discuss the membership of all the committees including Subject Committees before coming back for election at a future date. I have made a commitment to table the election to the Legislation Committee for Wednesday 23 June at the latest.

Andrew Davies: Cyn imi roi datganiad ar fusnes y Sesiwn Llawn yn y tair wythnos nesaf, carwn dynnu sylw at benderfyniad a wnaed yn y Pwyllgor Busnes fore heddiw. Yr ydym wedi amserlennu'r etholiadau i'r pwyllgorau manylu ar gyfer yr wythnos nesaf. Y rhain yw'r Pwyllgor Deddfau, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor ar Safonau Ymddygiad. Byddwn hefyd yn ethol y Pwyllgor Sefydlog ar Faterion Ewropeaidd ac ar Gyfle Cyfartal.

Fe awgrymais i'r Pwyllgor Busnes fore heddiw y dylid gohirio'r materion hyn o ganlyniad i bryderon a fynegwyd gan rai pleidiau ynghylch aelodaeth y Pwyllgorau Pwnc. Yr oeddwn o'r farn bod hyn yn gyfle i gynnal adolygiad cynhwysfawr ar aelodaeth yr holl bwyllgorau hyn. Mae angen inni sicrhau consensws ymysg yr holl bleidiau mewn modd cynhwysol, i'r graddau mwyaf posibl, ar y materion hyn. Awgrymaf y dylem ddefnyddio'r cyfle hwn i drafod aelodaeth yr holl bwyllgorau, gan gynnwys y Pwyllgorau Pwnc, cyn dod yn ôl i'w hethol yn y dyfodol. Yr wyf wedi ymrwmo i gyflwyno'r etholiad i'r Pwyllgor Deddfau ar gyfer dydd Mercher 23 Mehefin fan bellaf.

2:59 p.m

The programme of business for the next three weeks will be placed on the intranet today. I draw your attention to the following items of business. There will be a state of the nation debate in Plenary on Tuesday 15 June, moved by the First Secretary. On Wednesday 16 June there will be oral Assembly questions taken in Plenary by Jane Hutt, the Secretary for Health and Social Services, and Tom Middlehurst, the Secretary for Post-16 Education and Training.

Two minority party debates will be held at the end of Plenary on 16 June. Plaid Cymru will hold the first debate, lasting an hour, followed by the Conservatives, and this debate will also be an hour.

Edwina Hart, the Finance Secretary, will make a statement about the budget-setting process in Plenary on 22 June.

If negotiations are completed, the elections to the following committees will be held in Plenary on 23 June: Audit Committee; Legislation Committee; Committee on Standards of Conduct; Committee on European Affairs; Committee on Equality of Opportunity and the four Regional Committees of the Assembly.

Oral questions will be taken by Rosemary Butler, the Secretary for Under-16 Education, and by Christine Gwyther, the Secretary for Agriculture and Rural Development.

The debate on the voluntary sector will be held in Plenary on Wednesday 30 June.

Nick Bourne: I thank the Business Secretary for his commitment to reconsider the membership of committees. I am sure it is welcomed. Under Standing Order No. 6.3, this is not an objection, but I would like to voice a widely-shared concern about question time. Fifteen minutes is clearly inadequate. I know that you, as Presiding Officer, have

Fe osodir y rhaglen fusnes ar gyfer y tair wythnos nesaf ar y fewnrwyd heddiw. Tynnaf eich sylw at yr eitemau busnes canlynol. Bydd dadl ar gyflwr y genedl yn y Sesiwn Llawn ddydd Mawrth 15 Mehefin, a gynigir gan y Prif Ysgrifennydd. Ddydd Mercher 16 Mehefin fe dderbynnir cwestiynau llafar gan y Cynulliad mewn Sesiwn Llawn gan Jane Hutt, yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Tom Middlehurst, yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16.

Cynhelir dwy ddadl a gyflwynir gan bleidiau lleiafrifol ar ddiwedd y Sesiwn Llawn ar 16 Mehefin. Plaid Cymru fydd yn cynnal y ddadl gyntaf, a fydd yn awr o hyd, ac wedyn y Ceidwadwyr, a bydd y ddadl hon hefyd yn awr o hyd.

Bydd Edwina Hart, yr Ysgrifennydd Cyllid, yn rhoi datganiad am y broses pennu cyllidebau yn y Sesiwn Llawn ar 22 Mehefin.

Os cwblheir y trafodaethau, fe gynhelir yr etholiadau i'r pwyllgorau canlynol yn y Sesiwn Llawn ar 23 Mehefin: y Pwyllgor Archwilio; y Pwyllgor Deddfau; y Pwyllgor ar Safonau Ymddygiad; y Pwyllgor ar Faterion Ewropeaidd; y Pwyllgor ar Gyfle Cyfartal a phedwar Pwyllgor Rhanbarth y Cynulliad.

Derbynnir cwestiynau llafar gan Rosemary Butler, yr Ysgrifennydd Addysg Cyn-16, a chan Christine Gwyther, yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.

Cynhelir y ddadl ar y sector gwirfoddol yn y Sesiwn Llawn ddydd Mercher 30 Mehefin.

Nick Bourne: Diolchaf i'r Trefnydd am ei ymrwymiad i ailystyried aelodaeth pwyllgorau. Yr wyf yn sicr bod croeso i hynny. O dan Reol Sefydlog Rhif 6.3, nid gwrthwynebiad mo hyn, ond fe hoffwn leisio pryder a rennir gan lawer ynghylch y sesiwn holi. Mae'n amlwg bod pymtheg munud yn annigonol. Fe wn eich bod, fel Llywydd,

allowed it to run to 25 minutes, but I ask the Business Secretary whether the Business Committee could extend the time for questions to the First Secretary and Assembly Secretaries.

The Presiding Officer: This is a matter for the Business Committee and I hope we can pursue it.

Andrew Davies: I am happy to consider that.

David Melding: I wish to seek clarification.

The Presiding Officer: I have been extremely indulgent in the last three weeks. These matters should be pursued through the Business Committee, so that they do not take time from debates. I will allow you to make your point today.

David Melding: Surprisingly indulgent, I have to say.

Given that the Business Secretary has made a statement about business for the next three weeks, I ask him to consider allocating time to examine the feasibility of establishing a children's hospital in Wales. I believe there is a considerable body of opinion calling for this.

The Presiding Officer: That is not a matter of order, nor a matter for the Business Committee, except in relation to the business of the Assembly. You are taking advantage of my good nature in making a policy point which is appropriate to a discussion on the Assembly's future business.

There is no room in our Standing Orders for discussion of future business. The Standing Orders allow for a statement to be made and for an objection to be taken should there be an objection. They allow for a discussion and a vote on that matter. I am bound by those Standing Orders and will continue to abide by them.

In future, I would be grateful if business matters were discussed through a mechanism that we do not describe here as 'the usual

wedi caniatáu iddo ymestyn i 25 munud, ond yr wyf yn gofyn i'r Trefnydd a allai'r Pwyllgor Busnes ymestyn yr amser ar gyfer cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd ac i Ysgrifenyddion y Cynulliad.

Y Llywydd: Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Busnes a gobeithio y gallwn ei drafod ymhellach.

Andrew Davies: Byddaf yn falch o ystyried hynny.

David Melding: Dymunaf ofyn am eglurhad.

Y Llywydd: Bùm yn oddefgar iawn yn y tair wythnos diwethaf. Dylid mynd ar drywydd y materion hyn drwy'r Pwyllgor Busnes, fel na fyddant yn mynd ag amser oddi wrth y dadleuon. Rhoddaf ganiatâd ichi wneud eich pwynt heddiw.

David Melding: Yn hynod oddefgar, rhaid imi ddweud.

Gan fod y Trefnydd wedi gwneud datganiad ynghylch busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf, yr wyf yn gofyn iddo ystyried dyrannu amser i archwilio'r dichonolrwydd o sefydlu ysbyty plant yng Nghymru. Credaf fod nifer sylweddol o'r farn bod angen hynny.

Y Llywydd: Nid mater o drefn yw hynny, ac nid yw'n fater i'r Pwyllgor Busnes, heblaw am ei gysylltiad â busnes y Cynulliad. Yr ydych yn manteisio ar fy rhadlondeb wrth wneud pwynt polisi sydd yn briodol i drafodaeth ar fusnes y Cynulliad yn y dyfodol.

Nid oes lle yn ein Rheolau Sefydlog i drafod busnes y dyfodol. Mae'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu gwneud datganiad a derbyn gwrthwynebiad os bydd gwrthwynebiad. Maent yn caniatáu trafodaeth a phleidlais ar y mater hwnnw. Yr wyf wedi fy rhwymo gan y Rheolau Sefydlog hynny a byddaf yn parhau i gadw atynt.

Yn y dyfodol, byddwn yn ddiolchgar pe bai materion busnes yn cael eu trafod drwy beirianwaith nad yw'n cael ei alw yma yn

channels' but that nevertheless exists in the form of a Business Committee. I hope that Members will now follow the correct procedure. I am grateful to the Business Secretary.

'sianeli arferol' ond sydd yn bod er hynny ar ffurf Pwyllgor Busnes. Gobeithio y bydd yr Aelodau yn awr yn dilyn yr weithdrefn briodol. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Trefnydd.

Y Cyngor Partneriaeth a Chynlluniau Partneriaeth Eraill The Partnership Council and other Partnership Schemes

The First Secretary: I propose that

Y Prif Ysgrifennydd: Cynigiau fod

the Assembly agrees the principles set out in the document named 'Principles for Partnership', a copy of which is to be laid in the Table Office on 4 June 1999;

y Cynulliad yn cytuno â'r egwyddorion a nodir yn y ddogfen sy'n dwyn yr enw 'Egwyddorion Partneriaeth'. Bydd copi o'r ddogfen hon yn cael ei gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mehefin 1999;

local government be consulted formally on the proposals for the Partnership Council and its Standing Orders;

ymgyngori yn ffurfiol â llywodraeth leol ar y cynigion ar gyfer y Cyngor Partneriaeth a'i Reolau Sefydlog;

nominations for membership of the Council be sought from the representative bodies in line with the proposals set out in the document 'The Partnership Council: Preparing the Ground', a copy of which is to be laid in the Table Office on 4 June 1999;

gwahodd y cyrff cynrychiadol i enwebu aelodau ar gyfer y Cyngor yn unol â'r argymhellion a nodir yn y ddogfen 'Y Cyngor Partneriaeth: Braenaru'r Tir'. Bydd copi o'r ddogfen yn cael ei gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mehefin 1999;

an early meeting between Assembly and local government members be arranged before the recess; and

trefnu cyfarfod buan rhwng aelodau'r Cynulliad a llywodraeth leol cyn i'r Cynulliad gau dros yr haf; ac yn

that the Business Committee be requested to consider the arrangements for the appointment of 10 representatives from the Assembly to the Partnership Council.

gofyn i'r Pwyllgor Busnes ystyried y trefniadau ar gyfer penodi 10 cynrychiolydd o'r Cynulliad i'r Cyngor Partneriaeth.

I start by setting out general principles that I strongly believe the Assembly should adopt in working with Wales for Wales. I will then touch on our proposals for one of the major steps towards turning principles into reality—setting up the Partnership Council.

Dechreuaf drwy nodi egwyddorion cyffredinol yr wyf yn credu'n gryf y dylai'r Cynulliad eu mabwysiadu wrth weithio gyda Chymru dros Gymru. Wedyn byddaf yn sôn am ein cynigion ar gyfer un o'r camau mawr tuag at wireddu'r egwyddorion—hynny yw sefydlu'r Cyngor Partneriaeth.

Members should have seen a one-page statement of principles that apply to all three sectors; partnership with local government, partnership with business and partnership with the voluntary sector. They should also have seen the paper that refers to the Partnership Council, which is the partnership with local government.

Dylai fod yr Aelodau wedi gweld datganiad un-dudalen o egwyddorion sy'n berthnasol i bob un o'r tri sector; partneriaeth â llywodraeth leol, partneriaeth â busnes a phartneriaeth â'r sector gwirfoddol. Dylent hefyd fod wedi gweld y papur sy'n cyfeirio at y Cyngor Partneriaeth, sef y bartneriaeth â llywodraeth leol.

One of the most important overriding aims of the Assembly is to work in partnership with all sectors of Welsh society in developing and implementing policy and in taking action. Without effective partnerships, the key principles of devolution, those of being open and inclusive, will remain mere rhetoric. We need to work with partners to ensure that we work for the whole of Wales and set the strategic frameworks for our work and that of our partners.

The Government of Wales Act 1998 enshrined these principles in legislation with statutory requirements for schemes and arrangements for working openly and inclusively with local government, with the voluntary sector and business, while also pursuing principles of sustainable development, equality of opportunity and so on. I want to ensure that there is full support for my pledge to turn that theory into reality by working with all sectors for the good of Wales.

Joint working will help us to set in place realistic policies and clear planning, especially in identifying priorities and setting budgets. It can provide feedback on the operation and effectiveness of the Assembly's policies. Local government, the voluntary sector, business and others are close to the ground and they are able to report on the effectiveness of the Assembly's policies from several very different viewpoints. On the other hand, the Assembly is able to co-ordinate action and to build bridges in a way that no other body can dream of doing. This is the added value that we bring to the work of all three sectors in Wales.

We must ensure that we are in a position to listen to our partners and to work with them to take on board their knowledge and experience. Working with them will help us to develop co-ordinated approaches to issues, resulting in greater focus and concentration of resources. We will achieve greater effectiveness by avoiding duplication and by finding the gaps in provision that need

Un o nodau blaenaf a phwysicaf y Cynulliad yw gweithio mewn partneriaeth â'r holl sectorau yn y gymdeithas yng Nghymru wrth ddatblygu polisi a'i roi ar waith ac wrth weithredu. Heb bartneriaethau effeithiol, bydd prif egwyddorion datganoli, sef bod yn agored ac yn gynhwysol, yn pahau i fod yn ddim ond rhethreg. Rhaid inni weithio gyda phartneriaid i sicrhau ein bod yn gweithio ar ran Cymru gyfan ac yn gosod y fframweithiau strategol ar gyfer ein gwaith ni a gwaith ein partneriaid.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 wedi ymgorffori'r egwyddorion hyn mewn deddfwriaeth gyda gofynion statudol am gynlluniau a threfniadau ar gyfer gweithio'n agored ac yn gynhwysol â llywodraeth leol, y sector gwirfoddol a busnes, gan ddilyn egwyddorion datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal ac yn y blaen hefyd. Yr wyf am sicrhau bod cefnogaeth lawn i'm haddewid i droi'r ddamcaniaeth honno'n ffaith drwy weithio gyda'r holl sectorau er lles Cymru.

Bydd gweithio ar y cyd yn ein helpu i sefydlu polisiâu realistig a chynllunio eglur, yn enwedig wrth ddynodi blaenoriaethau a phennu cyllidebau. Fe all ddarparu adborth ar weithrediad ac effeithiolrwydd polisiâu'r Cynulliad. Mae llywodraeth leol, y sector gwirfoddol, busnes ac eraill yn agos at lawr gwlad a gallant adrodd ar effeithiolrwydd polisiâu'r Cynulliad o sawl safbwynt gwahanol. Ar y llaw arall, mae'r Cynulliad yn gallu cydlynu gweithredu a chodi pontydd mewn modd sydd y tu hwnt i freuddwydion unrhyw gorff arall. Dyma'r gwerth ychwanegol a gyfrannwn at waith pob un o'r tri sector yng Nghymru.

Rhaid inni sicrhau ein bod mewn sefyllfa i wrando ar ein partneriaid ac i gydweithio â hwy er mwyn cynnwys eu gwybodaeth a'u profiad. Bydd gweithio gyda hwy yn ein helpu i ddatblygu dulliau gweithredu cydlynol i ymdrin â materion, gan arwain at ganolbwyntio a chrynhoi adnoddau i raddau mwy. Byddwn yn sicrhau mwy o effeithiolrwydd drwy osgoi dyblygu a

filling. We will ensure that delivery is undertaken at the most appropriate level. Partnership will allow us to focus on issues and on problems rather than on agencies and institutions that may have the lead on a particular issue. We must blur the boundaries between agencies and sectors so that we can combine all our efforts to resolve the problems that face Wales. We are, after all, a small country and we need to bring together all the talents and perspectives if we are to be successful.

Our partners will also have an important role in helping the Regional Committees, speaking up on matters that affect the region and helping to build a confident and creative identity for each part of Wales. I have become more and more conscious of the need to emphasise this point. The partnerships and Regional Committees will be able to support each other in developing approaches to issues that affect different areas, and Members of the Assembly will be able to discuss this aspect in the debate on the role of the Regional Committees to which the Business Secretary referred earlier.

Having been born and brought up in north Wales, I know that there is deep-seated fear that north Wales will be left out. I am certain it will not happen in this Assembly. I have said on several occasions that we must achieve devolution from Whitehall and Westminster to Wales, not just devolution to Cardiff or to this Chamber. As far as north Wales is concerned, we have made a start—with Tom Middlehurst in the Cabinet, Alun Pugh as Whip and Ann Jones as Chair of the Labour Group. However, devolution needs the immediacy of contact on a regional basis to make it work and that is why the Regional Committees will be so important. Partnerships must start locally, progress to the regions of Wales and come together within the Assembly. It is our job to achieve that integration. The same applies in west Wales, the Valleys and the former slate communities. Wales must be bigger than the sum of its parts and we need to be bigger

chanfod y bylchau mewn darpariaeth y mae angen eu llenwi. Byddwn yn sicrhau yr ymglymerir â'r cyflenwi ar y lefel fwyaf priodol. Bydd partneriaeth yn caniatáu inni ganolbwyntio ar faterion ac ar broblemau yn hytrach nag ar asiantaethau a sefydliadau a allai fod â'r arweiniad ar fater penodol. Rhaid inni gymylu'r ffiniau rhwng asiantaethau a sectorau fel y gallwn gyfuno ein holl ymdrechion i ddatrys y problemau sy'n wynebu Cymru. Gwlad fach ydym, wedi'r cwbl, ac mae angen inni grynhof'r holl ddoniau a safbwyntiau os ydym i lwyddo.

Bydd rôl bwysig gan ein partneriaid hefyd wrth helpu'r Pwyllgorau Rhanbarthol, wrth godi llais ar faterion sy'n effeithio ar y rhanbarth a helpu i adeiladu hunaniaeth hyderus a chreadigol i bob rhan o Gymru. Yr wyf yn fwyfwy ymwybodol o'r angen i bwysleisio'r pwynt hwn. Bydd y partneriaethau a'r Pwyllgorau Rhanbarthol yn gallu cefnogi ei gilydd wrth ddatblygu dulliau gweithredu i ymdrin â materion sy'n effeithio ar wahanol ardaloedd, a bydd Aelodau'r Cynulliad yn gallu trafod yr agwedd hon yn y ddadl ar rôl y Pwyllgorau Rhanbarthol y cyfeiriodd y Trefnydd ati yn gynharach.

A minnau wedi fy ngeni a'm magu yng ngogledd Cymru, fe wn fod ofn dwfn y bydd gogledd Cymru yn cael ei anghofio. Yr wyf yn sicr na fydd hynny'n digwydd yn y Cynulliad hwn. Dywedais ar sawl achlysur fod rhaid inni sicrhau datganoli o Whitehall a San Steffan i Gymru, nid datganoli i Gaerdydd ac i'r Siambr hon yn unig. Gan gyfeirio at ogledd Cymru, yr ydym eisoes wedi cychwyn arni—gyda Tom Middlehurst yn y Cabinet, Alun Pugh fel Chwip ac Ann Jones yn Gadeirydd y Grŵp Llafur. Fodd bynnag, rhaid i ddatganoli fod â chysylltiad uniongyrchol ar sail ranbarthol er mwyn gweithio a dyna pam y bydd y Pwyllgorau Rhanbarthol mor bwysig. Rhaid i bartneriaethau ddechrau yn lleol, datblygu drwy ranbarthau Cymru a dod at ei gilydd o fewn y Cynulliad. Ein gwaith ni yw sicrhau'r integreiddio hwnnw. Mae'r un peth yn wir yng ngorllewin Cymru, y Cymoedd a chymunedau cyn-ardaloedd y chwareli llechi.

than the sum of the different sectors.

Rhaid i Gymru fod yn fwy na chyfanswm ei rhannau ac mae angen i ni fod yn fwy na chyfanswm y gwahanol sectorau.

Partnership is not a new concept. I am proud to have been part of the efforts to make partnership and co-operation a central theme for the Labour Party. The Government is committed to working in partnership. Considerable development work allows the Assembly to hit the ground running. These things do not just come out of thin air. In developing partnership we can build on things like the voluntary sector compact published in November. This debate gives the Assembly the opportunity to endorse such foundations and declare our intentions to build on them, embracing the principles behind them wholeheartedly. I am sure that the Members of every party in the Assembly will have no difficulty in doing this.

Nid cysyniad newydd mo partneriaeth. Yr wyf yn falch imi fod yn rhan o'r ymdrechion i wneud partneriaeth a chydweithrediad yn thema ganolog i'r Blaid Lafur. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth. Drwy'r gwaith datblygu sylweddol a wnaed mae'r Cynulliad yn gallu dechrau arni'n syth. Ni ddaw'r pethau hyn o ddim byd. Wrth ddatblygu partneriaeth gallwn adeiladu ar bethau fel y cytundeb â'r sector gwirfoddol a gyhoeddwyd yn Nhachwedd. Mae'r ddadl hon yn rhoi cyfle i'r Cynulliad gefnogi seiliau o'r fath a datgan ein bwriad i adeiladu arnynt, gan dderbyn yr egwyddorion sydd y tu ôl iddynt yn galonnog. Yr wyf yn sicr y gall yr Aelodau ym mhob plaid yn y Cynulliad wneud hynny yn rhwydd.

3:09 p.m

Having set out general points about why partnership working is essential to the Assembly, I will refer to how we shall do this and what we hope to achieve from it. We need to establish partnerships with local governments, the voluntary sector and business to assist in developing policy that is relevant to each sector. The partnership will have to be different for each sector to ensure that it is fit for the purpose. Those involved in a sector have a great advantage in assessing their sector's needs and problems, and how to develop policy relevant to them. There is knowledge among the Members in this Chamber that will help considerably in that process. We need to couple the knowledge within the sector with our responsibilities in the Assembly to develop priorities and a vision to create policies that add value in a useful and positive way. This is the Assembly's chance to bring added value to Wales. In leading the way in this approach we can encourage each sector to work with others, not just with us. This will ensure that people are working together, in the same direction, across Wales. This is a vital role for the Assembly and a good example of such preparation is the European

Ar ôl nodi pwyntiau cyffredinol ynghylch pam y mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i'r Cynulliad, byddaf yn cyfeirio at y modd y byddwn yn gwneud hyn a'r hyn y gobeithiwn ei gyflawni drwyddo. Mae angen inni sefydlu partneriaethau â llywodraethau lleol, y sector gwirfoddol a busnes er mwyn rhoi cymorth wrth ddatblygu polisi sydd yn berthnasol i bob sector. Bydd raid i'r bartneriaeth fod yn wahanol i bob sector er mwyn sicrhau ei bod yn ateb y diben. Mae mantais fawr gan y rhai sy'n gysylltiedig â sector wrth asesu anghenion a phroblemau eu sector, a sut i ddatblygu polisi sy'n berthnasol iddynt. Ceir gwybodaeth ymysg yr Aelodau yn y Siambr hon a fydd yn gymorth sylweddol yn y broses honno. Mae angen inni gysylltu'r wybodaeth o fewn y sector â'n cyfrifoldebau yn y Cynulliad er mwyn datblygu blaenoriaethau a gweledigaeth i greu polisiau sy'n ychwanegu gwerth mewn modd buddiol a chadarnhaol. Dyma gyfle'r Cynulliad i ddod â gwerth ychwanegol i Gymru. Wrth arwain y ffordd yn y dull gweithredu hwn gallwn annog pob sector i weithio gydag eraill, nid gyda ni yn unig. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl yn gweithio gyda'i gilydd, i'r un cyfeiriad, ar draws

taskforce. There are also other instances where different sectors have engaged together. On economy, this has become paramount.

On putting these values and principles into practice, work on developing the schemes and arrangements has gone on over many months. We have worked with the Wales Council for Voluntary Action, the Welsh Local Government Association and others to get the partnerships and schemes ready for the Assembly's arrival. Consultation recently closed on the framework for the way in which we work with business and we will soon report on that consultation process. Work on sustainable development, based on the conference held earlier in the year, will come forward before long. We will consider the membership of the Committee on Equality of Opportunity shortly. Today we take the first important step in progressing the values and principles of partnership through a debate on the Partnership Council.

The Partnership Council will be made up of representatives of the Assembly and local government. It will have a wide remit to give advice to the Assembly about matters affecting the exercise of any of its functions, to make recommendations to the Assembly about any matters affecting local government or of concern to it and to advise those involved in local government. The proposals are outlined in the document 'The Partnership Council: Preparing the Ground', and it sets out a view on the council as follows.

First, it must be an inclusive body on which all components of local government will be represented—unitary authorities, community councils, police, fire and national park authorities and the Assembly. The membership has been made up to allow each to be represented appropriately. However, it does not require balance of numbers or domination because it is a body that will bring together agreement and record

Cymru. Mae hon yn rôl hanfodol i'r Cynulliad ac un enghraifft dda o baratoadau o'r fath yw'r tasglu Ewropeaidd. Ceir achosion eraill lle y mae gwahanol sectorau wedi ymwneud â'i gilydd. Ar fater yr economi, fe ddaeth hyn yn hollbwysig.

O ran rhoi'r gwerthoedd a'r egwyddorion hyn ar waith, mae'r gwaith ar ddatblygu'r cynlluniau a'r trefniadau yn mynd rhagddo ers misoedd lawer. Yr ydym wedi gweithio gyda Chyngor Cymru dros Weithredu Gwirfoddol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill i baratoi'r partneriaethau a'r cynlluniau ar gyfer dyfodiad y Cynulliad. Mae'r ymgynghori ar y fframwaith i'r modd y byddwn yn gweithio gyda busnes wedi ei gwblhau'n ddiweddar a byddwn yn adrodd ar y broses ymgynghori honno cyn hir. Bydd y gwaith ar ddatblygu cynaliadwy, sy'n seiliedig ar y gynhadledd a gynhaliwyd yn gynharach eleni, yn dod o'n blaen cyn hir. Byddwn yn ystyried aelodaeth y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ymhen ychydig. Heddiw yr ydym yn cymryd y cam pwysig cyntaf wrth ddatblygu gwerthoedd ac egwyddorion partneriaeth drwy ddadl ar y Cyngor Partneriaeth.

Bydd y Cyngor Partneriaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cynulliad a llywodraeth leol. Bydd ganddo gylch gorchwyl eang i roi cyngor i'r Cynulliad am faterion sy'n effeithio ar arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, i gyflwyno argymhellion i'r Cynulliad ynghylch unrhyw faterion sy'n effeithio ar lywodraeth leol neu sydd o ddiddordeb iddi ac i gynghori'r rhai sy'n gysylltiedig â llywodraeth leol. Amlinellir y cynigion yn y ddogfen 'Y Cyngor Partneriaeth: Braenaru'r Tir', ac mae'n cyflwyno barn ar y cyngor fel a ganlyn.

Yn gyntaf, rhaid iddo fod yn gorff cynhwysol lle y cynrychiolir holl elfennau llywodraeth leol—awdurdodau unedol, cynghorau cymuned, awdurdodau'r heddlu, y gwasanaeth tân a'r parciau cenedlaethol a'r Cynulliad. Mae'r aelodaeth wedi ei chyfansoddi er mwyn caniatáu cynrychiolaeth briodol i bob un. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol cael cydbwysedd o ran niferoedd neu dra-arglwyddiaeth am ei

disagreement. It will not take votes in a party format.

Secondly, it must be a relatively small body to ensure meaningful and effective discussions but, at the same time, it must represent those different components. We suggest that the number of council members should be limited to 25: 10 from the National Assembly, 10 from the county and county borough councils and five from the other bodies—one each from the police, fire and national parks authorities and two representing the community and town councils. That proposal will ensure that all parts and organisations concerned with local government in Wales are represented.

Thirdly, in terms of structure, the Partnership Council will comprise the council, committees and task groups. There will be a finance working group, which will assume the functions of the Welsh Consultative Council on Local Government Finance and which will establish sub-groups. During the past seven months its operation has been productive and I believe that the Assembly will find it so.

Fourthly, it is envisaged that the Partnership Council will meet quarterly. The workhorses—task and finish groups—will meet more frequently as they will comprise elected members from local government and the Assembly who are not necessarily members of the Partnership Council and officials.

Finally, the Secretariat of the Partnership Group will be located in the Assembly and a local government official will be seconded or deputed from the Welsh Local Government Association to the Secretariat. It will be very much a partnership in the way in which it is supported.

On Assembly representation, just before this session it was pointed out that two words have slipped out of the paragraph in appendix 1 that refers to membership. Where

fod yn gorff a fydd yn creu cytundeb ac yn cofnodi anghytundeb. Ni fydd yn cymryd pleidleisiau ar ffurf bleidiol.

Yn ail, rhaid iddo fod yn gorff cymharol fach er mwyn sicrhau trafodaethau ystyrllon ac effeithiol ond, ar yr un pryd, rhaid iddo gynrychioli'r gwahanol elfennau hynny. Yr ydym yn awgrymu y dylid cyfyngu nifer aelodau'r cyngor i 25: 10 o'r Cynulliad Cenedlaethol, 10 o'r cyngorau sirol a'r cyngorau bwrdeistref sirol a phump o'r cyrff eraill—un bob un o awdurdodau'r heddlu, y gwasanaeth tân a'r parciau cenedlaethol a dau i gynrychioli'r cyngorau tref a chymuned. Bydd y cynnig hwnnw yn sicrhau bod pob rhan a phob cyfundrefn sy'n ymwneud â llywodraeth leol yng Nghymru wedi eu cynrychioli.

Yn drydydd, o ran strwythur, bydd y Cyngor Partneriaeth yn cynnwys y cyngor, y pwyllgorau a'r tasgluoedd. Bydd gweithgor cyllid, a fydd yn ymgymryd â swyddogaethau Cyngor Ymgynghorol Cymru ar Gyllid Llywodraeth Leol ac a fydd yn sefydlu is-grwpiau. Yn ystod y saith mis diwethaf mae ei waith wedi bod yn gynhyrchiol a chredaf y bydd y Cynulliad yn gweld bod hynny'n wir.

Yn bedwerydd, rhagwelir y bydd y Cyngor Partneriaeth yn cyfarfod yn chwarterol. Bydd y ceffylau gwaith—y grŵp gorchwyl a'r grŵp gorffen—yn cyfarfod yn amlach gan y byddant yn cynnwys aelodau etholedig o lywodraeth leol a'r Cynulliad nad ydynt o reidrwydd yn aelodau o'r Cyngor Partneriaeth ac yn swyddogion.

Yn olaf, bydd Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Partneriaeth wedi ei lleoli yn y Cynulliad a bydd swyddog mewn llywodraeth leol yn cael ei secondio neu ei ddirprwyo o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r Ysgrifenyddiaeth. Bydd yn bartneriaeth i raddau helaeth iawn yn y modd y caiff ei chynnal.

Ynglŷn â chynrychiolaeth y Cynulliad, ychydig cyn y sesiwn hwn fe dynnwyd sylw at y ffaith bod dau air wedi eu gollwng o'r paragraff yn atodiad 1 sy'n cyfeirio at

it refers to nominations of the Assembly being made by,

‘the First Secretary...together with one representative from each political group in the Assembly which is not represented in the Assembly Cabinet’,

the two words ‘at least’ have dropped out. It should read,

‘at least one representative from each political group in the Assembly’.

I would be grateful if we could act in the spirit of that amendment when the Business Committee comes to consider the representation. This is a consultation document and, following consultation, we will have an opportunity to return to it in the light of comments that are made.

There has already been considerable discussion with local government about the proposals for the Partnership Council and the Standing Orders. These are reflected in the papers that Assembly Members have before them. Although the proposals are likely to be acceptable to local government, the Government of Wales Act requires the Assembly—once it is in being—formally to consult local government on the membership and Standing Orders of the council. The consultation that has taken place up until now may have achieved agreement, but it does not count as the legal necessity of a consultation period. Therefore, we propose that there should be formal consultation for an eight-week period running into the summer, starting on 15 June and ending on 10 August. We will then report back to the Assembly on the result of this exercise and put final proposals for the organisation and membership of the council to the Assembly for approval as soon as possible after the summer recess. It is my intention that the first full meeting of the Partnership Council will be held as soon as possible thereafter. However, that would leave a gap. In order to ensure the smooth running of the contact between the Assembly and local government, I propose to hold an informal meeting between representatives of local government

aelodaeth. Lle y mae’n cyfeirio at wneud enwebiadau o’r Cynulliad gan,

‘y Prif Ysgrifennydd...ynghyd ag un cynrychiolydd o bob grŵp gwleidyddol yn y Cynulliad nad yw wedi ei gynrychioli yng Nghabinet y Cynulliad’,

mae’r ddau air ‘o leiaf’ wedi eu colli. Fe ddylai ddarllen,

‘o leiaf un cynrychiolydd o bob grŵp gwleidyddol yn y Cynulliad’.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallem weithredu yn unol ag ysbryd y newid hwnnw pan ddaw’r Pwyllgor Busnes i ystyried y gynrychiolaeth. Dogfen ymgynghorol yw hon ac, ar ôl ymgynghori, bydd cyfle gennym i ddod yn ôl ati yng ngoleuni’r sylwadau a roddir.

Bu cryn drafod eisoes gyda llywodraeth leol ar y cynigion ar gyfer y Cyngor Partneriaeth a’r Rheolau Sefydlog. Fe welir hynny yn y dogfennau sydd gan Aelodau’r Cynulliad o’u blaen. Er bod y cynigion yn debygol o fod yn dderbyniol i lywodraeth leol, mae’n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru i’r Cynulliad—wedi ei ffurfio—ymgynghori’n ffurfiol â llywodraeth leol ar aelodaeth a Rheolau Sefydlog y cyngor. Mae’n bosibl bod yr ymgynghori a ddigwyddodd hyd yn hyn wedi sicrhau cytundeb, ond nid yw’n cyflawni’r gofyniad cyfreithiol am gyfnod ymgynghori. Felly, yr ydym yn cynnig y dylid cael ymgynghoriad ffurfiol am gyfnod o wyth wythnos a fydd yn parhau i’r haf, gan ddechrau ar 15 Mehefin a gorffen ar 10 Awst. Wedyn byddwn yn adrodd yn ôl i’r Cynulliad ar ganlyniad yr ymarfer hwn ac yn rhoi cynigion terfynol ar gyfer trefniadaeth ac aelodaeth y cyngor i’r Cynulliad i’w cymeradwyo cyn gynted ag y bo modd ar ôl gwyliau’r haf. Y bwriad sydd gennyf yw y bydd cyfarfod llawn cyntaf y Cyngor Partneriaeth yn cael ei gynnal mor fuan ag y bo modd wedi hynny. Byddai hynny’n gadael bwlch, fodd bynnag. Er mwyn sicrhau y bydd y cysylltiad rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol yn rhedeg yn llyfn, yr wyf yn bwriadu cynnal cyfarfod anffurfiol rhwng cynrychiolwyr llywodraeth leol a’r

and the Assembly. Representatives will be appointed for that first informal meeting through the normal Assembly processes, and it will be held in early July. It will provide an opportunity to consider any views that local government wishes to express at that stage of the consultation exercise, identify major issues that the council will need to address and consider how the Partnership Council will tackle them. I envisage that the Assembly's representatives at that informal meeting will include representatives of all parties agreed through the usual channels, as will the council in due course.

I hope that all Assembly Members will join me in supporting the principles for partnership that I have set out today, and the Partnership Council proposals set out in the papers which, as I have indicated, follow considerable discussion with local government on a cross-party basis. They will provide a clear way forward for working with others. We need to establish this now so that there is a clear and simple message for Wales: the Assembly is ready and willing to work with all sectors to develop and implement policies for the good of Wales.

Sue Essex: I support the principles of partnership strongly and I speak on the Partnership Council as proposed. The nature of the working relationship that this Assembly gains with local government is one of the most critical that we have to face. The success of the Assembly will be judged on how we achieve that relationship, not just in terms of measurable outcomes, but also of public perception—the public trust in local government and the Assembly to deliver together. It is important that we, particularly those of us who worked for a Yes vote in the referendum and not so many weeks ago in the election, recognise and remember that there was a certain amount of public confusion and concern about the relative roles of local government and the Assembly. As Alun said, in many ways it was difficult to explain what this abstract body would do. Therefore, it is important that, at the end of four years, people have a clear understanding of our respective roles and a clear perception

Cynulliad. Fe benodir cynrychiolwyr ar gyfer y cyfarfod anffurfiol cyntaf hwnnw drwy brosesau arferol y Cynulliad, ac fe'i cynhelir yn fuan yng Ngorffennaf. Bydd yn rhoi cyfle i ystyried unrhyw safbwyntiau y bydd llywodraeth leol am eu mynegi yn y cyfnod hwnnw o'r ymarfer ymgynghori, i ddynodi materion o bwys y bydd angen i'r cyngor roi sylw iddynt ac i ystyried sut y bydd y Cyngor Partneriaeth yn ymdrin â hwy. Rhagwelaf y bydd cynrychiolwyr y Cynulliad yn y cyfarfod anffurfiol hwnnw yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl bleidiau a gytunir drwy'r sianeli arferol, fel y bydd y cyngor hefyd maes o law.

Gobeithiaf y bydd holl Aelodau'r Cynulliad yn ymuno â mi i gefnogi'r egwyddorion ar gyfer partneriaeth a nodais heddiw, a'r cynigion ynghylch y Cyngor Partneriaeth a ddangosir yn y dogfennau sydd, fel y nodais, yn ganlyniad i gryn drafod â llywodraeth leol ar draws y pleidiau. Byddant yn darparu ffordd glir ymlaen i weithio gydag eraill. Mae angen inni sefydlu hyn yn awr fel bod neges glir a syml i Gymru: mae'r Cynulliad yn barod ac yn awyddus i weithio gyda'r holl sectorau er mwyn datblygu a gweithredu polisiau er lles Cymru.

Sue Essex: Yr wyf yn cefnogi egwyddorion partneriaeth yn gryf ac yr wyf yn siarad o blaid y Cyngor Partneriaeth fel y'i cynigiwyd. Natur y berthynas waith y bydd y Cynulliad hwn yn ei sicrhau gyda llywodraeth leol yw un o'r rhai mwyaf hanfodol y bydd raid inni eu hwynebu. Bernir llwyddiant y Cynulliad yn ôl y modd y byddwn yn gwireddu'r berthynas honno, nid yn unig o ran canlyniadau mesuradwy, ond hefyd o ran gwelediad y cyhoedd—ymddiriedaeth y cyhoedd mewn llywodraeth leol ac yn y Cynulliad i lwyddo gyda'i gilydd. Mae'n bwysig ein bod ni, ac yn enwedig y rhai ohonom a weithiodd dros bleidlais Ie yn y refferendwm ac ychydig wythnosau'n ôl yn yr etholiad, yn cydnabod ac yn cofio bod rhywfaint o ddryswch a phryder ymysg y cyhoedd ynghylch y berthynas rhwng rolau llywodraeth leol a'r Cynulliad. Fel y dywedodd Alun, anodd ar lawer ystyr oedd egluro'r hyn y byddai'r corff haniaethol hwn yn ei gyflawni. Mae'n

that we are here, working together and giving the added value that we want to give. We are fortunate to be talking about partnership today in a very different political climate from that prior to May 1997. In those dark days it seemed like central Government and local government were in permanent battle, if not war. Thankfully, the political mood changed and, in Wales, we are inheriting a positive working relationship that has been established. This is due to the Welsh Local Government Association's good work and the Welsh Office's attitude which ensures more joint working, ensures that people understand colleagues' backgrounds and provides positive statements.

bwysig, felly, ymhen pedair blynedd, fod gan bobl ddealltwriaeth eglur o'n rolau priodol a gwelediad eglur ein bod yma, yn gweithio gyda'n gilydd ac yn rhoi'r gwerth ychwanegol yr ydym am ei roi. Yr ydym yn ffodus o gael siarad am bartneriaeth heddiw mewn hinsawdd wleidyddol wahanol iawn i'r hyn a oedd cyn Mai 1997. Yn y dyddiau du hynny, fe ymddangosai fod y Llywodraeth ganolog a llywodraeth leol mewn brwydr barhaus â'i gilydd, os nad rhyfel. Mae'r awyrgylch gwleidyddol wedi newid, diolch byth, ac yr ydym ni, yng Nghymru, yn etifeddu perthynas waith gadarnhaol a sefydlwyd. Mae hyn yn ganlyniad i waith da Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac agwedd y Swyddfa Gymreig sy'n sicrhau mwy o weithio ar y cyd, yn sicrhau bod pobl yn deall cefndir eu cyd-weithwyr ac yn rhoi datganiadau cadarnhaol.

3:19 p.m.

We should be grateful that the people who were responsible for drawing up the legislation for the National Assembly did so positively and creatively. The legislation requires us to put this partnership into practice. The style of the legislation, which is so right for Wales, provides a good political context for putting this partnership, and others, into operation. The Partnership Council exemplifies this because the relationship between us and local government is crucial to improving people's lives in Wales. The relationship with local government is intrinsic in everything we do in terms of health, education—a whole range of bread-and-butter issues. This relationship will not only be through the Partnership Council. I hope that we will have a good working relationship with local government through the Local Government, Environment, Planning, Housing and Transport Committee which I chair.

Dylem ddiolch bod y rhai oedd yn gyfrifol am lunio'r ddeddfwriaeth ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud hynny mewn modd mor gadarnhaol a chreadigol. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol inni roi'r bartneriaeth hon ar waith. Mae dull y ddeddfwriaeth, sydd mor addas i Gymru, yn darparu cyd-destun gwleidyddol da i weithredu'r bartneriaeth hon, ac eraill. Mae'r Cyngor Partneriaeth yn enghraifft o hyn oherwydd mae'r berthynas rhyngom ni a llywodraeth leol yn hollbwysig er mwyn gwella bywydau pobl yng Nghymru. Mae'r berthynas â llywodraeth leol yn rhan hanfodol o bopeth a wnawn o ran iechyd, addysg—amrediad llawn o faterion bywyd bob dydd. Nid yn unig drwy'r Cyngor Partneriaeth y ceir y berthynas hon. Yr wyf yn gobeithio y bydd gennym berthynas waith dda gyda llywodraeth leol drwy'r Pwyllgor Llywodraeth Leol, yr Amgylchedd, Cynllunio, Tai a Thrafnidiaeth yr wyf yn gadeirydd arno.

In endorsing this, all Assembly Members must recognise that we are equal partners with local government, not a supreme being. Many of us were local councillors in a former life—some still are—and local government is at the sharp end of delivering many of the aspects and policies that we will

Wrth gefnogi hyn, rhaid i holl Aelodau'r Cynulliad gydnabod ein bod yn bartneriaid cyfartal â llywodraeth leol, ac nid penarglwyddi. Yr oedd llawer ohonom yn gynghorwyr lleol mewn bywyd blaenorol—ac mae rhai ohonom yn dal i fod—ac mae llywodraeth leol yn y pen blaen wrth

introduce. We must value that and their ability to make an input into policy, and to help us and work with us. In endorsing the proposal, I hope that this will be one of the positive elements that the Welsh Assembly will bring into political life and I look forward to its fruition.

Janet Ryder: I wish to echo much of what has been said. We welcome the establishment of this Partnership Council. It is, perhaps, one of the crucial partnerships that the Assembly will form. Together with local government, the Assembly will have a major impact on the lives of people in Wales, and many of the policies that we develop will be delivered through local government. As has been said, people in local government have often been asked to implement policies but wondered whether their impact has been considered thoroughly. As the First Secretary said, I hope that we will use this as a sounding board to obtain feedback but I hope that it develops into more than that. It must develop into a partnership where we develop policies together and consider the implications of our measures, not just in policies but in budget. The confidence of the public in Wales has to be reborn in local government, and I hope that this partnership will be a major stepping stone in establishing that crucial confidence. We look forward to the results of the consultation and to the establishment of this partnership. Also, we would welcome this committee meeting outside Cardiff and in the regions, taking the Assembly closer to people in Wales.

Nick Bourne: I wish to raise an issue that concerns me although it has already been mentioned. On the membership of the Partnership Council, the First Secretary has addressed the fact that, mysteriously, two words were left out of the document. The words 'at least' are now included. Although the disposition of the committees was unfair to the Conservatives previously, the membership set out in this document would be unfair to all three minority parties. There

gyflenwi llawer o'r agweddau a'r polisiau y byddwn yn eu cyflwyno. Rhaid inni werthfawrogi hynny a'u gallu i roi mewnbwn i bolisi, ac i'n helpu ac i weithio gyda ni. Wrth gefnogi'r cynnig hwn, yr wyf yn gobeithio y bydd hyn yn un o'r elfennau cadarnhaol a gyfranna Cynulliad Cymru at y bywyd gwleidyddol ac edrychaf ymlaen at ei weld yn dwyn ffrwyth.

Janet Ryder: Dymunaf ategu llawer o'r hyn a ddywedwyd. Yr ydym yn croesawu sefydlu'r Cyngor Partneriaeth hwn. Hon, efallai, yw un o'r partneriaethau hollbwysig a ffurfir gan y Cynulliad. Ar y cyd â llywodraeth leol, fe gaiff y Cynulliad effaith o bwys ar fywydau pobl yng Nghymru, a bydd llawer o'r polisiau a ddatblygir gennym yn cael eu cyflenwi drwy lywodraeth leol. Fel y dywedwyd, bu gofyn yn aml i bobl mewn llywodraeth leol weithredu polisiau a hwythau'n amau a oedd eu heffaith wedi ei hystyried yn drwyadl. Fel y dywedodd y Prif Ysgrifennydd, yr wyf yn gobeithio y byddwn yn defnyddio hyn fel seinfwrdd i gael adborth ond gobeithio y bydd yn datblygu'n rhywbeth llawer mwy na hynny. Rhaid iddo ddatblygu'n bartneriaeth lle y byddwn yn datblygu polisiau gyda'n gilydd ac yn ystyried goblygiadau ein mesurau, nid yn unig o ran polisiau ond o ran cyllidebau. Rhaid ailennyn hyder pobl Cymru mewn llywodraeth leol, a gobeithio y bydd y bartneriaeth hon yn gam mawr ymlaen at sefydlu'r hyder hanfodol hwnnw. Edrychwn ymlaen at ganlyniadau'r ymgynghoriad ac at sefydlu'r bartneriaeth hon. Byddai'n dda gennym hefyd weld y pwyllgor hwn yn cyfarfod y tu allan i Gaerdydd ac yn y rhanbarthau, gan fynd â'r Cynulliad yn agosach at y bobl yng Nghymru.

Nick Bourne: Dymunaf godi mater sy'n peri pryder i mi, er ei fod wedi ei grybwyll eisoes. Ynglŷn ag aelodaeth y Cyngor Partneriaeth, mae'r Prif Ysgrifennydd wedi cyfeirio at y ffaith bod dau air, yn rhyfedd iawn, wedi eu hepgor o'r ddogfen. Mae'r geiriau 'o leiaf' wedi eu cynnwys bellach. Er bod trefniant y pwyllgorau cyn hyn yn annheg â'r Ceidwadwyr, fe fyddai'r aelodaeth a nodir yn y ddogfen hon yn annheg â phob un o'r tair plaid leiafrifol. Mae perygl y bydd saith

is a danger that there will be seven representatives of the Labour Party, which is a minority governing party, and only three representatives of the Conservatives, Plaid Cymru and the Liberal Democrats. That danger exists, even with your 'at least', if you read appendix 1 paragraph 1.

The First Secretary: I wish to assist on that misapprehension. The appendix refers to the maximum. In any circumstances there would have to be at least four representatives from parties not represented in the Cabinet. That would be the minimum—six contributions from the Cabinet is the maximum. The matter must be dealt with properly through the different parties. I accept that the membership must be fair.

Nick Bourne: I welcome that reassurance. If you look again at appendix 1 paragraph 1, it says that the Partnership Council

'shall comprise the First Secretary, such other members of the Assembly (not exceeding 6) as she/he nominates'.

That is seven plus one each from the minority parties to make ten. I accept that you do not want this, but that is what it says at the moment. This is unfair to all three minority parties. Therefore, I suggest that we look at the membership of committees again, particularly in light of the fact that paragraph 13 refers to a body of 25 people. The mention of a small body surprised me. If we included 15 representatives from the Assembly and 15 from local government, it would be possible to reflect the minority parties more effectively. That is the wish of the First Secretary.

Richard Edwards: I welcome this document on the Partnership Council. However, I wish to emphasise how crucial the concept of partnership will be for devolution in practice and, therefore, to the success of the Assembly. Partnership must be the driving motor of the new politics in Wales—a partnership of equals as Sue Essex says—in which the Assembly may formulate policy, but must consult, involve and listen to the

cynrychiolydd o'r Blaid Lafur, sydd yn blaid lywodraethol leiafrifol, a dim ond tri chynrychiolydd o'r Ceidwadwyr, Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Mae'r perygl hwnnw'n bodoli, hyd yn oed ar ôl cynnwys eich 'o leiaf', os darllenwch atodiad 1 paragraff 1.

Y Prif Ysgrifennydd: Hoffwn gynorthwyo ar fater y camsyniad yna. Mae'r atodiad yn cyfeirio at yr uchafswm. Mewn unrhyw amgylchiadau byddai'n rhaid cael o leiaf pedwar cynrychiolydd o blith pleidiau sydd heb gynrychiolaeth yn y Cabinet. Dyna fyddai'r lleiafswm—chwe chyfraniad gan y Cabinet yw'r uchafswm. Rhaid delio â'r mater yn briodol drwy'r gwahanol bleidiau. Derbyniaf fod rhaid i'r aelodaeth fod yn deg.

Nick Bourne: Mae'n dda gennyf gael y sicrwydd hwnnw. Os edrychwch ar atodiad 1 paragraff 1, mae'n dweud y bydd y Cyngor Partneriaeth

'yn cynnwys y Prif Ysgrifennydd, y cyfryw aelodau eraill o'r Cynulliad (heb fod yn fwy na 6) a enwebir ganddi/ganddo'.

Mae hynny'n saith ynghyd ag un o'r pleidiau lleiafrifol i wneud deg. Yr wyf yn derbyn nad oes arnoch eisiau hynny, ond dyna'r hyn y mae'n ei ddweud ar hyn o bryd. Mae hyn yn annheg â phob un o'r tair plaid leiafrifol. Felly, awgrymaf y dylem ailedrych ar aelodaeth y pwyllgorau, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith bod paragraff 13 yn cyfeirio at gorff o 25 o bobl. Yr oedd y sôn am gorff bychan yn syndod i mi. Pe baem yn cynnwys 15 cynrychiolydd o'r Cynulliad a 15 o lywodraeth leol, byddai modd adlewyrchu'r pleidiau lleiafrifol yn fwy effeithiol. Dyna yw dymuniad y Prif Ysgrifennydd.

Richard Edwards: Croesawaf y ddogfen hon ar y Cyngor Partneriaeth. Fodd bynnag, dymunaf bwysleisio mor hanfodol fydd y cysyniad o bartneriaeth i ddatganoli pan fydd ar waith ac, felly, i lwyddiant y Cynulliad. Rhaid i bartneriaeth fod yn beiriant i'r wleidyddiaeth newydd yng Nghymru—partneriaeth o rai cyfartal fel y dywed Sue Essex—lle y gall y Cynulliad lunio polisi, ond lle y mae'n rhaid iddo ymgynghori,

bodies charged with delivering services throughout the localities and communities of Wales. That means promoting the principle of subsidiarity as far as possible. We must bring decision making as close as possible to the people whom it directly affects, empower people and the communities in which they live and foster a civic pride in a sense of shared community values and of citizenship. That should be the Assembly's aspiration, and it can only be achieved through partnership and participation. For 18 dark years, community became a dirty word and society's very existence was denied. The idea of collective provision at a local level, commonly agreed for the good of all, was under constant attack. We now have devolution in Wales and, as the devolved body, it is our duty to democratise every nook and cranny of Welsh public life. That will be one hell of a task. We can do it only through partnership and the widest possible participation.

Christine Chapman: As a recent representative of local government from, perhaps, one of the most well known local authorities in Wales, I welcome these proposals for the swift establishment of the Partnership Council. This body will play a vital role in establishing the credibility of the Assembly with the wider body of people in Wales. We are charged with making Wales a better place to live and work, and this work can only be carried out effectively with the full support of all elected representatives in Welsh local government. We, in Wales, are creating a lead for others to follow by establishing this level of partnership working. It can lead only to further examples of this kind of political initiative in other parts of the United Kingdom before too long. In agreeing wholeheartedly with the contents and sentiments behind the principles for partnership documents, it is worth stating the kind of advantages and benefits that this type of unique partnership will elicit. It will be charged with being people-led, as it will develop strategic policy themes by addressing the needs of people in Wales rather than the needs of traditional decision-

cynnwys a gwranddo ar y cyrff y rhoddwyd iddynt y cyfrifoldeb o gyflenwi gwasanaethau drwy ardaloedd a chymunedau Cymru. Mae hynny'n golygu hyrwyddo egwyddor is-reolaeth i'r graddau mwyaf posibl. Rhaid inni ddod â'r broses penderfynu mor agos ag y bo modd at y bobl y mae'n effeithio arnynt yn uniongyrchol, galluogi pobl a'r cymunedau lle y maent yn byw a meithrin balchder dinesig drwy ymdeimlad o werthoedd cymunedol cyffredin ac o ddinasyddiaeth. Hynny a ddylai fod yn ddyhead i'r Cynulliad, ac ni ellir ei gyflawni ond drwy bartneriaeth a chyfranogi. Am 18 mlynedd du, daeth cymuned yn air budr a gwadwyd bodolaeth cymdeithas. Yr oedd y syniad o ddarpariaeth gyfunol ar lefel leol, wedi ei chytuno'n gyffredinol er lles pawb, dan ymosodiad o hyd. Bellach mae gennym ddatganoli yng Nghymru ac, fel y corff datganoledig, ein dyletswydd ni yw democrateiddio pob twll a chornel o fywyd cyhoeddus Cymru. Bydd hynny'n uffern o dasg. Ni allwn ei chyflawni ond drwy bartneriaeth a'r cyfranogiad ehangaf posibl.

Christine Chapman: Fel un a fu hyd yn ddiweddar yn gynrychiolydd llywodraeth leol ar y mwyaf adnabyddus, efallai, o'r awdurdodau lleol yng Nghymru, yr wyf yn croesawu'r cynigion hyn i sefydlu'r Cyngor Partneriaeth yn fuan. Bydd y corff hwn yn chwarae rhan hanfodol wrth sefydlu hygredd y Cynulliad ymysg y cyhoedd ehangach yng Nghymru. Mae cyfrifoldeb arnom i wneud Cymru'n lle gwell i byw ac i weithio, ac ni ellir cyflawni'r gwaith hwn yn effeithiol heb gefnogaeth lawn yr holl gynrychiolwyr etholedig mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Yr ydym ni, yng Nghymru, yn creu arweiniad i eraill ei ddilyn drwy sefydlu'r lefel hon o waith partneriaeth. Mae'n sicr o arwain at enghreifftiau pellach o'r math hwn o fenter wleidyddol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig cyn hir. Wrth gytuno'n galonnog â'r cynnwys a'r teimladau y tu ôl i'r egwyddorion ar gyfer y dogfennau partneriaeth, mae'n werth nodi'r math o fanteision ac enillion a geir drwy bartneriaeth unigryw o'r fath. Bydd cyfrifoldeb arni i gael ei harwain gan anghenion pobl, gan y bydd yn datblygu themâu polisi strategol drwy roi sylw i

makers, who sometimes get it wrong.

anghenion pobl yng Nghymru yn hytrach nag anghenion y llunwyr penderfyniadau traddodiadol, sydd weithiau'n methu.

3:29 p.m.

A great deal of co-operation has already taken place and it is to the credit of all those involved via the Welsh Local Government Association and the Welsh Office that we have a workable set of principles to debate today. Indeed, we can all agree that the result of recent collaboration including the successful bid for Objective 1 status, and the establishment of this Assembly, has been positive for Wales and those of us who live and work here.

Mae llawer o gydweithredu wedi digwydd eisoes ac mae'n glod i bawb a gymerodd ran drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Swyddfa Gymreig fod gennym set ymarferol o egwyddorion i'r trafod heddiw. Yn wir, gallwn oll gytuno bod canlyniad y cydweithredu diweddar gan gynnwys y cais llwyddiannus am statws Amcan 1, a sefydlu'r Cynulliad hwn, wedi bod yn rhywbeth cadarnhaol i Gymru ac i'r rhai ohonom sy'n byw ac yn gweithio yma.

The clearest way to consider this issue is to borrow a buzzword from local government—'best value'. The Partnership Council will add an element of this to the Assembly and to local government across Wales. Best value is important to the electorate. As Sue Essex has mentioned, we need only recall the low turnout in the election of Assembly Members and local authority members, to see that anything we do to raise the profile and credibility of both tiers of government in Wales should be firmly welcomed.

Y modd egluraf i ystyried y mater hwn yw drwy gymryd benthyg un o hoff eiriau llywodraeth leol—gwerth gorau. Bydd y Cyngor Partneriaeth yn ychwanegu elfen o hynny at y Cynulliad ac at lywodraeth leol ar draws Cymru. Mae 'gwerth gorau' yn bwysig i'r etholwyr. Fel y soniodd Sue Essex, nid oes ond rhaid inni gofio'r nifer isel a bleidleisiodd i ethol Aelodau'r Cynulliad ac aelodau awdurdodau lleol, i weld bod angen rhoi croeso pendant i unrhyw beth a wnawn i godi proffil a hygredded y ddwy haen o lywodraeth yng Nghymru.

As the WLGA indicated, it is important to give this body our full backing. The Council must be a proper partnership, not an 'us and them' relationship. We must ensure that the recommendations of Principles for Partnership are fulfilled so that this body can function in the best possible way. The framework for partnership document, agreed upon by the Welsh Office and the WLGA, states that this partnership should characterise—by a commitment to joint working consultation and exchange of information—all important elements that will ensure a flourishing partnership for the benefit of everyone in Wales. As the WLGA rightly points out, the new unitary authorities in Wales have had to endure the legacy of their predecessors and have been initiated by a baptism of fire—some would say that a few have had their fingers burned. We must try to create an environment that allows the best elements of local, regional and national

Fel y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi nodi, mae'n bwysig inni roi cefnogaeth lwyr i'r corff hwn. Rhaid i'r Cyngor fod yn bartneriaeth wirioneddol, nid yn berthynas 'ni a nhw'. Rhaid inni sicrhau y cyflawnir argymhellion yr Egwyddorion dros Bartneriaeth fel y gall y corff hwn weithredu yn y ffordd orau posibl. Mae'r ddogfen fframwaith ar gyfer partneriaeth, y cytunwyd arni gan y Swyddfa Gymreig a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn dweud y dylai'r bartneriaeth hon nodweddu—drwy ymrwymo i weithio ar y cyd, ymgynghori a chyfnwid gwybodaeth—yr holl elfennau pwysig a fydd yn sicrhau partneriaeth lewyrchus er budd pawb yng Nghymru. Fel y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn iawn i nodi, bu'n rhaid i'r awdurdodau unedol newydd yng Nghymru ddiodeff yr hyn a adawyd iddynt gan eu rhagflaenwyr ac maent wedi eu sefydlu drwy fedydd tân—fe ddywedai rhai eu bod wedi llosgi eu bysedd. Rhaid inni

democracy to flourish. We approach this task against the background of difficult financial decisions at local level and we must be prepared to make it work.

On Council membership, it is clear that the suggested composition is correct and encompasses all elements of local democracy from large authorities to town councils. It allows the consideration of the widest range of views. As the recommendation states, it is important that senior Members of the Assembly are nominated to the Council with representation from all parties, to ensure that the Council is seen to be non-partisan and authoritative. These Members will need to ensure close co-operation and inclusivity at all times, not only when the Council meets formally, as 'best value' will drive large parts of the body's work.

The Labour party will make every effort to ensure that partnership with local government is effective and reactive, but influential and proactive when required. I fully support the document, and I hope the Assembly agrees that the establishment of this Council will serve the people of Wales well. Decisions have been made at arm's length for too long. That culture must and will change through the creation of this ground-breaking Partnership Council.

Geraint Davies: Fel aelod o lywodraeth leol, yr wyf yn croesawu sefydlu'r bartneriaeth hon. Mae'r arian sydd yn cael ei wario gan lywodraeth leol yn ganran uchel iawn o'n cyllid ni. Mae llwyddiant y cynghorau a'r Cynulliad yn dibynnu ar bartneriaeth glòs. Heb berthynas glòs mae yna beryg o fod yn fath o 'piggy in the middle'.

Bydd llywodraeth leol a'r Llywodraeth ganolog yn ein beio am ddiffyg cyllid gan nad ydym yn gwario yn iawn. Felly, mae'n bwysig cael perthynas glòs er mwyn sicrhau bod hyn yn gweithio i Gymru.

We have many opportunities to work in

greu amgylchedd sy'n caniatáu ffyniant yr elfennau gorau mewn democratiaeth leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Yr ydym yn cychwyn ar y dasg hon yn erbyn cefndir o benderfyniadau ariannol anodd ar lefel leol a rhaid inni fod yn barod i'w gael ei weithio.

Ynglŷn ag aelodaeth y Cyngor, mae'n amlwg bod y cyfansoddiad a awgrymwyd yn gywir a'i fod yn cwmpasu pob elfen mewn democratiaeth leol o'r awdurdodau mawr at y cynghorau tref. Drwyddo gellir ystyried yr amrediad ehangaf o safbwyntiau. Fel y mae'r argymhelliad yn dweud, mae'n bwysig y caiff Aelodau hŷn y Cynulliad eu henwebu i'r Cyngor gyda chynrychiolaeth o bob plaid, er mwyn sicrhau y gwelir bod y Cyngor yn amhleidiol ac yn awdurdodol. Bydd raid i'r Aelodau hyn sicrhau cydweithrediad clòs a chynwysoldeb bob amser, nid yn unig pan fydd y Cyngor yn cyfarfod yn ffurfiol, oherwydd bydd 'gwerth gorau' yn gyrru rhannau helaeth o waith y corff.

Bydd y Blaid Lafur yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y bartneriaeth â llywodraeth leol yn effeithiol ac yn ymatebol, ac yn ddylanwadol ac yn rhagweithiol pan fo angen. Yr wyf yn llwyr gefnogi'r ddogfen, a hyderaf fod y Cynulliad yn cytuno y bydd sefydlu'r Cyngor hwn o fudd i bobl Cymru. Fe wnaed penderfyniadau o hyd braich yn rhy hir. Rhaid i'r diwylliant hwnnw newid ac fe ddigwydd hynny drwy greu'r Cyngor Partneriaeth arloesol hwn.

Geraint Davies: As a member of local government, I welcome the establishment of this partnership. Money spent by local government represents a very high percentage of our funding. The success of the councils and the Assembly depends on a close partnership. Without this close relationship there is a danger of becoming a type of 'piggy in the middle'.

Both local and central Government will blame us for lack of finance because we are not spending the money properly. A close relationship is important in order to ensure that this works for Wales.

Mae gennym lawer o gyfleoedd i weithio

partnership with local authorities on a wide range of subjects. We have a practical opportunity in the near future to make partnership work. In my constituency, we have a problem that is seen throughout Wales—landfill. We now have the opportunity to support a motion that we tabled for a public inquiry into the Nant-y-gwyddon landfill site.

David Davies: Point of order. In a debate one should keep to the subject in question, which is the Partnership Council. We have a limited amount of time and I would prefer to discuss that, rather than landfill in Wales.

The Presiding Officer: That is not a point of order.

Geraint Davies: This is an opportunity to show that we are prepared to work in partnership with a local authority on an issue that is of great concern to the members of that authority and the general public. It will make the Assembly appear relevant to the people of Wales. I hope we will take this lead—not just talk about it, but do something about it.

Lorraine Barrett: I welcome the First Secretary's statement on the Partnership Council. It is appropriate given that there are two days before elections, not only for Europe but also town and community councils. It is important to acknowledge the contribution of town and community councils to our communities, and I am delighted to see that they are included in the Partnership Council.

At this point, I welcome Councillor Ian Dewar, Mayor of Penarth, who is in the public gallery. You now have an interest in Penarth, Presiding Officer. Apart from wearing his town council hat, in an earlier life, Ian Dewar was Under Secretary at the Welsh Office. Sue Essex paid tribute to those who helped develop the legislation which allowed us to be in this Assembly and Ian Dewar was one of the main officials at the Welsh Office who developed the legislation for the original devolution plans. He is very

mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ar amrediad eang o bynciau. Cawn gyfle ymarferol yn y dyfodol agos i wneud i bartneriaeth weithio. Yn fy etholaeth i, mae gennym broblem a welir drwy Gymru—tirlenwi. Mae gennym gyfle yn awr i gefnogi cynnig a gyflwynwyd gennym ar gyfer ymchwiliad cyhoeddus i safle tirlenwi Nant-y-gwyddon.

David Davies: Mater o drefn. Mewn dadl fe ddylid cadw at y pwnc dan sylw, sef y Cyngor Partneriaeth. Mae'r amser sydd gennym yn gyfyngedig a byddai'n well gennyf drafod hynny, yn hytrach na thirlenwi yng Nghymru.

Y Llywydd: Nid mater o drefn yw hynny.

Geraint Davies: Mae hyn yn gyfle i ddangos ein parodrwydd i weithio mewn partneriaeth ag awdurdod lleol ar fater sydd yn peri pryder mawr i aelodau'r awdurdod hwnnw ac i'r cyhoedd. Bydd yn gwneud i'r Cynulliad ymddangos yn berthnasol i bobl Cymru. Gobeithio y byddwn yn derbyn yr arweiniad hwn—nid siarad yn ei gylch yn unig, ond gweithredu.

Lorraine Barrett: Yr wyf yn croesawu datganiad y Prif Ysgrifennydd ar y Cyngor Partneriaeth. Mae'n briodol o gofio bod dau ddiwrnod tan yr etholiadau, nid yn unig ar gyfer Ewrop ond hefyd ar gyfer y cynghorau tref a chymuned. Mae'n bwysig cydnabod cyfraniad cynghorau tref a chymuned at ein cymunedau, ac yr wyf wrth fy modd o weld eu bod wedi eu cynnwys yn y Cyngor Partneriaeth.

Yn y fan hyn, yr wyf yn estyn croeso i'r Cynghorydd Ian Dewar, Maer Penarth, sydd yn yr oriel gyhoeddus. Gwn fod gennych ddi-ddordeb ym Mhenarth, Lywydd. Ar wahân i wisgo het y cyngor tref, yr oedd Ian Dewar cyn hyn yn Is-ysgrifennydd yn y Swyddfa Gymreig. Talwyd teyrnged gan Sue Essex i'r rhai a helpodd i ddatblygu'r ddeddfwriaeth sy'n caniatáu inni fod yn y Cynulliad hwn ac yr oedd Ian Dewar yn un o'r prif swyddogion yn y Swyddfa Gymreig a ddatblygodd y ddeddfwriaeth ar gyfer y

proud to say that he played a prominent part in devolution. I welcome the involvement of the town and community councils and take this opportunity to remind people that when we talk about local government we should always include town and community councils.

Peter Black: I start by fulfilling a requirement of Standing Orders through declaring an interest as a member of the City and County of Swansea. I will talk about what I hope the Partnership Council can achieve for Wales. However, I start by raising a number of detailed matters on the paper before us.

Paragraph 1 of appendix 1 has been mentioned, and I note the amendment of two words added by the First Secretary that makes it read better. It is important that the appointment of Assembly Members to the Partnership Council is proportional to the relative strength of the parties. Paragraph 10 of appendix 1 sets out the criteria for when the Partnership Council should go into private session. Sub-paragraph VI is, in my view, particularly contentious and is the sort of catch-all provision that has been used before in Assembly documents to protect civil servants at the expense of openness and transparency. When this returns, we should use the criteria set out in the access to information legislation that applies to local government as a guide to when we should go into closed sessions. This works well for local government and it seems appropriate that it should be used in this instance.

3:39 p.m.

Paragraph 29 of appendix 1 talks about the Record of Proceedings being available to the public and this has been discussed in recent days. I hope that the agenda and the supporting papers will be available to the public at least three days in advance in the same way they are in local government. That is important if the new body is going to be a true Partnership Council that is open,

cynlluniau datganoli gwreiddiol. Mae'n falch iawn o ddweud ei fod wedi chwarae rhan flaenllaw mewn datganoli. Yr wyf yn croesawu cyfraniad y cynghorau tref a chymuned a chymeraf y cyfle hwn i atgoffa pobl y dylem bob amser wrth sôn am lywodraeth leol gynnwys y cynghorau tref a chymuned.

Peter Black: Dechreuaf drwy gyflawni un o ofynion y Rheolau Sefydlog drwy ddatgan budd fel aelod o Ddinas a Sir Abertawe. Byddaf yn siarad am yr hyn yr wyf yn gobeithio y gall y Cyngor Partneriaeth ei gyflawni dros Gymru. Fodd bynnag, dechreuaf drwy godi nifer o faterion manwl yn y ddogfen sydd o'n blaen.

Fe grybwyllwyd paragraff 1 yn atodiad 1, ac yr wyf yn nodi'r newid o ddau air a ychwanegwyd gan y Prif Ysgrifennydd sy'n gwneud iddo ddarllen yn well. Mae'n bwysig bod y nifer o Aelodau'r Cynulliad a benodir i'r Cyngor Partneriaeth yn gyfrannol â chryfder cymharol y pleidiau. Mae paragraff 10 yn atodiad 1 yn nodi'r meini prawf ynghylch pa bryd y dylai'r Cyngor Partneriaeth fynd i sesiwn caeedig. Mae is-baragraff VI yn arbennig o ddadleuol, yn fy marn i, ac yn enghraifft o'r math o ddarpariaeth hollgynhwysol a ddefnyddiwyd cyn hyn yn nogfennau'r Cynulliad i warchod gweision sifil ar draul bod yn agored ac yn dryloyw. Pan ddaw hwn yn ôl, fe ddylem ddefnyddio'r meini prawf a nodir yn y ddeddfwriaeth ar yr hawl i wybodaeth sy'n berthnasol i lywodraeth leol fel arweiniad ynghylch pa bryd y dylem fynd i sesiwn caeedig. Mae hyn yn gweithio'n dda i lywodraeth leol ac mae'n ymddangos yn briodol ei ddefnyddio yn yr achos hwn.

Mae paragraff 29 yn atodiad 1 yn crybwyll y bydd Cofnod o'r Trafodion ar gael i'r cyhoedd ac fe drafodwyd hynny yn ystod y dyddiau diwethaf. Gobeithiaf y bydd yr agenda a'r dogfennau ategol ar gael i'r cyhoedd o leiaf dri diwrnod ymlaen llaw yn yr un modd ag y maent mewn llywodraeth leol. Mae hynny'n bwysig os yw'r corff newydd i fod yn wir Gyngor Partneriaeth

accountable and transparent.

In its briefing notes, the Welsh Local Government Association rightly says that it will not accept the passive-reactive roles of a consultee. It also points out there is nothing comfortable or necessarily consensual about effective partnerships. We must ensure that this Partnership Council takes local government seriously and recognises that it has a democratic legitimacy in the same way that we do. For these reasons—although I accept what this document has to say about the fact that there will be no formal vote—we must be open to reviewing the partnership. There will be times when there is clear disagreement between both sides of this partnership, and there must be an effective way to record and resolve it. The Welsh Local Government Association concludes its briefing by saying that any assumption of pre-eminence or of a monopoly of wisdom by any partner will result in a collective failure. That must also be right. Both sides must recognise that we can learn from each other. We will have clear ideas about how local government must progress, just as local government will have ideas about what the Assembly must do for Wales.

If the new kind of politics envisaged when this Assembly was created is to be successful, inclusivity and partnership must be the cornerstones of our democracy. It is essential from our point of view that this partnership works not just in a mechanistic way, but in a way that improves local government and makes it more accessible, accountable and relevant. It must work to raise awareness of the problems that local government faces in delivering services, not least the reduction in resources at its disposal and the way limited resources are distributed.

There must also be a vision of where local government is going and that vision must address the democratic deficit that exists in local government. This deficit has been

sydd yn agored, yn atebol ac yn dryloyw.

Yn ei nodiadau briffio, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dweud yn iawn na fydd yn derbyn rolau goddefol-ymatebol yr un ymgynghoredig. Mae hefyd yn nodi nad oes dim sydd yn gysurus ac yn gydsyniol o reidrwydd ynghylch partneriaethau effeithiol. Rhaid inni sicrhau bod y Cyngor Partneriaeth yn cymryd llywodraeth leol o ddifrif ac yn cydnabod bod ganddi ddilysrwydd democrataidd i'r un graddau â ni. Am y rhesymau hyn—er fy mod yn derbyn yr hyn a ddywedir yn y ddogfen hon am y ffaith na fydd pleidlais ffurfiol—rhaid inni fod yn barod i adolygu'r bartneriaeth. Fe geir adegau pan fydd anghytuno amlwg rhwng dwy ochr y bartneriaeth hon, a rhaid cael dull effeithiol i'w gofnodi a'i ddatrys. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gorffen ei nodiadau briffio drwy ddweud y bydd unrhyw ragdybiaeth gan unrhyw bartner am oruchafiaeth neu fonopoli ar ddoethineb yn arwain at gydfethiant. Mae hynny hefyd yn sicr o fod yn wir. Rhaid i'r ddwy ochr gydnabod y gallwn ddysgu oddi wrth ein gilydd. Bydd gennym syniadau pendant ynghylch sut y bydd raid i lywodraeth leol ddatblygu, yn yr un modd ag y bydd gan lywodraeth leol syniadau am yr hyn y mae'n rhaid i'r Cynulliad ei gyflawni dros Gymru.

Os yw'r math newydd o wleidyddiaeth a oedd mewn golwg pan grewyd y Cynulliad hwn i lwyddo, rhaid i gynwysoldeb a phartneriaeth fod yn gonglfeini i'n democratiaeth. Mae'n hollbwysig o'n safbwynt ni i'r bartneriaeth hon weithio mewn modd sy'n amgenach na mecanwaith, ac mewn modd sy'n gwella llywodraeth leol ac yn ei gwneud yn fwy hygyrch, atebol a pherthnasol. Rhaid iddi weithio i godi ymwybyddiaeth ynghylch y problemau a wynebir gan lywodraeth leol wrth gyflenwi gwasanaethau, ac un o'r mwyaf o'r rhain yw'r gostyngiad yn yr adnoddau sydd wrth law a'r modd y dyrennir adnoddau prin.

Rhaid hefyd wrth weledigaeth o'r cyfeiriad y mae llywodraeth leol yn mynd iddo a rhaid i'r weledigaeth honno roi sylw i'r diffyg democrataidd a geir mewn llywodraeth leol.

recognised in Scotland where the Labour–Liberal Democrat coalition has agreed to introduce proportional representation for local government elections, so that outcomes reflect votes and that people will know that they will be making a difference. Low turnouts in local government elections are a concern for this Assembly. It indicates that councils are not touching people’s lives in a way that motivates them to go out and vote. It shows that people do not believe that their vote will change anything. I hope that the Partnership Council will address that issue.

It is easy to talk of the problems that plague the credibility of local government in Wales in recent years. Councils such as Blaenau Gwent, Anglesey and the Vale of Glamorgan have all hit the headlines. For far too long, many councils have been run by a small elite who have lost touch with their electorate as a habit and have been blinkered by years of custom and practice. Although setting up standards committees is essential, I do not believe that the Government’s other solutions—such as elected mayors in cabinet—are the best way forward. That should be explored in the Partnership Council. How do we ensure that local government includes all councillors in its decision making process? How do we ensure that they overcome the obsession with leadership, and ensure councils are transparent, accountable and inclusive?

It is a sad reflection of our democracy that people are often motivated to get involved by bad decisions and from a feeling of alienation. That must not be the way it happens in Wales anymore. The Partnership Council must spread good practice and innovation. It must ensure that limited resources are more equitably distributed, encourage greater consultation on how councils spend our money, and promote a greater culture of participation and empowerment. It must ensure that the toughest ethical standards are set in government at all levels, and that the best

Mae’r diffyg hwn wedi ei gydnabod yn yr Alban lle y mae’r glymblaid rhwng Llafur a’r Democratiaid Rhyddfrydol wedi cytuno i gyflwyno cynrychiolaeth gyfrannol i etholiadau llywodraeth leol, fel bod y canlyniadau’n adlewyrchu nifer y pleidleisiau a’r bobl yn gwybod y byddant yn gwneud gwahaniaeth. Mae’r nifer isel sy’n pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yn destun pryder i’r Cynulliad hwn. Mae’n dangos nad yw cynghorau’n cyffwrdd â bywydau pobl mewn modd sy’n eu cymell i fynd allan i bleidleisio. Mae’n dangos nad yw pobl yn credu y bydd eu pleidlais yn newid dim. Gobeithio y bydd y Cyngor Partneriaeth yn rhoi sylw i’r mater hwn.

Hawdd yw siarad am y problemau sy’n plagio hygredded llywodraeth leol yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf hyn. Mae cynghorau fel Blaenau Gwent, Ynys Môn a Bro Morgannwg wedi taro’r penawdau. Am gyfnod rhy hir o lawer, mae llawer o gynghorau wedi eu rhedeg fel mater o arfer gan *élite* bychan a gollodd gysylltiad â’u hetholwyr ac a ddallwyd gan flynyddoedd o ddilyn arferion. Er bod sefydlu pwyllgorau ar safonau yn hollbwysig, ni chredaf fod atebion eraill y Llywodraeth—fel meiri etholedig mewn cabinet—yn cynnig y ffordd orau ymlaen. Dylid ymchwilio i hyn yn y Cyngor Partneriaeth. Sut y gallwn sicrhau bod llywodraeth leol yn cynnwys yr holl gynghorwyr yn ei phroses penderfynu? Sut y gallwn sicrhau eu bod yn trechu’r obsesiwn ag arweinyddiaeth, a sicrhau bod cynghorau’n dryloyw, yn atebol ac yn gynhwysol?

Mae’n adlewyrchu’n wael ar ein democratiaeth fod pobl yn aml yn cael eu cymell i gymryd rhan oherwydd penderfyniadau gwael ac ymdeimlad o ymddieithrio. Rhaid i bethau ddigwydd yn wahanol yng Nghymru o hyn ymlaen. Rhaid i’r Cyngor Partneriaeth ledaenu ymarfer da ac arloesi. Rhaid iddo sicrhau bod adnoddau prin yn cael eu dyrannu’n decach, ac annog mwy o ymgynghori ynghylch y modd y bydd cynghorau’n gwario ein harian, a hyrwyddo diwylliant ehangach o gyfranogi a galluogi. Rhaid iddo sicrhau bod y safonau moesol cadarnaf wedi eu gosod mewn llywodraeth ar

value delivers real improvement in services.

bob lefel, a bod gwerth gorau yn dod â gwelliant gwirioneddol mewn gwasanaethau.

For all the advances that have been made in recent years, to many people local councils are still remote and inaccessible. There is a feeling among the electorate of powerlessness and that their vote is valueless. In this era of partnership, we can work with local government to pick our way through the maze of problems, financial details, service delivery issues and mutual suspicions, and start to tackle that feeling head on. I believe that this Partnership Council will succeed.

Er gwaethaf yr holl gynnydd a gafwyd yn y blynyddoedd diwethaf hyn, mae cynghorau lleol yng ngolwg llawer o bobl yn parhau i fod yn bell ac yn anhygyrch. Ceir ymdeimlad ymysg yr etholwyr o ddiffyg grym a bod eu pleidlais yn ddi-werth. Oes partneriaeth yw hon, gallwn weithio gyda llywodraeth leol i ganfod ein ffordd drwy'r ddrysa o broblemau, manylion ariannol, materion cyflenwi gwasanaethau ac amheuan o'n gilydd, a dechrau mynd i'r afael â'r ymdeimlad hwnnw. Credaf y bydd y Cyngor Partneriaeth hwn yn llwyddo.

Janet Davies: Like all Members, I welcome the ideas in this paper. However, there is a gap between putting such sentiments on paper and delivering them in practice. We cannot overstate the importance of realising the principles of partnership and working together for the people of Wales. A great deal of government in Wales is delivered locally. The yah-boo of Westminster politics fades in comparison with the yah-boo politics between central Government and local government in Wales. The culture of each level of government blaming the other for lack of leadership, poor services or rising council taxes, is not good for Wales. It leads to distrust of local government and to demoralisation. This must change but it is a huge challenge. Discussions and decisions must be open and transparent. Very few things must happen behind closed doors. We must try to bring decisions out into the open to increase understanding of how local government spends its money.

Janet Davies: Fel pawb o'r Aelodau, yr wyf yn croesawu'r syniadau yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, mae bwch rhwng nodi teimladau o'r fath ar bapur a'u cyflwyno'n ymarferol. Ni allwn orbwysleisio pwysigrwydd gwireddu egwyddorion partneriaeth a gweithio gyda'n gilydd dros bobl Cymru. Cyflenwir llawer iawn o lywodraeth yng Nghymru yn lleol. Nid yw'r galw enwau sy'n digwydd yng ngwleidyddiaeth San Steffan yn ddim wrth ymyl y wleidyddiaeth galw enwau rhwng Llywodraeth ganol a llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r diwylliant lle y mae pob lefel o lywodraeth yn beio'r llall am ddiffyg arweinyddiaeth, gwasanaethau gwael neu gynnydd mewn trethi cyngor, yn ddrwg i Gymru. Mae'n arwain at ddiffyg ymddiriedaeth mewn llywodraeth leol ac at ddigalonni. Rhaid i hyn newid ond mae'n sialens anferth. Rhaid i drafodaethau a phenderfyniadau fod yn agored ac yn dryloyw gydag ychydig iawn o bethau yn digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig. Rhaid inni geisio dod â'r penderfyniadau i'r golwg er mwyn cynyddu dealltwriaeth ynghylch sut y mae llywodraeth leol yn gwario ei harian.

I draw your attention to the issue of community councils that was raised by Lorraine. I hope the Partnership Council will be able to consider consulting community councils more effectively and regularly than happens in certain areas at present. Both sides must work together to achieve good leadership, effectiveness, efficiency and

Tynnaf eich sylw at fater y cynghorau cymuned a godwyd gan Lorraine. Yr wyf yn gobeithio y bydd y Cyngor Partneriaeth yn gallu ystyried ymgynghori â chynghorau cymuned yn fwy effeithiol a rheolaidd nag sydd yn digwydd mewn rhai ardaloedd ar hyn o bryd. Rhaid i'r ddwy ochr gydweithio i sicrhau arweinyddiaeth dda, effeithiolrwydd,

responsiveness. Partnership within the Assembly, as well as between the Assembly and the two levels of local government, is essential.

William Graham: We offer a more guarded welcome to the statement on this side of the Chamber. We wish the Partnership Council to be more meaningful and informative. We know that it does not have a budget or any particular powers. On the matter of the cost of the council, we are already fearful of the high cost of the Regional Committees, and there will obviously be conflict in the budget with providing adequate support to this proposed Council. It is intended not just to be another committee. Very often in local government we prefer less intrusion from central Government. I welcome much of the statement and it has particular reference to the councils named earlier, perhaps also in terms of best value. There is an indication in the report to the possibility of having the main part of the committee meeting annually rather than quarterly.

Will the First Secretary give a clear and unequivocal statement that it does not mean that there will be a reduction in local government in Wales?

3:49 p.m.

Carwyn Jones: As others have done so, I should declare an interest as a member of Bridgend County Borough Council. The Partnership Council is perhaps the most important of all the committees and councils that have been set up, because local government has unrivalled access to the Assembly for the first time. Before the devolution referendum, many councillors thought that there would be a loss of local government influence when the Assembly was established. The establishment of the Partnership Council proves that that is not the case. Local government will have far more access to the Assembly than previous Secretaries of State had to Westminster.

The Partnership Council also shows the Assembly's commitment to consultation. Unfortunately, in the 1980s and early 1990s,

effeithlonrwydd ac ymatebolrwydd. Mae partneriaeth o fewn y Cynulliad, a hefyd rhwng y Cynulliad a'r ddwy haen o lywodraeth leol, yn hanfodol.

William Graham: Mae'r croeso i'r datganiad ar yr ochr hon i'r Siambr yn fwy gofalus. Yr ydym yn dymuno i'r Cyngor Partneriaeth fod yn fwy ystyrlon a llawn gwybodaeth. Fe wyddom nad oes ganddo gyllideb nac unrhyw bwerau arbennig. Ar fater cost y cyngor, yr ydym eisoes yn bryderus ynghylch cost uchel y Pwyllgorau Rhanbarthol, ac mae'n amlwg y bydd gwrthdaro yn y gyllideb rhwng hynny a darparu cymorth digonol i'r Cyngor arfaethedig hwn. Mae bwriad iddo fod yn amgenach na phwyllgor. Yn aml iawn mewn llywodraeth leol mae'n well gennym gael llai o ymyrryd o Lywodraeth ganol. Yr wyf yn croesawu llawer o'r datganiad ac mae'n arbennig o berthnasol i'r cynghorau a enwyd yn gynharach, efallai hefyd o ran gwerth gorau. Fe gyfeirir yn yr adroddiad at y posibilïad o gynnal prif ran y pwyllgor yn flynyddol yn hytrach nag yn chwarterol.

A yw'r Prif Ysgrifennydd yn fodlon rhoi datganiad eglur a diamwys na fydd yn golygu gostyngiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru?

Carwyn Jones: Gan fod eraill wedi gwneud hynny, fe ddylwn ddatgan budd fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Y Cyngor Partneriaeth o bosibl yw'r pwysicaf o'r holl bwyllgorau a chynghorau a sefydlwyd, oherwydd mae gan lywodraeth leol fynediad diguro i'r Cynulliad am y tro cyntaf. Cyn y refferendwm ar ddatganoli, yr oedd llawer o gynghorwyr yn credu y byddai lleihad yn nylanwad llywodraeth leol wedi i'r Cynulliad gael ei sefydlu. Mae sefydlu'r Cyngor Partneriaeth yn profi nad yw hyn yn wir. Bydd gan lywodraeth leol lawer mwy o fynediad i'r Cynulliad nag yr oedd gan Ysgrifenyddion Gwladol blaenorol yn San Steffan.

Mae'r Cyngor Partneriaeth hefyd yn dangos ymrwymiad y Cynulliad i ymgynghori. Gwaetha'r modd, yn y 1980au a'r 1990au

the concept of sovereignty of Parliament meant a monopoly of wisdom—without any consultation with local government. Throughout the 1980s and early 1990s, year after year, local councils were not provided with enough money to run their services. As a result, they had to raise the council tax for the capping level, while being accused of inefficiency. I noticed this for two or three years when I was elected as a councillor. Other colleagues, some of whom had been there since before I was born had done so for 15 or 20 years. It was soul destroying.

The Partnership Council will ensure that voice of local government is heard in the Assembly. We must remember that the cost of the Partnership Council has been mentioned. A previous Secretary of State underspent the Welsh budget by £100 million. I will not name him; he is well known. Bridgend County Borough Council could have used that money to great effect. There was no greater waste of Welsh taxpayers' money than underspending the Welsh budget in this way.

Yr wyf yn falch fod yna rôl yn y Cyngor hwn i'r awdurdodau tân a heddlu. Er y byddant yn cael eu rheoli gan y Swyddfa Gartref, mae'n bwysig eu bod yn ymwybodol o safbwynt y Cynulliad a'n bod ninnau yn deall eu safbwyntiau hwy.

Croesawaf hefyd y rôl a roddwyd i gynghorau cymunedol—cynghorau yr anghofwyd amdanynt dros y blynyddoedd. Mae rhai cynghorau yn cael trafferth i lenwi seddi. Mewn eraill, mae cystadleuaeth fywiog i gael seddi, yn enwedig ar y cynghorau tref. Mae'n bwysig fod pobl yn gwybod fod y Cynulliad yn gwrando ar y cynghorau, yn enwedig y rhai sy'n cynrychioli cymunedau lleol. Gall pobl siarad â'r cynghorau hyn a gallant hwythau siarad ar ran eu cymunedau. Rhaid cofio bod gan gynghorau cymunedol y pŵer i wneud hyn. Gallant sôn wrth y Cynulliad beth yw anghenion y bobl yn eu hardaloedd ei hunain yn well nag y gall cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor sirol. Nhw yw gwreiddiau pobl

cynnar, yr oedd y cysyniad o sofraniaeth y Senedd yn golygu monopoli ar ddoethineb—heb unrhyw ymgynghori â llywodraeth leol. Drwy'r 1980au a'r 1990au cynnar, flwyddyn ar ôl blwyddyn, nid oedd y cynghorau lleol yn derbyn digon o arian i redeg eu gwasanaethau. O ganlyniad i hynny, bu'n rhaid iddynt godi treth y cyngor yn uwch na'r lefel capio, a chael eu cyhuddo o fod yn aneffeithlon. Sylwais ar hyn dros ddwy neu dair blynedd pan gefais fy ethol yn gynghorydd. Yr oedd cyd-aelodau eraill, rai ohonynt wedi bod yno cyn imi gael fy ngeni, wedi sylwi ar hyn dros 15 i 20 mlynedd. Yr oedd yn sefyllfa ddigalon iawn.

Bydd y Cyngor Partneriaeth yn sicrhau y clywir llais llywodraeth leol yn y Cynulliad. Rhaid inni gofio bod cost y Cyngor Partneriaeth wedi ei chrybwyll. Yr oedd un o gyn-Ysgrifenyddion Cymru wedi tanwario cyllideb Cymru o £100 miliwn. Nid wyf am ei enwi; mae'n adnabyddus iawn. Byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi gallu defnyddio'r arian hwnnw yn fuddiol iawn. Ni fu erioed fwy o wastraffu ar arian trethdalwyr Cymru na drwy danwario cyllideb Cymru fel hynny.

I am glad there is a role in this Council for the fire and police authorities. Although they will be controlled by the Home Office, it is important that they are aware of the Assembly's viewpoint, and that we understand their points of view.

I also welcome the role given to the community councils—councils that have been forgotten over the years. In some community councils they have difficulty filling seats. In others, particularly in town councils, there is lively competition for seats. It is important that people know that the Assembly listens to the councils, particularly those representing local communities. People can talk to those councils and they can speak on behalf of their communities. We must remember that the community councils have the power to do this. They can inform the Assembly of the needs of people in their own areas—better than a county borough council or a county council. They are at the grass roots of Welsh

Cymru. Trwy'r Cyngor Partneriaeth, gwelir nad yw partneriaeth yn syniad haniaethol ond yn rhywbeth yr ydym am ei weithredu yn y Cynulliad.

We can consult with local government, county borough councils and community councils. Through this document, we can show the people of Wales that we are capable of putting good concepts into practice as well as producing them.

David Davies: I echo the First Secretary's comments on the importance of working well with local government. He and many of his colleagues spoke of the importance of supporting this motion and, considering the general principle, I am minded to do that. It would have been helpful if this 16-page document was available to us earlier. Many of us visited our constituencies on Friday and at the weekend and we did not have time to properly examine this. Like many of the Members, I am concerned about the proportionality on committees. There is no justification for a committee that simply becomes a rubber stamp for Labour policies and constitutes yes-men from the Cabinet and the Labour Party. While we are minded as a group to support this motion in principle, we reserve the right to withdraw if the cost becomes too much and if proportionality is not adhered to.

The Presiding Officer: I call on Peter Law to respond, then I will ask for the motion to be put to the First Secretary so that we can vote on it.

Peter Law: Dyma'r tro cyntaf i mi siarad yn y Siambr, felly llongyfarchiadau a phob llwyddiant i chi yn eich gwaith pwysig ar ran pobl Cymru.

I am pleased to have the opportunity to wind up this debate on partnership and the Partnership Council. I would like to pay tribute to the Welsh Local Government Association and the hundreds of town and community councils who voluntarily worked hard for the Welsh people. Their valued contribution is important.

people. Through the Partnership Council, we see that partnership is not an abstract concept but something that we intend to practice in the Assembly.

Gallwn ymgynghori â llywodraeth leol, y cynghorau bwrdeistref sirol a'r cynghorau cymuned. Drwy'r ddogfen hon, gallwn ddangos i bobl Cymru ein bod yn gallu rhoi cysyniadau da ar waith yn ogystal â'u cynhyrchu.

David Davies: Atefaf sylwadau'r Prif Ysgrifennydd ar bwysigrwydd gweithio'n dda gyda llywodraeth leol. Mae ef a llawer o'i gyd-aelodau wedi sôn am bwysigrwydd cefnogi'r cynnig hwn ac, wrth ystyried yr egwyddor gyffredinol, yr wyf yn dueddol o wneud hynny. Buasai o gymorth pe bai'r ddogfen 16-tudalen hon ar gael i ni'n gynharach. Aeth llawer ohonom i'n hetholaethau ddydd Gwener ac ar y penwythnos ac nid oedd gennym amser i'w hystyried yn briodol. Fel llawer o'r Aelodau, yr wyf yn bryderus ynghylch cyfranoldeb ar bwyllgorau. Nid oes cyfiawnhad dros bwyllgor a fydd ond yn amenio polisïau Llafur ac yn cynnwys gweision bach o'r Cabinet a'r Blaid Lafur. Er ein bod fel grŵp yn bleidiol i gefnogi'r cynnig hwn mewn egwyddor, fe gadwn yr hawl i dynnu hynny'n ôl os bydd y gost yn ormodol ac os na chedwir at gyfranoldeb.

Y Llywydd: Galwaf ar Peter Law i ymateb, wedyn byddaf yn gofyn i'r Prif Ysgrifennydd roi'r cynnig gerbron fel y gallwn bleidleisio arno.

Peter Law: This is the first time I have spoken in the Chamber, therefore congratulations and every success to you in your important work on behalf of the Welsh people.

Yr wyf yn falch o gael y cyfle i ddirwyn y ddadl hon ar bartneriaeth a'r Cyngor Partneriaeth i ben. Hoffwn dalu teyrnged i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r cannoedd o gynghorau tref a chymuned a weithiodd yn galed o'u gwirfodd i bobl Cymru. Mae eu cyfraniad gwerthfawr yn un pwysig.

The First Secretary agreed that the matter of Assembly representation should be referred to the Business Committee. One of the fundamental goals of the Assembly will be to work in partnership with all sectors in Wales to develop and implement policies. The partnership proposals are inherent in the Government of Wales Act 1998 and we will ensure that they become the common practice of the Assembly, its agencies and all other sectors in Wales.

Our success in countering the problems that Wales faces demands a partnership—joint working is more than rhetoric, as Sue Essex mentioned in her contribution. Our success will be judged partly on the outcome of the partnership. I appreciate Sue Essex's positive statement as Chair of the Environment Committee. She welcomed co-operation with local government. Close collaboration between the Assembly and other sectors is essential in a small country like Wales. Joint working will put an element of realism into the Assembly's plans and policies, especially in the priorities and budget setting process. It will provide valuable feedback on the operation and effectiveness of the Assembly's policies and agencies. Local government, the voluntary and business sectors will be first to know about what is happening on the ground and more importantly, how matters can be improved. Joint working will ensure a co-ordinated approach resulting in greater focus and concentration of resources. It can also lead to greater efficiency and effectiveness by eliminating duplication of effort, the unhelpful competition between institutions and agencies that has too frequently characterised the public sector in Wales.

I repeat the First Secretary's view that policy must be focused on problems and issues not on agencies and institutions or on who leads on a particular issue. We should all consider ourselves part of Team Wales—aspiring to be the A Team. Partnership will not be easy; it involves compromise and collaboration. This could involve a change in ways of

Fe gytunodd y Prif Ysgrifennydd y dylid cyfeirio mater cynrychiolaeth y Cynulliad i'r Pwyllgor Busnes. Un o nodau sylfaenol y Cynulliad fydd gweithio mewn partneriaeth â'r holl sectorau yng Nghymru er mwyn datblygu a gweithredu polisiau. Mae'r cynigion ar bartneriaeth yn rhan hanfodol o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a byddwn yn sicrhau eu bod yn dod yn ymarfer cyffredinol yn y Cynulliad, ei asiantaethau a'r holl sectorau eraill yng Nghymru.

Rhaid inni wrth bartneriaeth i wrthweithio'r problemau sy'n wynebu Cymru—mae gweithio ar y cyd yn fwy na rhyngwlad, fel y dywedodd Sue Essex yn ei chyfraniad. Bernir ein llwyddiant yn rhannol yn ôl canlyniad y bartneriaeth. Yr wyf yn gwerthfawrogi datganiad cadarnhaol Sue Essex fel Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd. Yr oedd yn croesawu'r cydweithredu â llywodraeth leol. Mae cydweithio clôs rhwng y Cynulliad a sectorau eraill yn hanfodol mewn gwlad fach fel Cymru. Bydd gweithio ar y cyd yn rhoi elfen o realaeth yng nghynlluniau a pholisiau'r Cynulliad, yn enwedig yn y blaenoriaethau a'r broses pennu cyllidebau. Bydd yn darparu adborth gwerthfawr ar weithrediad ac effeithiolrwydd polisiau ac asiantaethau'r Cynulliad. Llywodraeth leol, y sector gwirfoddol a'r sector busnes fydd y cyntaf i wybod am yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad ac yn bwysicach, sut y gellir gwella pethau. Bydd gweithio ar y cyd yn sicrhau dull gweithredu cydlynol gan arwain at fwy o ganolbwyntio a chrynhoi ar adnoddau. Fe all hefyd arwain at fwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd drwy ddileu'r dyblygu ar waith, y cystadlu di-fudd rhwng sefydliadau ac asiantaethau sydd wedi nodweddu'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn rhy aml.

Ategap farn y Prif Ysgrifennydd bod rhaid canolbwyntio polisi ar broblemau a materion ac nid ar asiantaethau a sefydliadau neu pwy sy'n arwain ar fater arbennig. Dylem oll ein hystyried ein hunain yn rhan o Dîm Cymru—gan anelu at fod yn Dîm A. Ni fydd partneriaeth yn hawdd; mae'n golygu cyfaddawd a chydweithredu. Gallai hynny

working between sectors. There must be more sharing of information, personnel and the development of new skills, not least the ability to listen to others and to consider the wider interests. We are building on work already completed—the voluntary sector compact published last November. We are preparing schemes that will govern relationships between the voluntary sector, business and local government. I hope we will consult on the draft local government scheme in the autumn, and it will be an early item for discussion by the Partnership Council.

3:59 p.m.

We have an opportunity to develop the most dynamic relationship between Government and local government that Wales has ever seen. This Partnership Council is one manifestation of the Assembly's intention to work closely with local government by giving local government a significant and ongoing input into the Assembly's policy making. We hope that it will result in better and more effective decision making by local government and the Assembly.

As Christine Chapman said, it is important that the Partnership Council works, and we all want it to work. It should put concepts into practice, as Carwyn Jones said in his speech. Therefore, Janet Ryder is right to say that we will seek through local government the opportunity to deliver our policies. That is the way forward, in the interest of all the people of Wales.

This body is innovative in the context of central-local relations in the UK for a number of reasons. Local government and the Assembly will have a closer and more direct relationship than has ever existed in government in Wales or elsewhere. It also brings together all parts of local government in one forum. Previous meetings have been between different components.

It provides a dedicated secretariat to progress

olygu newid dulliau gweithio rhwng sectorau. Rhaid wrth fwy o rannu gwybodaeth, personél a datblygu medrau newydd, ac ymysg y pwysicaf o'r rhain fydd y gallu i wrando ar eraill ac ystyried buddiannau ehangach. Yr ydym yn adeiladu ar waith a gwblhawyd eisoes—y cytundeb â'r sector gwirfoddol a gyhoeddwyd fis Tachwedd diwethaf. Yr ydym yn paratoi cynlluniau a fydd yn rheoli'r cysylltiadau rhwng y sector gwirfoddol, busnes a llywodraeth leol. Yr wyf yn gobeithio y byddwn yn ymgynghori ar ddrafft y cynllun i lywodraeth leol yn yr hydref, a bydd yn eitem i'w thrafod yn fuan gan y Cyngor Partneriaeth.

Mae gennym gyfle i ddatblygu'r berthynas fwyaf egnïol rhwng Llywodraeth a llywodraeth leol a welodd Cymru erioed. Mae'r Cyngor Partneriaeth hwn yn un amlygiad o fwriad y Cynulliad i weithio'n agos gyda llywodraeth leol drwy roi mewnbwn sylweddol a pharhaus i lywodraeth leol yng ngwaith llunio polisiau'r Cynulliad. Yr ydym yn gobeithio y bydd hyn yn arwain at lunio penderfyniadau yn well ac yn fwy effeithlon gan lywodraeth leol a'r Cynulliad.

Fel y dywedodd Christine Chapman, mae'n bwysig bod y Cyngor Partneriaeth yn gweithio, ac mae pawb ohonom am iddo weithio. Fe ddylai roi cysyniadau ar waith, fel y dywedodd Carwyn Jones yn ei araith. Mae Janet Ryder yn gywir, felly, i ddweud y byddwn yn ceisio cyfle drwy lywodraeth leol i gyflawni ein polisiau. Dyna'r ffordd ymlaen, er budd holl bobl Cymru.

Mae'r corff hwn yn un arloesol yng nghydestun cysylltiadau canolog-lleol yn y DU am nifer o resymau. Bydd gan lywodraeth leol a'r Cynulliad berthynas agosach a mwy uniongyrchol nag y bu erioed o'r blaen mewn llywodraeth yng Nghymru neu mewn mannau eraill. Mae hefyd yn dod â phob rhan o lywodraeth leol at ei gilydd mewn un fforwm. Bu'r cyfarfodydd blaenorol rhwng gwahanol elfennau.

Mae'n darparu ysgrifenyddiaeth un pwrpas i

the council's work, and it will also involve other elected members and officials from local government and the Assembly in its work. The Council provides an integrated framework for discussions between the Assembly and local government, facilitating the tracking of different aspects of the relationship, and the priority to be accorded to it.

Much will be expected of the Partnership Council, especially in terms of modernising the governance of Wales, and in sharing ideas, perspectives and priorities. Its effectiveness will depend on the extent to which it can improve the existing high level of co-operation between central Government and local government, the quality of decisions and the efficiency of the services. The proposals in the paper are not new to local government, because we have already consulted their associations on these proposals. We are however, formally required to consult local government on the proposals, standing orders and membership of the Partnership Council and to seek nominations from them.

The proposals for the Council will be an important item on the agenda of the informal meetings, which we intend to hold with local government in early July. The principles of the Partnership Council proposals represent a major step forward in the development of a new approach to government in Wales, and the discharge of the statutory requirements placed on us by the Government of Wales Act. I commend them to this Assembly, and I ask you to approve this document with the exception of Assembly representation, which will be referred to the Business Committee.

The First Secretary: I move that the document be approved subject only to further consideration by the Business Committee of Assembly representation on the Partnership Council, in the light of the discussion that has been taken place.

*A vote was held by show of hands.
Motion adopted.*

ddatblygu gwaith y Cyngor, a bydd hefyd yn cynnwys aelodau etholedig a swyddogion eraill o lywodraeth leol a'r Cynulliad yn ei waith. Mae'r Cyngor yn darparu fframwaith integreiddiedig ar gyfer trafodaethau rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol, fel y gellir cadw golwg ar wahanol agweddau ar y bartneriaeth, a'r flaenoriaeth a roddir iddynt.

Fe ddisgwylir llawer oddi wrth y Cyngor Partneriaeth, yn enwedig o ran moderneiddio trefn llywodraeth Cymru, ac o ran rhannu syniadau, safbwyntiau a blaenoriaethau. Bydd ei effeithiolrwydd yn dibynnu ar y graddau y gall wella'r lefel uchel bresennol o gydweithio rhwng Llywodraeth ganol a llywodraeth leol, ansawdd y penderfyniadau ac effeithlonrwydd y gwasanaethau. Nid yw'r cynigion sydd yn y ddogfen yn rhai newydd i lywodraeth leol, oherwydd yr ydym eisoes wedi ymgynghori â'u cymdeithasau ar y cynigion hyn. Fodd bynnag, mae gofyniad ffurfiol arnom i ymgynghori â llywodraeth leol ar y cynigion, y rheolau sefydlog ac aelodaeth y Cyngor Partneriaeth ac i ofyn am enwebiadau ganddynt.

Bydd y cynigion ar gyfer y Cyngor yn eitem bwysig ar agenda'r cyfarfodydd anffurfiol y bwriadwn eu cynnal gyda llywodraeth leol yn gynnar yng Ngorffennaf. Mae egwyddorion y cynigion ar gyfer Cyngor Partneriaeth yn gam mawr tuag at ddatblygu dull newydd o ymdrin â llywodraeth yng Nghymru, ac at gyflawni'r gofynion statudol sydd arnom o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru. Yr wyf yn eu cyflwyno i'r Cynulliad hwn, a gofynnaf ichi gymeradwyo'r ddogfen hon heblaw am gynrychiolaeth y Cynulliad, a gyfeirir at y Pwyllgor Busnes.

Y Prif Ysgrifennydd: Cynigiaf y dylid cymeradwyo'r ddogfen yn amodol yn unig ar ystyriaeth bellach gan y Pwyllgor Busnes o gynrychiolaeth y Cynulliad ar y Cyngor Partneriaeth, yng ngoleuni'r drafodaeth a ddigwyddodd.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig.*

The Presiding Officer: Lynne Neagle has been successful in the ballot for the Assembly's first short debate, and she has tabled a motion on the interesting topic of a strong Welsh voice in Europe.

I remind Members that this debate is between the Member successful in the ballot and the First Secretary who will reply on behalf of the Government of Wales. Other Members can be admitted to the debate only by leave of the Assembly Secretary or Lynne Neagle.

Y Llywydd: Mae Lynne Neagle wedi bod yn llwyddiannus yn y bleidlais ar gyfer dadl fer gyntaf y Cynulliad, ac mae wedi cyflwyno cynnig ar y pwnc diddorol o lais cryf i Gymru yn Ewrop.

Yr wyf yn atgoffa'r Aelodau bod y ddadl hon yn un rhwng yr Aelod a lwyddodd yn y bleidlais a'r Prif Ysgrifennydd a fydd yn ateb ar ran Llywodraeth Cymru. Ni ellir derbyn Aelodau eraill i'r ddadl ond drwy ganiatâd Ysgrifennydd y Cynulliad neu Lynne Neagle.

Dadl Fer Short Debate

Llais Cryf i Gymru yn Ewrop A Strong Welsh Voice in Europe

Lynne Neagle: I am pleased to participate in the first short debate of the National Assembly, especially as it is on the important topic of our relationship in the European Union. A month on from our election as Members of the Assembly, we face elections that will further shape our destiny in Europe, and our role in the world. Thursday is an opportunity for the UK and Wales to continue the new partnership in Europe that began two years ago. It is a partnership that is outward looking, that welcomes and embraces our role within the European Union and recognises that we can get the most from it only by engagement with our partners in the European Union.

We live in an increasingly globalised world, from terrorism to drug trafficking, from environmental problems to organised crime. This is a world where small nations cannot exist in isolation. The need for close co-operation with our neighbours is more relevant now than ever, with the future of Wales locked firmly into the future of Europe. Meeting these challenges will depend not only on our work in this Assembly, but on how we forge relationships with Westminster as well as Brussels.

Lynne Neagle: Yr wyf yn falch o gymryd rhan yn y ddadl fer gyntaf yn y Cynulliad Cenedlaethol, yn enwedig am ei bod ar bwnc pwysig ein perthynas yn yr Undeb Ewropeaidd. Fis ar ôl ein hethol yn Aelodau o'r Cynulliad, yr ydym yn wynebu etholiadau a fydd yn ffurfio ymhellach ein tynged yn Ewrop, a'n rôl yn y byd. Mae dydd Iau yn gyfle i'r DU a Chymru barhau â'r bartneriaeth newydd yn Ewrop a ddechreuodd ddwy flynedd yn ôl. Mae'n bartneriaeth sydd yn edrych tuag allan, sy'n croesawu ac yn cofleidio ein rôl o fewn yr Undeb Ewropeaidd ac yn cydnabod y gallwn sicrhau'r fantais fwyaf ohono ond drwy ymwneud â'n partneriaid yn yr Undeb Ewropeaidd.

Yr ydym yn byw mewn byd sy'n fwyfwy integreiddiedig, rhwng terfysgaeth a masnachu cyffuriau, rhwng problemau amgylcheddol a throseddau cyfundrefnol. Byd yw hwn lle nad oes modd i genhedloedd bychain fod yn ynysig. Mae'r angen am gydweithredu agos â'n cymdogion yn fwy perthnasol yn awr nag y bu erioed, a dyfodol Cymru ynghlwm wrth ddyfodol Ewrop. Bydd y gallu i ymateb i'r sialensau hyn yn dibynnu nid yn unig ar ein gwaith yn y Cynulliad hwn, ond ar y modd y byddwn yn ffurfio cysylltiadau â San Steffan yn ogystal â Brwsel.

Within this Chamber, there are clear and competing visions for Europe. There is a vision that wants us to distance ourselves from Europe, to pull back and to retreat into the narrow nationalism of a little England, or even a little Wales. In contrast, there is another form of nationalism in Wales. It wants us to be an independent nation within a united states of Europe, leaving us with a diminished voice, and unable to fight the corners of the people we represent.

The alternative vision, if realised, would not throw Britain and Wales into Europe at all costs. It is one that believes that we are stronger in Europe as part of the United Kingdom that articulates the needs of Wales. Only by having the voice of Wales heard as part of one of our leading member states of the European Union can we begin to reap the benefits of our membership. Labour's vision is of a Europe that is a full player on the world's economic and political stages. It is a Europe that embraces the need to reform itself and to make itself more accountable and relevant to the people it serves.

Jobs and economic growth must be at the top of the agenda of this new Europe, but only through solutions that meet the needs of our regional and global environment. Wales has to remain part of a strong and fully engaged UK to be part of this vision. The new Assembly's priority should not be to fight for unrealistic committee titles, and positions in Europe, but to be a powerful and persuasive voice in the development of British policy. Never again will Wales be forgotten or ignored in negotiations with Europe. Our voice will be heard as loudly that of others in the formulation of UK positions in Europe.

Our voice will be strong only if we are engaged with Europe. As an institution and as a people we will lose out if we retreat or if we decide to stand alone. Enlargement means that more countries will join the EU, all with

O fewn y Siambr hon, fe geir gweledigaethau eglur a chystadleuol ar gyfer Ewrop. Ceir gweledigaeth sydd am inni ymbellhau oddi wrth Ewrop, i dynnu'n ôl a chilio i genedlaetholdeb cul Lloegr fach, neu hyd yn oed Cymru fach. Ar y llaw arall, fe geir ffurf arall o genedlaetholdeb yng Nghymru. Mae am inni fod yn genedl annibynnol o fewn unol daleithiau Ewrop, gan ein gadael â llais gwannach, a heb y gallu i sefyll dros y bobl yr ydym yn eu cynrychioli.

Mae'r weledigaeth amgenach, os gwireddir hi, yn un na fyddai'n taflu Prydain a Chymru i Ewrop beth bynnag fo'r gost. Mae'n un sy'n credu ein bod yn gryfach yn Ewrop fel rhan o'r Deyrnas Unedig sy'n mynegi anghenion Cymru. Dim ond drwy gael gwrandawriad i lais Cymru fel rhan o un o'n prif aelod wladwriaethau yn yr Undeb Ewropeaidd y gallwn elwa ar ein haelodaeth. Gweledigaeth Llafur yw un lle y mae Ewrop yn gyfrannwr llawn ar lwyfannau economaidd a gwleidyddol y byd. Mae'n Ewrop sy'n croesawu'r angen i'w diwygio ei hun a'i gwneud ei hun yn fwy atebol a pherthnasol i'r bobl y mae'n eu gwasanaethu.

Rhaid i swyddi a chynnydd economaidd fod ar ben agenda'r Ewrop newydd hon, ond dim ond drwy atebion sy'n cyflawni anghenion ein hamgylchedd rhanbarthol a byd-eang. Rhaid i Gymru aros yn rhan o Deyrnas Unedig gref a chwbl ymrwymedig er mwyn bod yn rhan o'r weledigaeth hon. Ni ddylai fod yn flaenoriaeth gan y Cynulliad newydd i ymladd dros deitlau pwyllgor afrealistig, a safbwyntiau yn Ewrop, ond yn hytrach i fod yn llais pwerus a pherswadiol wrth ddatblygu polisi Prydain.

Ni chaiff Cymru ei hanghofio na'i hanwybyddu fyth eto mewn trafodaethau gydag Ewrop. Fe glywir ein llais cyn uchod ag eraill wrth lunio safbwyntiau'r DU yn Ewrop.

Ni fydd gennym lais cryf oni bai ein bod wedi ymrwymo i Ewrop. Byddwn ar ein colled fel sefydliad ac fel pobl os ciliwn neu os penderfynwn sefyll ar ein pennau ein hunain. Mae ehangu yn golygu y bydd

competing claims on Brussels. Wales will lose out if this Assembly goes down the path of either retreat or isolation. If we choose the road that puts Wales at the heart of the UK and the EU negotiation processes, we will have our voice heard and our needs met. The Assembly must have a presence within the permanent UK representation in Brussels, and not through building a Welsh embassy—the cost of which would be money diverted from vital public services for no tangible gain to the people of Wales. This is the strength—

[*Interruption.*]

The Presiding Officer: Lynne Neagle is not giving way.

Lynne Neagle: This is the strength of the devolution that the Labour Government has created. It is devolution that gives us the benefits of having a strong voice in the UK and through this, a real influence in Europe.

Several Members *rose*—

The Presiding Officer: Order. I cannot take points of order in the course of this short debate. I shall take them at the end.

Lynne Neagle: The dark days of 1980s and early 1990s saw our traditional industries destroyed and unemployment soar—

Several Members *rose*—

Lynne Neagle: I am not giving way during my speech so you might as well sit down.

Dafydd Wigley: On a point of order, can we move that Lynne Neagle is not heard?

The Presiding Officer: According to our Standing Orders, I do not think we can, nor should we do that.

Lynne Neagle: Thank you. The dark days of the 1980s and the early 1990s led to the

rhagor o wledydd yn ymuno â'r UE, bob un â'i galwadau gwahanol ar Frwsel. Bydd Cymru ar ei cholled os bydd y Cynulliad hwn yn dilyn llwybr encilio neu arwahanu. Os dewiswn y ffordd sy'n rhoi Cymru yng nghanol prosesau trafod y DU a'r UE, fe glywir ein llais ac fe gyflawnir ein hanghenion. Rhaid i'r Cynulliad gael presenoldeb o fewn cynrychiolaeth barhaol y DU ym Mrwsel, ac nid drwy godi llysgenhadaeth Gymreig—y byddai'r arian ar ei chyfer yn cael ei ailgyfeirio o wasanaethau cyhoeddus hanfodol heb unrhyw fantais bendant i bobl Cymru. Dyma yw cryfder—

[*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Nid yw Lynne Neagle yn ildio.

Lynne Neagle: Dyma yw cryfder y datganoli a grewyd gan y Llywodraeth Lafur. Mae'n ddatganoli sydd yn rhoi inni'r manteision o gael llais cryf yn y DU a drwy hynny, dylanwad gwirioneddol yn Ewrop.

Sawl Aelod *a gododd*—

Y Llywydd: Trefn. Ni allaf dderbyn materion o drefn yn ystod y ddatl fer hon. Fe'u derbyniaf ar y diwedd.

Lynne Neagle: Yn nyddiau du'r 1980au a'r 1990au cynnar gwelwyd dinistrio ein diwydiannau traddodiadol a diweithdra'n codi i'r entrychion—

Sawl Aelod *a gododd*—

Lynne Neagle: Nid wyf am ildio yn ystod fy araith felly cystal ichi eistedd.

Dafydd Wigley: Ar fater o drefn, a allwn gynnig na wrandewir Lynne Neagle?

Y Llywydd: Yn ôl ein Rheolau Sefydlog, ni chredaf y gallwn, nac y dylem, wneud hynny.

Lynne Neagle: Diolch. O ganlyniad i ddyddiau du'r 1980au a'r 1990au cynnar fe

destruction of our communities and the denial of opportunities for our young people. The jobs that remained were often part time, insecure and low paid.

[*Plaid Cymru Members left the Chamber.*]

This was the Tory legacy to Wales. Through the EU we have begun to create sustainable, well-paid and secure jobs—

[*Interruption*]

The Presiding Officer: Order.

4:09 p.m.

Lynne Neagle: From 1997, European funding programmes will help create 21,000 jobs in Wales. This includes a £12 million investment to help redevelop former steel manufacturing areas in the south and north-east of Wales.

[*Conservative Members left the Chamber.*]

From 1994, £17 million has been set aside by the EU to rebuild former coalfield areas in Wales. These jobs will not be low paid or low skilled. Thanks to the work of the Government and MEPs in the Group of the Party of European Socialists in the European Parliament, employees in Wales are now entitled to the same level of protection as their European colleagues: a 48-hour maximum working week, three weeks' paid holiday entitlement and pensions, holiday and sickness benefit for part-time workers. Also, let us not forget that every job created in Wales will be covered by the new national minimum wage.

The recently-secured Objective 1 status means that we can begin to create even more high quality jobs, closing the prosperity gap between Wales and the rest of the UK. During 18 years, the Conservatives never sought Objective 1; Plaid Cymru claimed that it could not be won. The Prime Minister and the Labour Government, working with our Welsh MEPs, secured Objective 1 and its once-in-a-lifetime opportunity for west

ddinistriwyd ein cymunedau a gwrthodwyd rhoi cyfleoedd i'n pobl ifanc. Yr oedd llawer o'r swyddi oedd yn weddill yn rhai rhan-amser, anniogel ac isel eu cyflogau.

[*Aeth Aelodau Plaid Cymru o'r Siambr.*]

Dyna oedd cymynrodd y Toriaid i Gymru. Drwy'r UE yr ydym wedi dechrau creu swyddi cynaliadwy, diogel sy'n talu'n dda—

[*Torri ar draws*]

Y Llywydd: Trefn.

Lynne Neagle: Oddi ar 1997, bydd rhaglenni cyllido Ewrop yn helpu i greu 21,000 o swyddi yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad o £12 miliwn i helpu i ailddatblygu cyn-ardaloedd cynhyrchu dur yn ne a gogledd-ddwyrain Cymru.

[*Aeth Aelodau Ceidwadol o'r Siambr.*]

Oddi ar 1994, mae £17 miliwn wedi ei neilltuo gan yr UE i adfer cyn-ardaloedd glofaol yng Nghymru. Nid swyddi â chyflogau isel neu fedrau isel fydd y rhain. Diolch i waith y Llywodraeth a'r Aelodau o Senedd Ewrop yng Ngrŵp Plaid y Sosialwyr Ewropeaidd yn Senedd Ewrop, mae gan weithwyr yng Nghymru hawl i'r un lefel o ddiogelwch â'u cyd-weithwyr Ewropeaidd: wythnos waith hwyaf o 48-awr, hawl i dair wythnos o wyliau â thâl a phensiynau, gwyliau a budd-dal salwch i weithwyr rhan-amser. Hefyd, gadewch inni beidio ag anghofio y bydd pob swydd a greir yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r cyflog lleiaf cenedlaethol newydd.

Mae'r statws Amcan 1 a sicrhawyd yn ddiweddar yn golygu y gallwn ddechrau creu hyd yn oed fwy o swyddi o ansawdd uchel, gan gau'r bwlch mewn ffyniant rhwng Cymru a gweddill y DU. Yn ystod 18 mlynedd, ni cheisiodd y Ceidwadwyr ennill statws Amcan 1 erioed; honnodd Plaid Plaid na ellid ei ennill. Mae'r Prif Weinidog a'r Llywodraeth Lafur, drwy weithio gyda'n Haelodau o Gymru yn Senedd Ewrop, wedi

Wales and the Valleys.

Our role as the Members of the first National Assembly for Wales is crucial. If we secure the benefits that Ireland and Merseyside have seen from Objective 1, we will secure the confidence of the Welsh people. If we fail to deliver real and positive changes through Objective 1, the Assembly's credibility is at risk. Jobs, training and life-long learning opportunities must be delivered for the Valleys and west Wales. Objective 1 funding will not fall into our laps just because we know that we need it. To draw down the money, Assembly Members, local authorities, voluntary organisations and businesses must work in partnership, think strategically and offer the Commission innovative bids on how to put the money to the best possible use. The exclusion of people from education, employment, or the skills and technology the modern age demands, weakens the economy to which they cannot contribute, and the society in which we live. This means that using the money secured for Wales, despite the doubts and derision of some in this Chamber—although many of them have now left—is essential to our economic, educational and social futures.

Economic development must not, however, be at the expense of the environment. The European Union has led the way in preserving the environment across the continent and in the UK. The benefits to the Welsh people and environment can be seen in our 13 blue flag beaches, clean drinking water and clean air. In my constituency of Torfaen, the European Union regulated some of the most dangerous pollutants imported into the Rechem incinerator in Pontypool. Through the European Union we have seen massive investment in the local environment in many other areas. This includes £3.1 million for coastal protection in Towyn, Denbighshire, £600,000 for a countryside enhancement project in the Snowdonia National Park and the designation of 500,000 hectares in Wales as environmentally sensitive areas, ensuring the preservation of

sicrhau Amcan 1 a'i gyfle unwaith-mewn-oes i orllewin Cymru a'r Cymoedd.

Mae ein rôl fel Aelodau Cynulliad Cenedlaethol cyntaf Cymru yn hanfodol. Os enillwn y manteision a welodd Iwerddon a Glannau Mersi o ganlyniad i Amcan 1, fe enillwn ymddiriedaeth pobl Cymru. Os methwn â chyflawni newidiadau gwirioneddol a chadarnhaol drwy Amcan 1, bydd hygredd y Cynulliad yn y fantol. Rhaid dod â swyddi, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu ar hyd oes i'r Cymoedd a gorllewin Cymru. Ni fydd arian Amcan 1 yn dod inni dim ond am ein bod yn gwybod bod arnom ei angen. Er mwyn estyn am yr arian, bydd raid i Aelodau'r Cynulliad, awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol a busnesau weithio mewn partneriaeth, meddwl yn strategol a chyflwyno cynigion arloesol i'r Comisiwn ynghylch y modd gorau i ddefnyddio'r arian. Mae cau pobl allan o addysg, cyflogaeth, neu'r medrau a'r dechnoleg y mae'r oes fodern yn eu gofyn, yn gwanhau'r economi na allant gyfrannu ato, a'r gymdeithas lle'r ydym yn byw. Mae hyn yn golygu bod defnyddio'r arian a sicrhawyd i Gymru, er gwaethaf yr amheuan a dirmyg rhai yn y Siambr hon—er bod llawer ohonynt wedi ymadael bellach—yn hanfodol i ddyfodol economaidd, addysgol a chymdeithasol pawb.

Fodd bynnag, ni chaiff datblygu economaidd ddigwydd ar draul yr amgylchedd. Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi arwain y ffordd wrth gadw'r amgylchedd ar draws y cyfandir ac yn y DU. Gellir gweld y manteision i bobl Cymru ac i'r amgylchedd yn y 13 o draethau baner las sydd gennym, y dŵr yfed glân a'r awyr lân. Yn fy etholaeth i yn Nhorfaen, mae'r Undeb Ewropeaidd wedi rheoli rhai o'r difwynyddion mwyaf peryglus a fewnforiwyd i losgydd Rechem ym Mhont-y-pŵl. Drwy'r Undeb Ewropeaidd gwelsom fuddsoddi enfawr yn yr amgylchedd lleol mewn llawer o ardaloedd eraill. Mae hyn yn cynnwys £3.1 miliwn i amddiffyn yr arfordir yn Nhowyn, Sir Ddinbych, £600,000 ar gyfer project gwella cefn gwlad ym Mharc Cenedlaethol Eryri a dynodi 500,000 hectar yng Nghymru yn ardaloedd amgylcheddol sensitif, gan sicrhau y cedwir y cynefinoedd

these special habitats for local wildlife.

Europe has put in place measures designed to protect us as consumers and to give us a better deal. From action to protect us against timeshare sharks, new laws to give us a fair deal when buying by mail order, the proper regulation of loans and credit services, and directives to cut down on small print in contracts, Europe has consistently put the consumer's needs high on its agenda.

Last week, when South Africa went to the polls in the second democratic election in its history, over 16 million of the 18 million electorate voted. Many queued for hours to cast their vote. On Thursday there is a European election. We fear that the turnout will be low, primarily because the European Union is not seen as relevant to our lives. As newly-elected politicians we must do what we can to ensure that turnout is as high as possible. Europe is not unimportant or irrelevant, but vital to the future success of Wales.

There is an untold story about Europe that may persuade your constituents to vote on Thursday. The EU story is not one of straight bananas or the banning of double-decker buses, as some newspapers would have us believe. It is a story of the real benefits and gains that Wales gets from being in the European Union. It is the £2 million of European funding that my constituency, Torfaen, received last year alone. It includes the huge benefit of the £3.9 million invested in regenerating the Townhill estate in Swansea. It is the almost £1 million that helped redevelop Porthcawl promenade. It is the £600,000 for the Bryncynon community revival strategy and the £250,000 to complete improvements in Merthyr town centre. It is the £11 billion of inward investment that Wales has attracted since 1983, much of which could not have been achieved without the EU investment in our industrial infrastructure.

arbennig hyn i fywyd gwylt lleol.

Mae Ewrop wedi gweithredu mesurau er mwyn ein gwarchod fel defnyddwyr ac i roi borgen well i ni. Drwy weithredu i'n hamddiffyn rhag twyllwyr cynlluniau rhannu amser, deddfau newydd i roi borgen deg i ni pan fyddwn yn prynu drwy archebu drwy'r post, rheolaeth briodol ar wasanaethau benthyca a chredyd, a chyfarwyddbau i gwtogi ar brint mân mewn contractau, mae Ewrop wedi rhoi anghenion y defnyddiwr yn uchel ar ei hagenda bob amser.

Yr wythnos diwethaf, pan aeth De Affrica i bleidleisio yn yr ail etholiad democrataidd yn ei hanes, yr oedd 16 miliwn o blith y 18 miliwn o etholwyr wedi pleidleisio. Safodd llawer mewn ciw am oriau i fwrw eu pleidlais. Ar ddydd Iau fe geir etholiad Ewropeaidd. Yr ydym yn ofni mai isel fydd y nifer a â i bleidleisio, yn bennaf am nad ystyriwn fod yr Undeb Ewropeaidd yn berthnasol i'n bywydau. Fel gwleidyddion sydd newydd ein hethol rhaid inni wneud yr hyn a allwn i sicrhau bod y nifer sy'n pleidleisio cyn uchel â phosibl. Nid yw Ewrop yn ddibwys nac yn amherthnasol; mae'n hanfodol i lwyddiant Cymru yn y dyfodol.

Mae stori sydd heb ei dweud am Ewrop a allai berswadio'ch etholwyr i bleidleisio ar ddydd Iau. Nid stori am fananas syth neu wahardd bysiau deulawr yw stori'r UE, fel y byddai rhai papurau newydd am inni gredu. Mae'n stori am y manteision a'r enillion gwirioneddol y mae Cymru yn eu cael drwy fod yn yr Undeb Ewropeaidd. Hon yw'r £2 filiwn o arian o gronfeydd Ewrop a dderbyniodd fy etholaeth, Torfaen, llynedd yn unig. Mae'n cynnwys y budd enfawr o'r £3.9 miliwn a fuddsoddwyd i adfywio stad Townhill yn Abertawe. Hon yw'r £1 miliwn bron a helpodd i ailddatblygu promenâd Porthcawl. Hon yw'r £600,000 ar gyfer strategaeth adfywio gymunedol Bryncynon a'r £250,000 i gwblhau gwelliannau yng nghanol tref Merthyr. Hon yw'r £11 biliwn o fuddsoddi o'r tu allan a ddenodd Cymru ers 1983, y byddai llawer ohono'n amhosibl ei ennill heb fuddsoddiad yr UE yn ein hisadeiledd diwydiannol.

The European Union has already provided £1 billion in grants for Welsh people. The £1.3 billion Objective 1 money is yet another instalment in that package. There are examples from every Welsh constituency, and probably from every part of every constituency, to illustrate the benefits that Wales enjoys from Europe. As well as giving Wales and the UK a real say in the post cold war world, and a stake in a globalising economy, the EU has delivered real bread-and-butter benefits to the people and communities of Wales. The Assembly should learn from the partnership and the constructive relationship that the Labour Government has adopted. If we are to get the most from Europe, then we have to be engaged and play a full part in UK delegations and representations.

The EU is embarking on the most radical changes ever seen in its history, with enlargement, reform of the Common Agricultural Policy and institutional modernisation. These changes are driven by the centre left governments of the EU, with the Labour Government leading the way. As we begin to heal the wounds of the cold war and bring economic prosperity and democracy to post-Soviet regions, we must recognise that in order for Wales and this Assembly to have a voice we cannot go it alone, either outside Europe or outside the UK. The only way that the Assembly can play a full part is to be a strong voice in a Britain that leads in Europe. That is the choice for Wales on Thursday: isolation, retreat and weakness or a strong voice that leads in Europe and achieves real benefits for Welsh people.

The First Secretary: I congratulate Lynne on securing the debate and I am pleased to have the opportunity to respond. To those of our colleagues who have left, I would say that there may be occasions on which many of us are not keen on the subject chosen for debate. The ballot is to give ordinary Assembly Members an opportunity to raise a debate, and I am sure that we will develop a positive attitude to short debates, as we have

Mae'r Undeb Ewropeaidd eisoes wedi darparu £1 biliwn ar ffurf grantiau i bobl Cymru. Mae'r £1.3 biliwn o arian Amcan 1 yn rhandaliad arall eto yn y pecyn hwnnw. Fe geir enghreifftiau ym mhob etholaeth yng Nghymru, ac yn ôl pob tebyg ym mhob rhan o bob etholaeth, i ddangos y manteision a gaiff Cymru o Ewrop. Yn ogystal â rhoi llais gwirioneddol i Gymru a'r DU yn y byd sy'n dilyn y rhyfel oer, a rhan mewn economi sy'n cwmpasu'r byd, mae'r UE wedi dod â manteision ymarferol gwirioneddol i bobl a chymunedau Cymru. Dylai'r Cynulliad ddysgu oddi wrth y bartneriaeth a'r berthynas adeiladol a fabwysiadwyd gan y Llywodraeth Lafur. Os ydym i gael y budd mwyaf o Ewrop, rhaid inni gymryd rhan a chwarae rhan gyflawn yn nirprwyaethau a chynrychiolaethau'r DU.

Mae'r UE yn dechrau ar un o'r newidiadau mwyaf sylfaenol a welwyd erioed yn ei hanes, gydag ehangu, diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a moderneiddio sefydliadau. Gyrrir y newidiadau hyn gan lywodraethau'r chwith ganol yn yr UE, a'r Llywodraeth Lafur yn arwain y ffordd. Wrth inni ddechrau gwella'r clwyfau ar ôl y rhyfel oer a dod â ffyniant economaidd a democratiaeth i'r cyn-ranbarthau Sofietaidd, rhaid inni gydnabod, er mwyn i Gymru a'r Cynulliad hwn gael llais, na allwn fynd ar ein liwt ein hun, un ai y tu allan i Ewrop neu'r tu allan i'r DU. Yr unig fodd i'r Cynulliad gael chwarae rhan lawn yw drwy fod yn llais cryf mewn Prydain sydd yn arwain yn Ewrop. Dyna yw'r dewis i Gymru ar ddydd Iau: arwahanu, encilio a gwendid neu lais cryf sydd yn arwain yn Ewrop ac yn sicrhau manteision gwirioneddol i bobl Cymru.

Y Prif Ysgrifennydd: Llongyfarchaf Lynne ar sicrhau'r ddadl ac yr wyf yn falch o gael y cyfle i ateb. Yr hyn a ddywedwn wrth y rhai sydd wedi ymadael yw ei bod yn bosibl y bydd adegau pan na fydd y pwnc a ddewisir i'r ddadl wrth fodd llawer ohonom. Diben y bleidlais yw rhoi cyfle i Aelodau cyffredin y Cynulliad godi dadl, ac yr wyf yn sicr y byddwn yn datblygu ymagwedd gadarnhaol at ddadleuon byr, fel y gwnaethom ynghylch

done with questions and other debates.

Alun Cairns: Surely the First Secretary cannot agree with the practice of using a debate in the week of a European election campaign? The Assembly has been brought into disrepute purely for the party political gain of the Labour Party.

The First Secretary: That is a very cynical way of approaching it. An individual Assembly Member has the opportunity to raise an issue of current importance to people in Wales. It is for me to respond to the points raised. It is true that the situation in Europe is important for Wales. We are faced with a new political landscape, with calls for us to opt out of Europe, with the challenge to avoid being inward-looking. In the UK and Wales we cannot afford to miss the opportunity to be part of the dynamic movement that will shape the future. As we found in previous decades, Europe affected us even when we were outside it. The Government seeks to work with our European partners to set the agenda to transform relations, and perhaps most important, to dispel the myth of Europe as something that is done to us rather than something in which we can participate.

4:19 p.m.

The challenge is to look at the role of Wales within Europe and the relationship that the Assembly must develop with Europe. This is how I wish to respond, but I am happy to give way.

Alun Cairns: From your initial comments, I assume that you are happy with the Conservative Party slogan of being in Europe and not run by Europe.

The First Secretary: I am happy with the concept that we should be in Europe and not run by Europe; we need to play a part in running Europe. I am not sure that it accurately reflects all the strands of thought within the Conservative Party at the present time. It may be something we will learn in future debates on Europe in this Chamber.

y sesiynau holi a dadleuon eraill.

Alun Cairns: Ni allaf gredu bod y Prif Ysgrifennydd yn cytuno â'r arfer o ddefnyddio dadl yn yr un wythnos ag ymgyrch etholiad Ewropeaidd. Rhoddwyd enw drwg i'r Cynulliad a hynny ond er mantais wleidyddol bleidiol i'r Blaid Lafur.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae hynny'n agwedd sinigaidd iawn at y mater. Mae cyfle i Aelod unigol o'r Cynulliad godi mater sydd o bwys ar y pryd i bobl Cymru. Fy lle i yw ymateb i'r pwyntiau a godir. Mae'n wir bod y sefyllfa yn Ewrop yn bwysig i Gymru. Yr ydym yn wynebu tirwedd gwleidyddol newydd, gyda galwadau arnom i ymeithrio o Ewrop, gyda'r sialens i ochel rhag bod yn ynysig. Yn y DU ac yng Nghymru ni allwn fforddio colli'r cyfle i fod yn rhan o'r symudiad egniol fydd yn ffurfio'r dyfodol. Fel y gwelsom mewn degawdau blaenorol, yr oedd Ewrop yn effeithio arnom hyd yn oed pan oeddem y tu allan iddi. Mae'r Llywodraeth yn ceisio gweithio gyda'n partneriaid yn Ewrop i osod yr agenda er mwyn gweddwid cydberthynasau, ac yn bwysicaf efallai, i chwalu'r myth bod Ewrop yn rhywbeth a wneir i ni yn hytrach nag yn rhywbeth y gallwn gymryd rhan ynddo.

Y sialens yw edrych ar rôl Cymru o fewn Ewrop a'r berthynas y bydd raid i'r Cynulliad ei datblygu gydag Ewrop. Dyna sut y dymunaf ymateb, ond yr wyf yn falch o ildio.

Alun Cairns: Yn ôl eich sylwadau dechreuol, cymeraf eich bod yn fodlon â slogan y Blaid Geidwadol o fod yn Ewrop ond heb gael ein rhedeg gan Ewrop.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn fodlon â'r syniad y dylem fod yn Ewrop ond heb gael ein rhedeg gan Ewrop; mae angen inni chwarae rhan wrth redeg Ewrop. Nid wyf yn sicr ei fod yn wir adlewyrchiad o'r holl safbwyntiau o fewn y Blaid Geidwadol ar hyn o bryd. Efallai y dysgw'n fwy am hynny mewn dadleuon ar Ewrop yn y Siambr hon yn y dyfodol.

One of the Member States of the European Union is the UK and the Assembly must work with the UK Government within the policy framework developed at UK level. We have the opportunity to make a contribution to the development of that agenda. The development of UK policy and the Assembly's representatives will play their part in the regular programme of discussions with our European partners as members of the UK negotiating team. They will replace Jon Owen Jones, Peter Hain or myself in discussions, along with UK Ministers and Ministers from Scotland and Northern Ireland, so that we have an opportunity to make an important impact on the way we work in Europe.

There is also an opportunity to develop the contacts we have made with other regions in Europe—Baden-Württemberg is a good example. Wales has developed strong contacts with this region and like other Members in this Chamber, I have been involved in making contacts with Stuttgart over the years. We will need to develop more direct links with European institutions and consider an increased representative presence in Brussels to ensure that the Assembly's contribution is a positive and creative one.

The shape of the Assembly is emerging and I want to see a structure that will help us enhance and develop the links with Europe. Rhodri Morgan, as the Assembly Secretary for Economic Development and the Economic Development Committee chaired by Ron Davies with that brief, will make a major contribution to building that structure.

A valuable report was prepared by Hywel Ceri Jones, Chair of the European Strategy Group, which will need careful consideration by the Assembly, while we judge how to make the best impact within Europe.

Michael German: We consider this issue too important to walk out on. There are Standing Orders that the Members who left could have used to close the debate, with

Un o Aelodau Wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd yw'r DU a rhaid i'r Cynulliad weithio gyda Llywodraeth y DU o fewn y fframwaith polisi a ddatblygir ar lefel y DU. Mae gennym gyfle i gyfrannu at ddatblygu'r agenda hwnnw—datblygu polisi'r DU—a bydd cynrychiolwyr y Cynulliad yn chwarae eu rhan yn y rhaglen reolaidd o drafodaethau â'n partneriaid Ewropeaidd fel aelodau o dîm negodi'r DU. Byddant yn cymryd lle Jon Owen Jones, Peter Hain neu fi fy hun mewn trafodaethau, ynghyd â Gweinidogion y DU a Gweinidogion o'r Alban a Gogledd Iwerddon, fel y cawn gyfle i gael effaith bwysig ar y modd y byddwn yn gweithio yn Ewrop.

Mae cyfle hefyd i ddatblygu'r cysylltiadau a greasom gyda rhanbarthau eraill yn Ewrop—mae Baden-Württemberg yn enghraifft dda. Mae Cymru wedi datblygu cysylltiadau cryf â'r rhanbarth hwn ac fel Aelodau eraill yn y Siambr hon, bûm â rhan mewn creu cysylltiadau â Stuttgart dros y blynyddoedd. Mae angen inni ddatblygu rhagor o gysylltiadau uniongyrchol â sefydliadau Ewropeaidd ac ystyried cael mwy o gynrychiolaeth ym Mrwsel er mwyn sicrhau bod cyfraniad y Cynulliad yn gadarnhaol ac yn greadigol.

Mae ffurf y Cynulliad yn dechrau amlygu ei hun ac yr wyf am weld strwythur a fydd yn ein helpu i wella a datblygu'r cysylltiadau ag Ewrop. Bydd Rhodri Morgan, fel Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd dan gadeiryddiaeth Ron Davies sydd â'r briff hwnnw, yn cyfrannu'n helaeth at adeiladu'r strwythur hwnnw.

Paratowyd adroddiad gwerthfawr gan Hywel Ceri Jones, Cadeirydd y Grŵp Strategaeth Ewropeaidd, y bydd angen i'r Cynulliad ei ystyried yn ofalus, wrth inni benderfynu sut i gael yr effaith orau o fewn Ewrop.

Michael German: Yr ydym o'r farn bod y mater hwn yn un rhy bwysig i'w adael drwy gerdded allan. Mae Rheolau Sefydlog y gallasai'r Aelodau a adawodd eu defnyddio i

such a majority. This is our first controversial debate and it is very strange that they deal with it by walking out.

We stayed because we want to push the Labour Party that little bit further and I ask the First Secretary whether he will comment on the strength of the pound—that was discussed earlier with reference to the steel industry and investment. The people of Wales are looking for a clear sign on entry into the euro and when it is likely to happen. We must find some way of decreasing the level of sterling so that Welsh industry can remain competitive. It would be interesting to see where the Labour Party stands on this issue. Again, there is some doubt about match funding.

This type of debate should not be used as a straightforward party political broadcast, but should discuss matters of broader concern in keeping with the spirit of the Assembly. We are trying to create a new style of politics to replace the divisive style. The First Secretary is responding in that divisive style. I hope he can comment on the way he is dealing with this as I do not wish to see such a development. I want to know whether the Labour Party is going to move further towards the Liberal Democrat line, to achieve lower interest rates in Wales, and lower sterling so that we have a clear sign about our position on match funding for Objective 1.

The First Secretary: I thank Mike for his contribution and I appreciate that he is trying to engage with the issues that this Assembly needs to take seriously—the impact of the strength of the pound on the Welsh economy and on exporters. This comes up frequently, and the challenge for the Chancellor is to stabilise the UK economy wherever possible, so that interest rates are at a level that encourages growth and positive economic development. Our responsibilities allow us to work in that context and contribute to the overall economic strength of the UK by making a stronger Wales, which is our

gau'r ddadl, gyda mwyafrif o'r fath. Hon yw'n dadl ddadleuol gyntaf ac mae'n rhyfedd iawn eu bod yn delio â hynny drwy gerdded allan.

Bu inni aros am ein bod am wthio'r Blaid Lafur ychydig bach yn bellach ac yr wyf yn gofyn i'r Prif Ysgrifennydd a yw'n fodlon rhoi sylw ar gryfder y bunt—fe drafodwyd hynny yn gynharach mewn perthynas â'r diwydiant dur a buddsoddi. Mae pobl Cymru yn chwilio am arwydd pendant ynghylch mynd i mewn i'r ewro a pha bryd y mae hynny'n debygol o ddigwydd. Rhaid inni ganfod rhyw ffordd i ostwng lefel sterling fel y gall diwydiant Cymru barhau i fod yn gystadleuol. Diddorol fyddai gweld ym mhle mae'r Blaid Lafur yn sefyll ar y mater hwn. Unwaith eto, mae peth amheuaeth ynghylch ariannu cyfatebol.

Ni ddylid defnyddio dadl o'r math hwn fel darllediad gwleidyddol syml, ond fe ddylai drafod materion o ddiddordeb ehangach sy'n gydnaws ag ysbryd y Cynulliad. Yr ydym yn ceisio creu dull newydd o wleidyddia i gymryd lle'r dull cynhennus. Mae'r Prif Ysgrifennydd yn ymateb yn y dull cynhennus hwnnw. Gobeithio y bydd yn gallu rhoi sylw ar y modd y mae'n ymdrin â hyn oherwydd nid wyf yn dymuno gweld datblygiad o'r fath. Yr wyf am wybod a fydd y Blaid Lafur yn symud ymhellach tuag at safbwynt y Democratiaid Rhyddfrydol, er mwyn sicrhau cyfraddau llog is yng Nghymru, a gostwng lefel sterling fel y bydd gennym arwydd pendant ynghylch ein sefyllfa o ran ariannu cyfatebol i Amcan 1.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn diolch i Mike am ei gyfraniad a gwerthfawrogaf ei fod yn ceisio ymdrin â'r materion y mae angen i'r Cynulliad hwn eu cymryd o ddifrif—effaith cryfder y bunt ar economi Cymru ac ar allforwyr. Mae hyn yn codi'n aml, a'r sialens i'r Canghellor yw sefydlogi economi'r DU lle bynnag y bo modd, fel bod cyfraddau llog ar lefel sy'n meithrin twf a datblygu economaidd cadarnhaol. Mae ein cyfrifoldebau yn caniatáu inni weithio yn y cyd-destun hwnnw a chyfrannu at gryfder economaidd cyffredinol y DU drwy greu Cymru gryfach, sydd yn gyd-ddyhead

collective aspiration.

On the euro, the Government has made it clear that it is a question of taking a decision at the right time in the interests of the UK economy and being positive about the way in which we pursue that objective. Mike, you say that there is doubt about match funding and the way we approach the opportunity offered by Objective 1 status. Plaid Cymru raised this fear, stating that we would not achieve Objective 1 status for Wales—we have achieved Objective 1 status for Wales.

Our Government is committed to ensuring that we can make the best use of that Objective 1 status. As Members, we can ensure that the strategy being developed by the Working Group is properly considered by all sectors in Wales. This strategy must be properly digested and completed by this Assembly, so that Objective 1 status gives us the opportunity to transform the economy of Wales over a period of years, and ensure that we achieve long term prosperity and job security.

Mick Bates: We hear a lot about Objective 1. I ask the First Secretary to support east Wales, which was unfairly ruled out of Objective 1 status and is now fighting for Objective 2 status. This is essential to prove the inclusive nature of this Assembly.

In addition, there are many Welsh Office projects that require the release of funds to continue to ensure European funding. Would the First Secretary address this point?

The First Secretary: Statistics determined the qualification for Objective 1 and every care was taken to ensure the best possible deal for the maximum area of Wales within the regulations that governed the identification of Objective 1. We achieved this and many are jealous. He is right to note that it does not cover the whole of Wales and we want to see the continuation of economic development in south-east and north-east

gennym.

Ynglŷn â'r ewro, mae'r Llywodraeth wedi egluro bod hyn yn fater o benderfynu ar yr adeg iawn er budd economi'r DU a bod yn gadarnhaol ynghylch y modd y byddwn yn dilyn yr amcan hwnnw. Mike, fe ddywedwch fod amheuaeth ynghylch ariannu cyfatebol a'r modd yr ydym yn ymdrin â'r cyfle a gynigir drwy statws Amcan 1. Plaid Cymru a gododd yr ofn hwn, gan ddweud na fyddem yn ennill statws Amcan 1 i Gymru—yr ydym wedi ennill statws Amcan 1 i Gymru.

Mae ein Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau y byddwn yn defnyddio'r statws Amcan 1 hwnnw yn y modd gorau posibl. Fel Aelodau, gallwn sicrhau y caiff y strategaeth sy'n cael ei datblygu gan y Gweithgor ei ystyried yn briodol gan yr holl sectorau yng Nghymru. Rhaid i'r strategaeth hon gael ei chymathu a'i chwblhau gan y Cynulliad hwn, fel bod statws Amcan 1 yn rhoi'r cyfle inni drawsnewid economi Cymru dros gyfnod o flynyddoedd, a sicrhau ffyniant a diogelwch swyddi yn y tymor hir.

Mick Bates: Byddwn yn clywed llawer am Amcan 1. Yr wyf yn gofyn i'r Prif Ysgrifennydd gefnogi dwyrain Cymru, a ddiystyrwyd yn annheg rhag derbyn statws Amcan 1 ac sydd bellach yn ymladd am statws Amcan 2. Mae'n hanfodol dangos natur gynhwysol y Cynulliad hwn.

Yn ogystal â hynny, mae llawer o brosiectau'r Swyddfa Gymreig y mae angen rhyddhau arian ar eu cyfer er mwyn dal i fod yn sicr o dderbyn arian o gronfeydd Ewrop. A yw'r Prif Ysgrifennydd yn fodlon ymdrin â'r pwynt hwn?

Y Prif Ysgrifennydd: Ystadegau oedd yn pennu cymhwyster i dderbyn statws Amcan 1 a chymerwyd pob gofal i sicrhau'r fargen orau posibl i'r arwynebedd mwyaf posibl yng Nghymru o dan y rheoliadau ar gyfer dynodi Amcan 1. Llwyddasom i wneud hynny ac mae llawer yn eiddigeddus. Mae'n iawn i nodi nad yw'n cynnwys Cymru gyfan ac yr ydym am weld parhad mewn datblygu economaidd yn ne-ddwyrain a gogledd-

Wales, and in Powys. It is very important that our strategy for dealing with economic development covers the whole of Wales, and that objectives supplementary to Objective 1 provide opportunities in other parts of Wales.

The integrated approach to the economy that Mick Bates requests was at the forefront of our minds when we devised the economic development strategy. A large proportion of our trade is with Europe and we derive a great deal of economic, social and cultural benefit from those links. I recently made that point to business leaders in New York, Chicago, Detroit and Toronto, and firms that have invested in Wales are prepared to echo my words about Wales being a good base for doing business in Europe. We need to get the message across time and time again forcefully and with conviction to inward investors and to our own indigenous businesses. Our drive into Europe must be about our own firms too.

The Assembly takes over responsibility and can build on a wide and varied existing pattern of links with Europe. As well as formal links with the four motor regions in Europe, we are represented on the EU's Committee of the Regions and the Economic and Social Committee. These are integral to the EU's decision-making processes and the Assembly must build on those links and achievements to take them forward into the millenium.

In response to this short debate, we must emphasise the fact that Wales and Europe are inextricably linked. Giving Wales a strong voice in the UK and, therefore, a strong voice in Europe, is absolutely crucial. The development of Welsh regional government is resulting in a fresh interest in and an emphasis on European matters, as Wales asserts a distinctive identity and a place in the Europe of the future.

4:29 p.m.

I am glad Lynne Neagle has raised the issue

ddwyrain Cymru, ac ym Mhowys. Mae'n bwysig iawn bod ein strategaeth ar gyfer ymdrin â datblygu economaidd yn cynnwys Cymru gyfan, a bod amcanion sydd yn atodol i Amcan 1 yn rhoi cyfleoedd mewn rhannau eraill o Gymru.

Yr oedd y dull gweithredu integreiddiedig i ymdrin â'r economi y mae Mick Bates yn gofyn amdano ym mlaen ein meddwl wrth lunio'r strategaeth datblygu economaidd. Mae cyfran fawr o'n masnach ag Ewrop ac yr ydym yn cael llawer iawn o fudd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol o'r cysylltiadau hynny. Fe wneuthum y pwynt hwn yn ddiweddar i arweinyddion busnes yn Efrog Newydd, Chicago, Detroit a Toronto, ac mae cwmnïau sydd wedi buddsoddi yng Nghymru yn barod i ategu fy nisgrifiad o Gymru fel man cychwyn da i fasnachu yn Ewrop. Mae angen inni drosglwyddo'r neges dro ar ôl tro yn rymus a chydag argyhoeddiad i fuddsoddwyr o'r tu allan ac i'n busnesau cynhenid ein hunain. Rhaid i'n hymgyrch yn Ewrop gynnwys ein busnesau ein hunain hefyd.

Mae'r Cynulliad yn ymgymryd â chyfrifoldeb a gall adeiladu ar batrwm eang ac amrywiol o gysylltiadau ag Ewrop. Yn ogystal â chysylltiadau ffurfiol â'r pedwar rhanbarth ysgogol yn Ewrop, mae gennym gynrychiolaeth ar Bwyllgor Rhanbarthau'r UE a'r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol. Mae'r rhain yn rhan hanfodol o brosesau penderfynu'r UE a rhaid i'r Cynulliad adeiladu ar y cysylltiadau a'r cyflawniadau hynny i'w datblygu yn y mileniwm newydd.

Er mwyn ymateb i'r ddadl fer hon, rhaid inni bwysleisio'r ffaith bod Cymru ac Ewrop yn annatod. Mae rhoi llais cryf i Gymru yn y DU ac, felly, llais cryf yn Ewrop, yn gwbl hanfodol. Mae datblygiad llywodraeth ranbarthol yng Nghymru yn arwain at ddiddordeb a phwyslais newydd mewn perthynas â materion Ewropeaidd, wrth i Gymru ddatgan ei hunaniaeth ei hun a'i lle yn Ewrop y dyfodol.

Mae'n dda gennyf fod Lynne Neagle wedi

and we will need to return to it. We have made our ambitions clear. To maximise our potential in Europe, we need a strong voice, not a whisper, to offer decisive leadership and to work with colleagues in other parts of the UK. I hope my comments provide an indication of the importance I personally attach to the European dimension of our work. I hope the Assembly agrees and that the people of Wales will reflect that by using their votes in Thursday's European elections because Europe is important to us all.

Y Llywydd: Ar ddechrau'r ddadl fer, yr oedd rhai Aelodau yn awyddus i godi pwyntiau o drefn. Eglurais y byddwn yn derbyn y pwyntiau ac yn eu hystyried ar ddiwedd y ddadl. Gwelaf nad yw'r Aelodau hynny'n bresennol, ac felly nid oes rhaid ystyried eu pwyntiau. Oherwydd hynny, diolchaf i bawb sydd ar ôl ac yr wyf yn dod â'r ddadl a'r sesiwn i ben.

codi'r mater hwn a bydd angen inni ddod yn ôl ato. Yr ydym wedi datgan ein dyheadau'n eglur. Er mwyn hyrwyddo'n potensial yn Ewrop, bydd raid inni gael llais cryf, nid sibrydiad, er mwyn cynnig arweinyddiaeth bendant a gweithio gyda chyd-weithwyr mewn rhannau eraill o'r DU. Gobeithio bod fy sylwadau yn rhoi arwydd o'r pwys a roddaf fi ar ddimensiwn Ewropeaidd ein gwaith. Gobeithio bod y Cynulliad yn cytuno ac y bydd pobl Cymru yn adlewyrchu hynny drwy ddefnyddio eu pleidlais yn yr etholiadau Ewropeaidd ddydd Iau oherwydd mae Ewrop yn bwysig i ni i gyd.

The Presiding Officer: At the beginning of the short debate, some Members indicated they were keen to raise points of order. I made it clear I would accept those points and consider them at the end of the debate. I notice that those Members are no longer present, therefore I do not have to consider their points. For that reason, I thank those remaining and bring this debate and session to a close.

*Daeth y sesiwn i ben am 4.31 p.m.
The session ended at 4.31 p.m.*

